



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 19 Hydref 1999**  
**Tuesday 19 October 1999**

**Cynnwys**  
**Contents**

2	Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd <i>Questions to the First Secretary</i>
14	Pwynt o Drefn <i>Point of Order</i>
16	Datganiad Busnes <i>Business Statement</i>
18	Cynnig o Gerydd <i>Censure Motion</i>
28	Dogfennau Strategaeth Ewropeaidd <i>European Strategy Documents</i>
76	Dadl Fer: Clefyd Alzheimer a Rhoi Aricept ar Bresgripsiwn <i>Short Debate: Alzheimer's Disease and the Prescribing of Aricept</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

### **Gweinyddu'r Tasglu Ewropeaidd Administration of the European Taskforce**

**Q1 Jonathan Morgan:** What representation has the Executive received in relation to the administration of the European taskforce? (OAQ1455)

**The First Secretary:** Rhodri Morgan and I have received a small number of representations concerning the composition and workings of the European taskforce since its establishment in October 1998. There have been isolated expressions of concern on specific issues, which I addressed as soon as they were raised with me. We should be grateful to the taskforce whose members have helped to start the Objective 1 process on the principles of partnership to which the Assembly is committed.

**Jonathan Morgan:** Will the First Secretary respond to the claim by the Federation of Small Businesses in a letter last month to the Secretary for Economic Development, that there is a general feeling within business circles that the private sector is almost totally ignored with regard to Objective 1 funding and what urgent action will he therefore take to revive business involvement in this project?

**The First Secretary:** There is no need to revive business involvement, as it is strong. I have come from a meeting with representatives of the South West Wales Economic Development Forum, where they spoke strongly about the way they want to use Objective 1 positively. They expressed some irritation at the way that business involvement has been talked down.

Rhodri Morgan has replied to the comments made by the Federation of Small Businesses

**C1 Jonathan Morgan:** Pa sylwadau y mae'r Weithrediaeth wedi eu derbyn mewn perthynas â gweinyddu'r tasglu Ewropeaidd? (OAQ1455)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Rhodri Morgan a minnau wedi derbyn nifer fach o sylwadau ynghylch cyfansoddiad a gwaith y tasglu Ewropeaidd ers ei sefydlu yn Hydref 1998. Bu ambell ddatganiad o bryder ynghylch materion penodol ac ymdriniais â'r rhain cyn gynted ag y tynnwyd fy sylw atynt. Dylem fod yn ddiolchgar i'r tasglu y mae ei aelodau wedi helpu i ddechrau proses Amcan 1 ar sail yr egwyddorion o bartneriaeth y mae'r Cynulliad wedi ymrwymo iddynt.

**Jonathan Morgan:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn ymateb i honiad Ffederasiwn y Busnesau Bychain mewn llythyr y mis diwethaf at yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, fod ymdeimlad cyffredinol ym myd busnes bod y sector preifat wedi ei anwybyddu'n llwyr bron mewn perthynas ag ariannu Amcan 1 a pha gamau brys y bydd ef yn eu cymryd felly er mwyn adfywio cyfraniad busnes yn y prosiect hwn?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes angen adfywio cyfraniad busnes, gan ei fod yn gryf. Yr wyf wedi dod o gyfarfod â chynrychiolwyr o Fforwm Datblygu Economaidd De Orllewin Cymru, lle y siaradasant yn gryf ynghylch y modd y maent yn dymuno defnyddio Amcan 1 yn gadarnhaol. Mynegasant gryn ddiacter ganddynt ynghylch y modd y mae cyfraniad busnes wedi ei fychanu.

Mae Rhodri Morgan wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd gan Ffederasiwn y

refuting the points made, most of which were vague and unsubstantiated. Rhodri has a meeting with representatives of the Federation soon so that any misunderstandings about the taskforce will be quickly resolved. There have been some isolated voices expressing problems but I assure you and the Assembly of our commitment to work closely with business. I am pleased that this has been reflected by the responses that I have heard from a range of business leaders who share that commitment on the other side of the divide.

**Elin Jones:** Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sefydlu pwyllgor monitro cysgodol ar gyfer dosbarthu'r cronfeydd strwythurol a thrwy hynny sefydlu rôl y sectorau busnes, gwirfoddol a chyhoeddus yn y broses o ddarparu'r cronfeydd strwythurol yng Nghymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dywedais wrth swyddogion y bore yma fod arnaf eisiau i hyn gael ei sefydlu'n fuan. Rhaid inni symud ymlaen yn gyflym. Rhaid dadlau ynghylch y broses gyda'r swyddogion yn Ewrop ac mae hynny yn cymryd amser. Serch hynny, i gynyddu hyder yn y broses, dylid sefydlu'r grŵp newydd cyn gynted ag y bo modd.

**Michael German:** Does the First Secretary believe that the traditional sources of match funding in the European programmes in Wales which consist of, and I quote from the taskforce document,

'...the Assembly itself, local authorities, agencies such as the Welsh Development Agency, Wales Tourist Board, Countryside Council for Wales, TECs, further and higher education, the voluntary sector and the private sector...'

are sufficient to find the necessary increase in the match funding to meet the requirements in Objective 1? If so, why has the Assembly not been informed that the Welsh block grant is about to be augmented by almost £200 million a year?

**The First Secretary:** There are two

Busnesau Bychain gan wrthbrofi'r pwyntiau a wnaethpwyd, y rhan fwyaf ohonynt yn rhai annelwig a di-sail. Mae gan Rhodri gyfarfod â chynrychiolwyr y Ffederasiwn yn fuan fel y datrysir unrhyw gamsyniadau ynghylch y tasglu yn ddiymdroi. Mae ambell un wedi crybwyll problemau ond yr wyf yn eich sicrhau chi a'r Cynulliad am ein hymrwymiad i weithio'n agos gyda busnes. Mae'n dda gennyf fod hyn wedi ei adlewyrchu yn yr ymatebion a glywais oddi wrth amryw o arweinwyr busnes sydd yn rhannu'r ymrwymiad hwnnw ar eu hochr hwy i'r terfyn.

**Elin Jones:** When does the First Secretary intend to establish a shadow monitoring committee for the distribution of the structural funds and, in so doing, establish the role of the business, voluntary and public sectors in the process of delivering the structural funds in Wales?

**The First Secretary:** I informed officials this morning that I want this to be established soon. We must move forward quickly. This process must be debated with officials in Europe and that takes time. However, to increase confidence in the process, the new group should be established as soon as possible.

**Michael German:** A yw'r Prif Ysgrifennydd o'r farn bod ffynonellau traddodiadol ariannu cyfatebol yn y rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru sydd yn cynnwys, a dyfynnaf o ddogfen y tasglu,

'...y Cynulliad ei hun, awdurdodau lleol, asiantaethau megis y WDA, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, cynghorau hyfforddiant a menter, addysg bellach ac uwch, y sector wirfoddol a'r sector breifat...'

yn ddigonol er mwyn canfod y cynnydd angenrheidiol yn yr arian cyfatebol i dalu am anghenion Amcan 1? Os felly, pam na roddwyd gwybod i'r Cynulliad fod bron £200 miliwn y flwyddyn ar fin cael ei ychwanegu at grant bloc Cymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae dwy elfen yma:

elements here: public match funding and private match funding. We need to recognise that large sums of money can come into the process as they did in Ireland. In the last few days, a businessman mentioned to me that little is said about the amount of private sector money from outside Ireland that was received during their successful Objective 1 period. There are a range of options for the way that private sector money can come in. I was encouraged by the confidence expressed in that discussion.

On the level of finance, I have repeated often enough, Mike, that we have the necessary money for the first year which is within the current financial planning horizon. The figures agreed with the Treasury allow us to have full confidence and that has always been the case. Working through the implications of Objective 1 for the longer term of public finances is part of the normal review process. That is the case for everything else. In theory you do not know that there is going to be money at all for the health service, education or the Welsh block after the current planning horizon. However, we all know that there will be money available and that there is a process which determines the finances available in the longer-term future. We have had every assurance that that is a process which will deal with the needs of Wales in terms of Objective 1. I acknowledge that there are needs, and that there is an issue to be dealt with and a case to be made. I assure you that that case will be made as vigorously as possible at every stage and that the ground will be prepared as thoroughly as possible. We will continue to have a strong voice in the negotiations.

**Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Chwaraeon Cymru (Cyfuno)**  
**The Sports Council for Wales and Welsh Sports Trust (Merger)**

**Q2 Alison Halford:** Will the First Secretary initiate a study to assess what costs may be saved by merging the Sports Council for Wales and the Welsh Sports Trust? (OAQ1474)

**The First Secretary:** If there were any

arian cyfatebol cyhoeddus ac arian cyfatebol preifat. Mae angen inni gydnabod bod modd i symiau mawr o arian ddod i'r broses fel y gwnaethant yn Iwerddon. Yn y dyddiau diwethaf, soniodd dyn busnes wrthyf mai ychydig a ddywedir am y swm o arian sector preifat o'r tu allan i Iwerddon a dderbyniwyd yn ystod eu cyfnod Amcan 1 llwyddiannus. Mae amryw o ddewisiadau ar gyfer y modd y gall arian sector preifat ddod i mewn. Cefais fy nghalonogi gan yr hyder a fynegwyd yn y drafodaeth honno.

Ynghylch lefel y cyllid, dywedais yn ddigon aml, Mike, fod yr arian angenrheidiol gennym ar gyfer y flwyddyn gyntaf sydd o fewn y llinell derfyn gyfredol ar gyfer cynllunio ariannol. Mae'r ffigurau a gytunwyd gyda'r Trysorlys yn caniatáu inni fod yn gwbl ffyddiog ac felly y bu erioed. Mae gweithio ein ffordd drwy oblygiadau Amcan 1 i gyllid cyhoeddus yn y tymor hir yn rhan o'r broses adolygu arferol. Mae hynny'n wir am bopeth arall. Yn ddamcaniaethol, ni wyddoch a fydd arian o gwbl ar gyfer y gwasanaeth iechyd, addysg neu bloc Cymru ar ôl y llinell derfyn gyfredol ar gyfer cynllunio. Fodd bynnag, gwyddom oll y bydd arian ar gael a bod proses sydd yn penderfynu'r arian a fydd ar gael yn y tymor hwy. Rhoddwyd pob sicrwydd inni fod honno'n broses a fydd yn delio ag anghenion Cymru o ran Amcan 1. Cydnabyddaf fod anghenion, a bod mater y mae angen ymdrin ag ef ac achos i'w gyflwyno. Yr wyf yn rhoi sicrwydd i chi y cyflwynir yr achos hwnnw mor egniol ag y bo modd bob cam o'r ffordd ac y braenarir y tir mor drwyadl â phosibl. Bydd gennym lais cadarn yn y trafodaethau o hyd.

**C2 Alison Halford:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn fodlon cychwyn astudiaeth i asesu pa gostau y gellid eu harbed drwy gyfuno Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Chwaraeon Cymru? (OAQ1474)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Pe bai unrhyw

indications of possible savings I would be happy to study them. However, the Sports Council for Wales and the Sports Council Welsh Sports Trust overlap in many ways. The Sports Council Welsh Sports Trust owns the facilities and fixed assets of the Sports Council for Wales and its board members are taken from existing Council members. I am not clear, therefore, where there could be possible savings.

**Alison Halford:** This is the third question that I have asked on Assembly sponsored public bodies. Do you not feel that the issue should be looked at to see if savings could be made to ensure value for money for the citizens of Wales?

**The First Secretary:** I am happy to look at any suggestions that you or anyone else has to make. You may have something in mind that I have overlooked. The Sports Council Welsh Sports Trust was set up to receive donations, something that a public body cannot do. It is registered as a charity with the Charity Commissioners, which enables the Sports Council for Wales to pay reduced rates to Cardiff City Council for instance. There are, therefore, benefits from having two bodies with distinct responsibilities and overlapping membership. I do not see any advantages arising from their merger but there would be disadvantages. However, if you have any ideas, I am always willing to listen.

**Jocelyn Davies:** What plans does the First Secretary have to increase the participation of women in sports in Wales?

**The First Secretary:** It is our priority and the Sports Council for Wales's priority to encourage the participation of women in sport and there have been a number of sports in which increased participation has occurred with distinction. One also has to consider the participation of girls and young women in sport at a formative stage. As a former youth worker I know that that is not always easy. Choice is sometimes limited by lack of

arwyddion o arbedion posibl byddwn yn falch o'u hastudio. Fodd bynnag, mae Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Chwaraeon Cymru y Cyngor Chwaraeon yn gorgyffwrdd mewn llawer ffordd. Ymddiriedolaeth Chwaraeon Cymru y Cyngor Chwaraeon yw perchennog cyfleusterau ac asedau sefydlog Cyngor Chwaraeon Cymru a daw ei haelodau bwrdd o blith aelodau presennol y Cyngor. Ni welaf, felly, ym mha le y gellid cael arbedion posibl.

**Alison Halford:** Hwn yw'r trydydd cwestiwn imi ei ofyn ynghylch cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. A ydych yn teimlo y dylid edrych ar y mater i weld a ellid cael arbedion er mwyn sicrhau gwerth am arian i ddinasyddion Cymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddaf yn falch o edrych ar unrhyw awgrymiadau sydd gennych chi neu unrhyw un arall. Efallai fod gennych rywbeth mewn golwg a fethais i. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Chwaraeon Cymru y Cyngor Chwaraeon er mwyn derbyn rhoddion, rhywbeth na all corff cyhoeddus ei wneud. Mae wedi ei chofrestru'n elusen gyda'r Comisiynwyr Elusennau, sydd yn galluogi Cyngor Chwaraeon Cymru i dalu trethi is i Gyngor Dinas Caerdydd, er enghraifft. Felly, mae manteision o gael dau gorff ac iddynt gyfrifoldebau ar wahân ac aelodaethau sydd yn gorgyffwrdd. Ni welaf y byddai unrhyw fanteision o'u cyfuno ond byddai anfanteision. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw syniadau, yr wyf bob amser yn barod i wrando.

**Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i gynyddu cyfranogiad benywod mewn chwaraeon yng Nghymru?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ein blaenoriaeth ni a blaenoriaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yw hybu cyfranogiad benywod mewn chwaraeon ac mae nifer o chwaraeon lle y cafwyd mwy o gyfranogiad gyda rhagoriaeth. Rhaid hefyd ystyried cyfranogiad gan ferched a benywod ifainc mewn chwaraeon yn eu cyfnod ffurfiannol. Fel cyn-weithiwr ieuentid gwn nad yw hynny bob amser yn hawdd. Cyfyngir ar y dewis weithiau oherwydd diffyg cyfle.

opportunity. If we can promote and extend choice in schools and through youth activities so that people learn about sport, we are more likely to see participation in and the promotion of sport by women.

**Jenny Randerson:** Do you agree that it is almost time for all ASPBs in Wales to be reviewed? Do you also agree that this should be on the agendas of the Committees and Assembly Secretaries in the coming months so that an overall audit of all ASPBs is carried out with a view to their abolition where efficiency and democracy dictates?

**The First Secretary:** I have previously indicated that we should look at all the ASPBs once our own work has settled down. It would be unwise to start the review when our first priority must be to get the Assembly up and running and effective. We have only been in existence for a matter of weeks. When considering the abolition of a body we must ask what its benefits are. If it justifies its existence and brings added value, that should be recognised by the Assembly. For example, a sporting body would involve experienced sportsmen and women, experts in sport and people who have been involved in the direct management of voluntary or professional sporting organisations. That brings added value to the whole process. There are bodies where there is little added value as was the case with Tai Cymru before its abolition. All Cabinet and Committee members should enquire whether these bodies add value and whether they are needed.

2:10 p.m.

We have many appointments to make to bodies over the coming months. I delayed some appointments and re-appointed people for a shorter period of time to ensure that the Assembly had as much freedom as possible to decide who should be on those bodies once it had established itself. We have drastically reduced the number of health

Os gallwn hybu ac ymestyn dewisiadau mewn ysgolion a drwy weithgareddau ieuencid fel bod pobl yn dysgu am chwaraeon, yr ydym yn fwy tebygol o weld benywod yn cyfranogi ac yn hyrwyddo chwaraeon.

**Jenny Randerson:** A ydych yn cytuno ei bod bron yn bryd adolygu'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru? A ydych hefyd yn cytuno y dylai hyn fod ar agendâu'r Pwyllgorau a'r Ysgrifenyddion Cynulliad yn y misoedd sydd i ddod fel y cyflawnir archwiliad cyffredinol o'r holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gyda golwg ar eu diddymu os yw hynny'n unol ag effeithlonrwydd a democratiaeth?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nodais cyn hyn y dylem edrych ar yr holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wedi i'n gwaith ein hunain dawelu. Byddai'n annoeth dechrau'r adolygiad ar adeg pan ddylem roi'r flaenoriaeth bennaf i roi'r Cynulliad ar ei draed a'i gael i redeg yn effeithiol. Dim ond ychydig wythnosau sydd ers inni ddechrau. Pan fyddwn yn ystyried diddymu corff rhaid inni ofyn beth yw ei fanteision. Os yw'n cyfiawnhau ei fodolaeth ac yn dod â gwerth ychwanegol, dylai'r Cynulliad gydnabod hynny. Er enghraifft, byddai corff chwaraeon yn cynnwys mabolgampwyr a mabolgampwragedd profiadol, arbenigwyr ar chwaraeon a phobl a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli mudiadau chwaraeon gwirfoddol neu broffesiynol. Daw hynny â gwerth ychwanegol i'r holl broses. Ceir cyrff lle nad oes ond ychydig o werth ychwanegol fel yn achos Tai Cymru cyn ei ddiddymu. Dylai pob aelod o'r Cabinet a'r Pwyllgorau holi a yw'r cyrff hyn yn ychwanegu gwerth ac a oes eu hangen.

Byddwn yn gwneud llawer o benodiadau i gyrff dros y misoedd sydd i ddod. Gohiriais rai penodiadau gan ailbenodi rhai am gyfnod byrrach er mwyn sicrhau y câi'r Cynulliad gymaint o ryddid â phosibl i benderfynu pwy a ddylai fod ar y cyrff hynny wedi iddo ymsefydlu. Yr ydym wedi cwtogi'n llym ar nifer y cyrff gwasanaeth iechyd dros y

service bodies over the last year. In accordance with the spirit of your question, we must ensure that looking at structures does not interfere with the Assembly and its Committees concentrating on how we can do things better as a result of our arrival.

flwyddyn ddiwethaf. A bod yn gydnaws ag ysbryd eich cwestiwn, rhaid inni sicrhau nad yw edrych ar strwythurau'n golygu ymyrryd â'r Cynulliad a'i Bwyllgorau wrth iddynt ganolbwyntio ar y modd y gallwn wneud pethau'n well o ganlyniad i'n dyfodiad.

**Canolfan Genedlaethol er Gwirfoddoli (Sefydlu Corff)  
National Centre for Volunteering (Establishing a Body)**

**Q3 Christine Humphreys:** Will the First Secretary consider the establishment of a body similar to the National Centre for Volunteering, which exists to 'promote excellence in volunteering' in England? (OAQ1477)

**C3 Christine Humphreys:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn ystyried sefydlu corff tebyg i'r Ganolfan Genedlaethol er Gwirfoddoli, sydd yn bod er mwyn 'hybu rhagoriaeth mewn gwirfoddoli' yn Lloegr? (OAQ1477)

**The First Secretary:** I know the National Centre for Volunteering well, and had responsibility in that field in my previous role as Deputy Home Secretary. This question is based on a misapprehension. The function mentioned is already fulfilled in Wales by the Wales Council for Voluntary Action. Its responsibility is to deliver the strategic leadership role for volunteering in Wales. We benefit greatly from having a single, well-focused organisation covering the whole range of the voluntary sector and voluntary issues.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwn yn dda am y Ganolfan Genedlaethol er Gwirfoddoli, ac yr oedd gennyf gyfrifoldeb yn y maes hwnnw yn fy swyddogaeth flaenorol fel Dirprwy Ysgrifennydd Cartref. Mae'r cwestiwn hwn yn deillio o gamsyniad. Mae'r swyddogaeth a grybwyllwyd yn cael ei chyflawni yng Nghymru eisoes gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ei gyfrifoldeb yw cyflawni'r rôl arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwirfoddoli yng Nghymru. Yr ydym yn elwa'n fawr o gael un corff bwriadus sydd yn cynnwys holl amrediad y sector gwirfoddol a materion gwirfoddol.

**Christine Humphreys:** I assume that the First Secretary is aware that the National Centre for Volunteering in England not only promotes excellence in volunteering but provides help and guidance to volunteers. We are placing an increasing emphasis on volunteers' role in the Assembly's partnership agreement. However, we must also recognise that volunteers have rights. A volunteer was recently dismissed without reason from serving with the national voluntary organisation. He had to fight to be given a reason, and was told that the organisation had no written procedure to deal with his dismissal. Will the First Secretary encourage voluntary organisations to adopt written dismissal procedures to protect this valuable human resource?

**Christine Humphreys:** Cymeraf fod y Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol nad hybu rhagoriaeth mewn gwirfoddoli yn unig y mae'r Ganolfan Genedlaethol er Gwirfoddoli yn Lloegr a'i bod yn rhoi cymorth ac arweiniad i wirfoddolwyr. Yr ydym yn rhoi pwys cynyddol ar rôl gwirfoddolwyr yng nghytundeb partneriaeth y Cynulliad. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod bod hawliau gan wirfoddolwyr. Yn ddiweddar, diswyddwyd gwirfoddolwr heb reswm o wasanaeth gyda'r corff gwirfoddol cenedlaethol. Bu'n rhaid iddo ymladd er mwyn cael rheswm, a dywedwyd wrtho nad oedd gan y mudiad weithdrefn ysgrifenedig i ymdrin â'i ddiswyddiad. A fydd y Prif Ysgrifennydd yn fodlon annog mudiadau gwirfoddol i fabwysiadu gweithdrefnau diswyddo ysgrifenedig er mwyn amddiffyn yr adnodd dynol gwerthfawr hwn?



**The First Secretary:** Volunteers should be respected and should have rights. Over the years I have been involved with the Citizens Advice Bureau, which treats its volunteers as workers. I do not want to be too bureaucratic in telling voluntary organisations what they should do. This would be best dealt with through the Partnership Council that we have now established with the voluntary sector and through the guidance the WCVA would offer. I agree with the function that you are looking for, but it is part of the WCVA's job. We are greatly advantaged by not having two organisations, as is the case in England and in Scotland. I wish to promote the rights of volunteers and improve the quality of training that they receive. I have seen many people come in as volunteers and develop beyond their and others' imagination into people taking on great responsibility in the community or significant professional jobs. I endorse your emphasis on the importance of volunteering and of respecting and valuing volunteers.

**Pauline Jarman:** In recognition of the enormous contribution of time and energy that volunteering brings to our communities in Wales, what progress is being made on the Assembly's voluntary sector scheme, particularly the three-year funding programme to develop the voluntary sector's important programmes?

**The First Secretary:** We had the first meeting of the Partnership Council last week, followed by the annual general meeting of the WCVA the following day, which was a nice resonance. This issue and others were discussed in the Partnership Council meeting and I am pleased with the progress that is being made. We cannot do things overnight but in the short time that the Assembly has been in existence we have made major progress ensuring that Wales leads the UK in building partnership with the voluntary sector. We have adopted the compact with the voluntary sector, which was signed last November, and are using it as the basis for the development of the voluntary sector scheme which will be finalised early in the new year.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dylid parchu gwirfoddolwyr a dylent gael hawliau. Bwm yn gysylltiedig dros y blynyddoedd â'r Ganolfan Gyngori, sydd yn trin ei gwirfoddolwyr fel gweithwyr. Nid wyf am fod yn rhy fiwrocraidaidd drwy ddweud wrth fudiadau gwirfoddol yr hyn y dylent ei wneud. Gellid gwneud hyn orau drwy'r Cyngor Partneriaeth yr ydym wedi ei sefydlu bellach gyda'r sector gwirfoddol a drwy'r arweiniad a gynigiai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cytunaf â'r swyddogaeth yr ydych yn ei cheisio, ond mae'n rhan o waith y Cyngor Gweithredu. Mae gennym fantais fawr am nad oes gennym ddau gorff, fel a geir yn Lloegr ac yn yr Alban. Dymunaf hyrwyddo hawliau gwirfoddolwyr a gwella ansawdd yr hyfforddiant a gânt. Gwelais lawer o bobl yn cyrraedd fel gwirfoddolwyr ac yn datblygu y tu hwnt i'w disgwyliadau hwy ac eraill yn bobl sydd yn ymgymryd â chyfrifoldeb mawr yn y gymuned neu â swyddi proffesiynol o bwys. Cefnogaf eich pwyslais ar bwysigrwydd gwirfoddoli a pharchu a gwerthfawrogi gwirfoddolwyr.

**Pauline Jarman:** Er mwyn cydnabod y cyfraniad aruthrol o ran amser ac egni a geir drwy wirfoddoli yn ein cymunedau yng Nghymru, pa gynnydd sydd yn digwydd yng nghynllun sector gwirfoddol y Cynulliad, yn enwedig y rhaglen ariannu dair-blynedd i ddatblygu rhaglenni pwysig y sector gwirfoddol?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cawsom gyfarfod cyntaf y Cyngor Partneriaeth yr wythnos diwethaf, a chyfarfod blynyddol cyffredinol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru drannoeth, a oedd yn cydweddu'n braf. Trafodwyd y mater hwn ac eraill yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ac yr wyf yn falch o'r cynnydd sydd yn digwydd. Ni allwn wneud pethau dros nos ond yn ystod oes fer y Cynulliad gwnaethom gynnydd mawr o ran sicrhau bod Cymru'n arwain y DU o ran adeiladu partneriaeth â'r sector gwirfoddol. Yr ydym wedi derbyn y cytundeb gyda'r sector gwirfoddol a arwyddwyd fis Tachwedd diwethaf, ac yr ydym yn ei ddefnyddio fel y sylfaen i ddatblygu'r cynllun sector gwirfoddol a gaiff ei gwblhau'n gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Lleihau Dieithrwch Cymdeithasol (Rhaglen Adeiladu Ysbytai)**  
**Reducing Social Exclusion (Hospital Building Programme)**

**Q4 David Melding:** Will the First Secretary make a commitment to reducing social exclusion by instituting a hospital building programme? (OAQ1456)

**The First Secretary:** We are committed to tackling social exclusion and promoting better health. We are also committed to improving the national health service in Wales. We have taken steps to improve NHS buildings and facilities but the investment level must be considered within the overall priorities of the Assembly and judged on the contributions that such investments will make to the nation's health.

**David Melding:** Has the First Secretary reflected on his own stocktake report which states in relation to capital expenditure

‘this has been reduced drastically to offset revenue pressures, thus building up a maintenance backlog and ruling out major modernisation projects’?

One example is the modernisation project needed at the Prince Charles Hospital, Merthyr Tydfil.

**The First Secretary:** That could be regarded as something of an apology on behalf of the Conservative Party for the damage done to create that very situation. I hope it was intended as an apology.

The capital modernisation fund will provide the NHS with £5.9 million in 1999-2000 and a total of £21 million over the next three years. Centrally funded capital of £35 million was made available this year to complete ongoing schemes. The NHS's financial chaos with debts having to be paid back in service prevented the creation of an adequate level of capital programme. I regret that, but we are now undertaking the much-needed job of

**C4 David Melding:** A y fydd y Prif Ysgrifennydd yn fodlon gwneud ymrwymiad i leihau dieithrwch cymdeithasol drwy ddechrau rhaglen adeiladu ysbytai? (OAQ1456)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydym wedi ymrwmo i fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol a hybu iechyd gwell. Yr ydym hefyd wedi ymrwmo i wella'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Yr ydym wedi cymryd camau i wella adeiladau a chyfleusterau'r NHS ond rhaid ystyried y lefel fuddsoddi o fewn blaenoriaethau cyffredinol y Cynulliad a phenderfynu ar hynny yn ôl cyfraniadau buddsoddiadau o'r fath i iechyd y genedl.

**David Melding:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi rhoi ystyriaeth i'w adroddiad cyfrif stoc ei hun sydd yn dweud mewn perthynas â gwariant cyfalaf

‘mae hwn wedi ei gwtogi'n enfawr i liniaru'r pwysau ar reffeniw, sydd wedi golygu bod llawer iawn o waith cynnal yn dal heb ei wneud ac wedi gwneud prosiectau moderneiddio mawr yn amhosibl’?

Un enghraifft yw'r prosiect moderneiddio y mae ei angen yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gellid ystyried hynny yn rhyw ffurf ar ymddiheuriad ar ran y Blaid Geidwadol am y difrod a wnaethpwyd i greu'r union sefyllfa honno. Gobeithiaf mai ymddiheuro oedd y bwriad.

Bydd y gronfa moderneiddio cyfalaf yn darparu £5.9 miliwn i'r NHS yn 1999-2000 a chyfanswm o £21 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Darparwyd cyfalaf o £35 miliwn o gronfeydd canolog eleni i gwblhau cynlluniau parhaus. Yr oedd yr anhrefn ariannol yn yr NHS, â'r rheidrwydd i ad-dalu dyledion fel dyletswydd, yn rhwystro creu rhaglen gyfalaf ar lefel ddigonol. Mae hynny'n ofid imi, ond yr ydym bellach yn

organising the NHS finances in Wales.

ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol o drefnu cyllid yr NHS yng Nghymru.

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gadarnhau ei fod wedi gorfod cwtogi ar eitemau o wariant newydd yn y rhaglen gyfalaf yn ystod mis Ebrill eleni ar ganol yr ymgyrch etholiad pan oedd yn addo rhagor o arian ar gyfer iechyd ac, o ganlyniad, fod prosiectau ar gyfer ysbytai cymunedol newydd wedi eu dal yn ôl? A all Alun Michael roi sicrwydd y bydd arian ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd ar gael o fis Ebrill nesaf fel y gall yr ysbytai pwysig hyn symud ymlaen?

**Dafydd Wigley:** Will the First Secretary confirm that he had to cut down on items of new expenditure in the capital programme during April of this year in the middle of the election campaign when he was promising more money for health and that, as a result, projects for new community hospitals were held back? Can Alun Michael give an assurance that money will be available for new capital projects from April next year so that these important hospitals can proceed?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r gwariant ar iechyd wedi tyfu yn sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf a bydd yn parhau i dyfu yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Y broblem yw fod cymaint o'r arian hwnnw yn cael ei wastraffu. Yr oedd hynny yn arbennig o amlwg yn Nyfed Powys. Dangosodd yr arolwg fod y problemau yn waeth nag yr oeddem yn ei ddisgwyl. Nid oedd systemau i'n galluogi i wneud gwaith priodol ar y gwasanaeth iechyd. Dyna paham y cafodd pob un o Aelodau'r Cynulliad yn Nyfed Powys y cyfle i ddeall y problemau a'r modd y ceisier eu datrys.

**The First Secretary:** Health expenditure has grown substantially over the past two years and it will continue to grow over the next two years. The problem is that so much of that money is wasted. That was particularly evident in Dyfed Powys. The stocktake showed that the problems were worse than we expected. There were no systems to enable us to do a proper job on the health service. That is why every Assembly Member from Dyfed Powys was given the opportunity to understand the problems and how we were trying to resolve them.

Hoffwn symud ymlaen yn gyflym ar ôl buddsoddi arian yn y gwasanaeth iechyd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn hytrach nag i dalu dyled. Rhaid i'r arian gael ei fuddsoddi yn y modd y dymunwn. Bydd hyn yn cymryd amser, ond yr ydym wedi cymryd cam sylweddol ymlaen i baratoi'r ffordd i sicrhau arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd a dyfodol gwell.

I would like to move forward quickly after investing money in the NHS to ensure that it is used for the health service rather than for the payment of debt. The money must be invested in the way we wish. This will take time, but we have taken a substantial step forward in preparing the way to secure funding for the health service and a better future.

**Brian Gibbons:** Does the First Secretary agree that David Melding's question is factually incorrect? In my constituency of Aberavon, which is one of the most socially deprived in Wales, there is an active programme of hospital building. Proposals for the hospital will be presented to the Assembly before Christmas.

**Brian Gibbons:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno bod cwestiwn David Melding yn ffeithiol anghywir? Yn fy etholaeth i yn Aberafan, sydd yn un o'r mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yng Nghymru, mae rhaglen egniol o adeiladu ysbytai. Cyflwynir y cynigion ar gyfer yr ysbyty i'r Cynulliad cyn y Nadolig.

**The First Secretary:** I hope that we can take the next step forward during the coming

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gobeithiaf y gallwn gymryd y cam nesaf ymlaen yn ystod yr

weeks to ensure significant investment in the health service and the capital programme.

wythnosau sydd i ddod i sicrhau buddsoddiad sylweddol yn y gwasanaeth iechyd a'r rhaglen gyfalaf.

2:20 p.m.

### **Cynigion Addysg Gynnar (Ymgynghori) Early Learning Proposals (Consultation)**

**Q5 Peter Black:** In accordance with the Memorandum of Understanding, what consultations took place with the Welsh Government prior to the launch of the Government's early learning proposals, how will these be applied in Wales and what additional funding will be available from the UK Government to pay for the proposed inspection regime? (OAQ1472)

**The First Secretary:** The question is based on a misunderstanding. Proposals for early learning goals in the foundation stage curriculum announced recently by Margaret Hodge apply only to England. Early education for four-year-olds in Wales is based on 'Desirable Outcomes for Children's Learning Before Compulsory School Age', the snappy title given to a document developed by the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales. Do not be put off by the title because it is a good read. This document stresses the importance of literacy, numeracy and well-structured and purposeful play in development. That approach was widely welcomed and we intend to stick to it.

**Peter Black:** The Government in Wales is moving towards including more three-year-olds in nursery education. Local government will fund that. What extra money will be available to local government to help meet the extra costs of the Government's commitment?

**The First Secretary:** There is greater investment in education and training—£844,000 this year and over the next two years. By increasing investment we propose to adopt a partnership approach between the proposed Committee for Care Standards in

**C5 Peter Black:** Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, pa ymgynghori a fu â Llywodraeth Cymru cyn lansio cynigion addysg gynnar y Llywodraeth, sut y'u cymhwysir yng Nghymru a pha gyllid ychwanegol fydd ar gael gan Lywodraeth y DU i dalu am y gyfundrefn archwilio arfaethedig? (OAQ1472)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r cwestiwn yn deillio o gamddealltwriaeth. Mae'r cynigion ar gyfer nodau addysg gynnar yng nghwricwlwm y cyfnod sylfaen a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Margaret Hodge yn ymwneud â Lloegr yn unig. Mae addysg gynnar i blant pedair oed yng Nghymru yn seiliedig ar 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol', y teitl bachog a roddwyd i ddogfen a ddatblygwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Peidiwch â gadael i'r teitl eich dychryn oherwydd mae'n werth ei darllen. Mae'r ddogfen hon yn pwysleisio pwysigrwydd llythrennedd, rhifogrwydd a chwarae strwythuredig a phwrpasol wrth ddatblygu. Cafwyd croeso eang i'r dull hwnnw a bwriadwn ddal ato.

**Peter Black:** Mae Llywodraeth Cymru'n symud tuag at gynnwys mwy o blant tair oed mewn addysg feithrin. Bydd llywodraeth leol yn ariannu hynny. Pa arian ychwanegol fydd ar gael i lywodraeth leol i helpu i dalu am gostau ychwanegol ymrwymiad y Llywodraeth?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae mwy o fuddsoddi mewn addysg a hyfforddi—£844,000 eleni a dros y ddwy flynedd nesaf. Drwy gynyddu'r buddsoddiad yr ydym yn bwriadu mabwysiadu dull partneriaeth rhwng y Pwyllgor Safonau Gofal arfaethedig yng

Wales and Estyn, which deals with the inspection of school education. Additional money will go into this aspect of education, which will allow local authorities to plan confidently.

**Ieuan Wyn Jones:** A yw Alun yn derbyn bod cwestiwn fel un Peter Black yn dod â phroblemau i'r amlwg? Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi ei gyhoeddi, nid yw'r concordatiau gydag adrannau cyfatebol yn Lloegr megis addysg, amaeth neu iechyd wedi eu cyhoeddi. A yw Alun yn derbyn bod angen eu cyhoeddi ar frys er mwyn sicrhau nad yw gwaith y Cynulliad yn y maes hwn yn cael ei lesteirio?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Hoffwn innau hefyd weld y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi mor fuan ag y gellir. Synnaf fod Ieuan yn awgrymu ei bod yn broblem os yw Lloegr yn gweithredu'n wahanol i Gymru. Nid yw'n broblem os ydym yn gwneud rhywbeth yn wahanol i Loegr, ond byddai problem pe bai datganiad yn cael ei wneud a fyddai'n effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio yng Nghymru. Os yw Ieuan yn cyfeirio at hyn, cytunaf y dylem gael cytundeb mor fuan ag y gellir.

Nghymru ac Estyn, sydd yn ymwneud ag archwilio addysg ysgolion. Bydd arian ychwanegol yn mynd i'r agwedd hon ar addysg, a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio'n hyderus.

**Ieuan Wyn Jones:** Does Alun accept that questions such as Peter's highlight problems? Despite the fact that the Memorandum of Understanding has been published, the concordats with corresponding departments in England such as education, agriculture or health have not been published. Does Alun accept that they must be published urgently so that we can ensure that the Assembly's work in this area is not hindered?

**The First Secretary:** I would also like to see these documents being published as soon as possible. I am surprised at Ieuan's suggestion that it is a problem if England acts differently to Wales. It is not a problem if we act differently to England, but there would be a problem if a statement was made which impacted on the way we work in Wales. If Ieuan is referring to this, I agree that we should have agreement as soon as possible.

### **Trosglwyddiad Net y Refeniw o Gymru Net Transfer of Revenue from Wales**

**Q6 Phil Williams:** What is the estimated net transfer of revenue from Wales as a result of the payment of the proposed climate change levy and the reduction of national insurance contributions? (OAQ1481)

**The First Secretary:** I congratulate Phil on always raising questions that require precise answers which cannot be given. The rates for the levy will not be set until the Finance Bill 2000 so it is not possible to make a calculation and provide such an assessment. I have made representations on behalf of Welsh industries that fear they may be unduly affected by such a tax. The Chancellor will consider those views in making decisions on the design and level of the levy.

**Phil Williams:** I am committed to any fiscal

**C6 Phil Williams:** Beth yw'r amcangyfrif o drosglwyddiad net y refeniw o Gymru o ganlyniad i dalu'r dreth newid hinsawdd arfaethedig a'r gostyngiad mewn cyfraniadau yswiriant gwladol? (OAQ1481)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Llongyfarchaf Phil am godi cwestiynau sydd yn gofyn atebion manwl na ellir eu rhoi o hyd. Ni osodir cyfraddau'r dreth nes llunio Mesur Cyllid 2000 felly nid oes modd cyfrifo a darparu asesiad o'r fath. Cyflwynais sylwadau ar ran diwydiannau yng Nghymru sydd yn ofni y cânt eu heffeithio'n ormodol gan dreth o'r fath. Bydd y Canghellor yn ystyried y sylwadau hynny wrth benderfynu ar gynllun a lefel y dreth.

**Phil Williams:** Yr wyf yn ymrwymedig i

measures that are effective in reducing carbon dioxide emission but the draft proposal is a blunt, inefficient and possibly unjust instrument. It is effectively an energy tax rather than a tax on net carbon dioxide emission. An example of this is biomass combined with combined heat and power, where although the net effect is taking carbon dioxide out of the atmosphere, in present proposals it would be liable to extra taxing.

**The First Secretary:** Phil asks this question with such authority and looks at me so earnestly that I am tempted immediately to accept everything he says. I accept that the draft instrument was a draft instrument and that it was right to have an opportunity to comment on it. Some of the heavy users of energy are also the most efficient users of energy because it is such a great burden on their costs. Economic forces drive them to look at how they can save energy whereas low energy users may not be so careful. This can affect emissions and there is a danger that perverse results are produced inadvertently. I have raised some of those points with the Chancellor. If there are points of detail that Phil would like to raise I am sure that the Chancellor would be fascinated to hear from him directly. I am also willing to pass on any points and observations. In the consultation we should take this opportunity to try to obtain the best and most attractive instrument to achieve the desired outcome.

**Alun Cairns:** Does the First Secretary accept that the climate change levy, although it is supposed to be tax neutral, will result in Welsh manufacturers and energy intensive farmers paying far more tax than their counterparts in the United Kingdom because of our over dependence on manufacturing and energy intensive farming and its effect on our economy?

**The First Secretary:** That point needs to be considered. I have made the point in relation to the draft instrument. It is difficult to be certain about how to get the balance right but that is the purpose of this discussion.

unrhyw fesurau ariannol sydd yn effeithiol wrth ostwng gollyngiadau carbon deuocsid ond mae'r cynnig drafft yn offeryn swta, aneffeithlon ac anghyfiawn o bosibl. Mewn gwirionedd, treth ynni ydyw yn hytrach na threth ar ollyngiadau carbon deuocsid net. Un enghraifft o hynny yw biomàs wedi ei gyfuno â gwres a phŵer cyfunol lle mai'r wir effaith fyddai cymryd carbon deuocsid o'r awyrgylch, ond a fyddai'n agored i dreth ychwanegol o dan y cynigion presennol.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gofynnodd Phil y cwestiwn hwn gyda'r fath awdurdod gan edrych arnaf mor daer fel y caf fy nhentio ar unwaith i dderbyn popeth y mae'n ei ddweud. Derbyniaf mai offeryn drafft oedd yr offeryn drafft a'i fod yn iawn cael cyfle i roi sylwadau arno. Mae rhai o'r defnyddwyr ynni mwyaf hefyd ymysg y defnyddwyr ynni mwyaf effeithlon am ei fod yn gymaint o faich ar eu costau. Mae grymoedd economaidd yn eu cymell i ystyried sut y gallant arbed ynni tra na fydd defnyddwyr ynni isel mor ofalus o reidrwydd. Gall hyn effeithio ar ollyngiadau ac mae perygl y cynhyrchir canlyniadau gwrthnysig drwy amryfusedd. Codais rai o'r pwyntiau hyn gyda'r Canghellor. Os oes pwyntiau manwl y carai Phil eu codi yr wyf yn siŵr y byddai'r Canghellor yn ymddiddori'n fawr o glywed oddi wrtho'n uniongyrchol. Yr wyf hefyd yn barod i drosglwyddo unrhyw bwyntiau a sylwadau. Yn yr ymgynghoriad dylem fanteisio ar y cyfle hwn i geisio cael yr offeryn gorau a mwyaf atyniadol i sicrhau'r canlyniad a ddymunir.

**Alun Cairns:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn y bydd y dreth newid hinsawdd, er mai treth niwtral ydyw i fod, yn arwain at ddiwydianwyr cynhyrchu a ffermwyr ynni-ddwys yng Nghymru yn talu llawer mwy o dreth na'u cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig oherwydd ein gorddibyniaeth ar gynhyrchu a ffermio ynni-ddwys a'i heffaith ar ein heconomi?

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae angen ystyried y pwynt hwnnw. Yr wyf wedi gwneud y pwynt mewn perthynas â'r offeryn drafft. Mae'n anodd bod yn sicr ynghylch y modd i gadw'r ddysgl yn wastad ond dyna bwrpas y

drafodaeth hon.

**John Griffiths:** The steel industry is a major employer in my constituency, Newport East. I have had many representations from various firms involved in that industry on this subject and, as I am sure you are aware, there are a variety of concerns surrounding this proposed levy. Could you confirm that you are aware of the anxieties in the steel industry?

**John Griffiths:** Mae'r diwydiant dur yn gyflogwr pwysig yn fy etholaeth i, Dwyrain Casnewydd. Cyflwynwyd llawer o sylwadau imi gan wahanol gwmnïau sydd yn gysylltiedig â'r diwydiant hwnnw ar y pwnc hwn ac, fel y gwyddoch yr wyf yn siŵr, mae amryw o bryderon ynghylch y dreth arfaethedig hon. A oes modd ichi gadarnhau eich bod yn ymwybodol o'r pryderon yn y diwydiant dur?

**The First Secretary:** Yes. There are anxieties in the steel industry and a variety of other producers in Wales, the aluminium industry in Anglesey for example. Rhodri and I have met representatives of the steel industry who wanted to raise points on this issue. Their views and evidence were fed into the comments that we have made directly and at an official level. Their views will therefore be taken into account while the draft instrument is being further considered.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Oes. Mae pryderon yn y diwydiant dur ac ymysg amryw o gynhyrchwyr eraill yng Nghymru, y diwydiant alwminiwm ym Môn, er enghraifft. Mae Rhodri a minnau wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r diwydiant dur oedd am godi pwyntiau ar y mater hwn. Fe borthwyd eu barn a'u tystiolaeth i'r sylwadau yr ydym wedi eu cyflwyno'n uniongyrchol ac ar lefel swyddogol. Rhoddir sylw i'w barn, felly, wrth ystyried yr offeryn drafft ymhellach.

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Jocelyn Davies:** Point of order. This is about the debate scheduled for tomorrow entitled the Corporate Plan: strategic priority. As the Presiding Officer knows, last Thursday I made some effort to discover the content of this debate. He may recall that I visited his offices to discuss the matter and nobody, including the Library, was able to throw any light on it. If the Presiding Officer was in the dark about the content of this debate, the average lay person could not even guess at its content. It was not until Friday that I discovered that the Corporate Plan: strategic priority, would entail the Finance Secretary responding to the Better Wales consultation. The title was not at all helpful. I am not reassured by the Business Secretary's warm words that the administration is not being deliberately vague. I ask the Presiding officer to consider seriously not allowing this debate tomorrow. If the debate is held, we will be in contravention of our human rights obligations. The Human Rights Act 1998 brings with it some fifty years of

**Jocelyn Davies:** Pwynt o drefn. Mae hyn yn ymwneud â'r ddadl a amserlennwyd ar gyfer yfory o'r enw y Cynllun Corfforaethol: blaenoriaeth strategol. Fel y gŵyr y Llywydd, gwneuthum gryn ymdrech ddydd Iau diwethaf i gael gwybod am gynnwys y ddadl hon. Cofia efallai imi ymweld â'i swyddfa i drafod y mater ac ni allai unrhywun, gan gynnwys y Llyfrgell, daflu unrhyw oleuni arno. Os oedd y Llywydd yn y tywyllwch ynghylch cynnwys y ddadl hon, ni allai'r llyegwr cyffredinol hyd yn oed ddyfalu am ei chynnwys. Bu'n rhaid imi aros tan ddydd Gwener i ddarganfod y byddai'r Cynllun Corfforaethol: blaenoriaeth strategol, yn golygu y byddai'r Ysgrifennydd Cyllid yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Well Cymru. Nid oedd y teitl o gymorth o gwbl. Nid wyf yn dawelach fy meddwl oherwydd geiriau rhadlon y Trefnydd nad yw'r weinyddiaeth yn ceisio bod yn annelwig. Gofynnaf i'r Llywydd ystyried o ddifrif peidio â chaniatáu'r ddadl hon yfory. Os cynhelir y ddadl, byddwn yn groes i'n

jurisprudence, much of which may not be at the forefront of the Business Secretary's mind when he is organising Government business.

Certain principles of good Government can be established from that jurisprudence including the right to be heard and the right to access to information. No citizen can make representations to their Government if they have no prior knowledge of the topics to be discussed or the decisions to be taken. Posting things on obscure parts of our intranet cannot be considered an appropriate means of providing the citizens of Wales with notice of this Government's intentions. The journalists who work in this building are excluded from the intranet, never mind the rest of the population. Those of us who make loud noises about social inclusion must put our money where our mouths are. If treating your political opponents with contempt is acceptable, excluding Wales from knowing about this debate is not. My point of order—

**The Presiding Officer:** I have heard the point of order. I am trying to ensure that we do not have speeches in place of points of order.

**Jocelyn Davies:** I wanted to explain it.

**The Presiding Officer:** I thank you for giving me advance notice of that point of order. I have a response but I understand that the Business Secretary would like to comment.

2:30 p.m.

**The Business Secretary (Andrew Davies):** As a long standing member of Liberty, formerly the National Council for Civil Liberties, and as a lecturer in ethics, I understand human rights legislation and issues. I explained the tabling of the supporting document to the Business Committee. The Finance Secretary informs

rhwymedigaethau i hawliau dynol. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn dod â rhyw hanner can mlynedd o gyfreitheg yn ei sgîl, a dichon nad yw llawer ohoni ym mlaen meddwl y Trefnydd pan fydd yn trefnu busnes y Llywodraeth.

Gellir sefydlu rhai o egwyddorion Llywodraeth dda o'r gyfreitheg honno gan gynnwys yr hawl i gael gwrandawriad a'r hawl i weld gwybodaeth. Ni all yr un dinesydd gyflwyno sylwadau i'w Lywodraeth os nad oes ganddo wybodaeth ymlaen llaw am y pynciau sydd i'w trafod neu'r penderfyniadau sydd i'w gwneud. Ni ellir ystyried postio pethau i barthau pellennig o'r fewnrwyd fel dull priodol o roi rhybudd i ddinasyddion Cymru am fwriadau'r Llywodraeth hon. Mae'r fewnrwyd wedi ei gwahardd i'r newyddiadurwyr sydd yn gweithio yn yr adeilad hwn, heb sôn am weddill y boblogaeth. Rhaid i'r rhai ohonom sydd yn uchel ein cloch ynghylch cynhwysiant cymdeithasol roi ein harian ar ein gair. Os yw'n dderbyniol dirmygu'ch gwrthwynebwyr gwleidyddol, nid felly nadu i Gymru wybod am y ddadl hon. Y pwynt o drefn sydd gennyf—

**Y Llywydd:** Clywais y pwynt o drefn. Yr wyf yn ceisio sicrhau nad ydym yn cael areithiau yn lle pwyntiau o drefn.

**Jocelyn Davies:** Yr oeddwn am ei egluro.

**Y Llywydd:** Diolch i chi am roi rhybudd imi ymlaen llaw am y pwynt o drefn hwnnw. Mae gennyf ymateb ond deallaf y byddai'r Trefnydd yn hoffi gwneud sylw.

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Fel un sydd ers amser maith yn aelod o Liberty, y Cyngor Cenedlaethol Hawliau Sifil cyn hynny, ac yn ddarlithydd mewn moeseg, deallaf y ddeddfwriaeth a materion hawliau dynol. Rhoddais eglurhad am gyflwyno'r ddogfen atodol i'r Pwyllgor Busnes. Cefais wybod gan yr Ysgrifennydd Cyllid fod yr ymatebion



me that the responses to the consultation have been on the intranet for the last fortnight. As I explained to the Business Committee, the document was tabled at the earliest opportunity so that Members could see the result of the consultation on the corporate plan. This document is a work in progress and tomorrow is not the last opportunity that Members and others will have to comment on it.

**The Presiding Officer:** By its constitution, the Assembly must be aware of its human rights obligations, which include the widest possible public access to information. I understand that the Business Committee discussed the timing of placing papers and moving motions in its discussion of the proposed amendments to our Standing Orders this morning, and that its proposals will be placed before us after recess. This issue should therefore be resolved.

Further to that point of order, Ieuan Wyn.

**Ieuan Wyn Jones:** Credaf fod pwynt Jocelyn yn cyfeirio nid yn unig at y ffaith fod y papurau yn hwyr, ond y gall y geiriad a ymddengys ar y datganiad busnes drafft fod yn gamarweiniol.

Croesawaf y ffaith y bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â natur y drafodaeth, yn hytrach na dim ond y pennawd, ar y we o hyn ymlaen. Credaf mai pwynt Jocelyn yw bod yn rhaid cael gwybod yn y datganiad busnes drafft beth yw cynnwys y drafodaeth.

**Y Llywydd:** Credaf fod hyn wedi digwydd. Symudwn ymlaen.

i'r ymgynghoriad ar y fewnwyd ers pythefnos. Fel yr eglurais i'r Pwyllgor Busnes, cyflwynwyd y ddogfen ar y cyfle cyntaf fel y gallai'r Aelodau weld canlyniad yr ymgynghoriad ar y cynllun corfforaethol. Gwaith sydd ar y gweill yw'r ddogfen hon ac nid yfory yw'r cyfle olaf i'r Aelodau ac eraill roi sylwadau arni.

**Y Llywydd:** Yn ôl ei gyfansoddiad, rhaid i'r Cynulliad fod yn ymwybodol o'i rwymedigaethau i hawliau dynol, sydd yn cynnwys yr hawl ehangaf posibl i'r cyhoedd weld gwybodaeth. Deallaf fod y Pwyllgor Busnes wedi trafod amseriad gosod papurau a chyflwyno cynigion yn ei drafodaeth ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog y bore yma, ac y rhoddir ei gynigion ger ein bron ar ôl y toriad. Dylai'r mater hwn fod wedi ei ddatrys, felly.

Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, Ieuan Wyn.

**Ieuan Wyn Jones:** I believe that Jocelyn's point refers not only to the fact that the papers are late, but that the wording that appears on the draft business statement could be misleading.

I welcome the fact that there will be more information regarding the nature of the discussion, not just the title, on the web from now on. I believe that Jocelyn's point is that the content of the discussion must be stated in the draft business statement.

**The Presiding Officer:** I believe that that has happened. We will now move on.

## **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** As you, Presiding Officer, and the Plaid Cymru Business Manager pointed out, the Business Statement on the Chamberweb contains much more explanatory information than previously. That demonstrates that the Executive is taking note of the views of

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Fel y nodwyd gennych chi, Lywydd, a chan Reolwr Busnes Plaid Cymru, mae'r Datganiad Busnes ar We'r Siambr yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth eglurhaol nag o'r blaen. Mae hynny'n dangos bod y Weithrediaeth yn rhoi sylw i farn aelodau

members of other parties as well as our own.

pleidiau eraill yn ogystal â'n plaid ein hunain.

The next three weeks' Plenary business is on the Chamberweb. However, before I outline this business, I would like to draw your attention to a change of business for this week.

Mae busnes y Cyfarfod Llawn yn y tair wythnos nesaf ar We'r Siambr. Fodd bynnag, cyn imi amlinellu'r busnes hwn, hoffwn dynnu'ch sylw at newid yn y busnes ar gyfer yr wythnos hon.

In view of the censure motion, which follows this statement, I have deferred, with the agreement of the Presiding Officer and the Business Committee, the debate on the pensions scheme until tomorrow. That debate will be held after the debate on the corporate plan.

Yng ngolwg y cynnig o gerydd, sydd yn dilyn y datganiad hwn, yr wyf wedi gohirio'r ddadl ar y cynllun pensiynau tan yfory, gyda chytundeb y Llywydd a'r Pwyllgor Busnes. Cynhelir y ddadl honno ar ôl y ddadl ar y cynllun corfforaethol.

The Plenary Session on 2 November will include a debate to approve a special grant report, in line with Standing Order No. 19.10. That report will be on the Sure Start programme. It will be the first time that the Assembly will debate a special grant report.

Bydd y Cyfarfod Llawn ar 2 Tachwedd yn cynnwys dadl i gymeradwyo adroddiad ar grant arbennig, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.10. Bydd yr adroddiad hwnnw ar y rhaglen Cychwyn Cadarn. Hwn fydd y tro cyntaf i'r Cynulliad drafod adroddiad ar grant arbennig.

Plenary business on 3 November is as reported last week. The debate scheduled for 9 November on the compact with the voluntary sector has been moved to later in the term. It was felt that it would have been too soon after the voluntary sector debate held just before the summer recess. We will instead debate the implications of the Health Act 1999. I have also scheduled the debate on the suggested revisions to the Standing Orders for that date. They can then be introduced almost immediately. This was discussed in the Business Committee this morning. A second debate will be scheduled later in the term to discuss further revisions of Standing Orders.

Bydd busnes y Cyfarfod Llawn ar 3 Tachwedd fel y'i hadroddwyd yr wythnos diwethaf. Mae'r ddadl a amserlennwyd ar gyfer 9 Tachwedd ar y compact â'r sector gwirfoddol i'w chynnal yn hwyrach yn y tymor. Teimlwyd y buasai'n rhy fuan ar ôl y ddadl ar y sector gwirfoddol a gynhaliwyd yn union cyn toriad yr haf. Yn lle hynny, byddwn yn dadlau goblygiadau Deddf Iechyd 1999. Yr wyf hefyd wedi amserlennu'r ddadl ar y newidiadau a awgrymir i'r Rheolau Sefydlog ar y dyddiad hwnnw. Gellir eu cyflwyno ar unwaith bron wedi hynny. Trafodwyd hyn yn y Pwyllgor Busnes y bore yma. Amserlennir ail ddadl yn hwyrach yn y tymor i drafod diwygiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog.

Business on 10 November is as reported last week. The Assembly will be asked to approve the Home Repair Assistance (Extension) (Wales) Regulations 1999 on 16 November.

Bydd y busnes ar 10 Tachwedd fel y'i hadroddwyd yr wythnos diwethaf. Gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) (Cymru) 1999 ar 16 Tachwedd.

On 17 November, the third Transfer of Functions Order and the Water Transfer of Functions Order will come forward for approval. Arrangements will be made after

Ar 17 Tachwedd, cyflwynir y trydydd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau a'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Dŵr i'w cymeradwyo. Gwneir trefniadau ar

Plenary today to place a copy of the statement on the internet and the intranet.

ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i osod copi o'r datganiad ar y rhyngwyd a'r fewnwyd.

*Business Statement adopted.*

*Derbyniwyd y Datganiad Busnes.*

### **Cynnig o Gerydd Censure Motion**

**Y Llywydd:** Yr eitem nesaf o fusnes yw cynnig o gerydd ar yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther. Gan ddilyn Rheol Sefydlog Rhif 7.3 a'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn y Siambr, yr wyf wedi gosod uchafswm o bum munud i'r rhai sydd yn cyflwyno'r cynnig hwn. Byddaf yn galw wedyn ar y Prif Ysgrifennydd i ateb. Galwaf ar Dafydd Wigley i gyflwyno'r cynnig.

**The Presiding Officer:** The next item of business is a censure motion on the Secretary for Agriculture and Rural Development, Christine Gwyther. In accordance with Standing Order No. 7.3 and the Code of Conduct for Members in the Chamber, I have set a maximum of five minutes for those who propose this motion. I shall then call on the First Secretary to reply. I call Dafydd Wigley to propose the motion.

**Dafydd Wigley:** Cyflwynaf y cynnig sydd yn sefyll yn fy enw i ac yn enwau Nick Bourne, Michael German, Rhodri Glyn Thomas, Peter Rogers a Mick Bates.

**Dafydd Wigley:** I propose the motion standing in my name and in the names of Nick Bourne, Michael German, Rhodri Glyn Thomas, Peter Rogers and Mick Bates.

*Mae'r Cynulliad hwn yn galw am geryddu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am ei methiant i gyflwyno neu sicrhau cyflwyniad unrhyw fesurau a nodwyd yn y cynnig a derbyniwyd yn unfrydol ar 15 Medi 1999, ac yn arbennig am arwain ffermwyr llaeth i gredu bod £750,000 ar gael drwy gynllun prosesu lloi.*

*This Assembly calls for the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development to be censured for her failure to introduce or to secure the introduction of any of the measures set out in the motion adopted unanimously on 15 September 1999, and in particular for leading dairy farmers to believe that £750,000 was available by way of a calf processing scheme.*

Nid ydym yn beirniadu Christine Gwyther oherwydd ei bod yn llysieuwraig nac oherwydd na all merch fod yn ysgrifennydd amaeth. Nonsens yw hynny. Ceryddwn yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am y modd y mae wedi ymdrin â'r argyfwng amaeth a chefn gwlad yn gyffredinol a'r cynllun lloi yn benodol.

We are not criticising Christine Gwyther because she is a vegetarian or because a woman cannot be an agriculture secretary. That is nonsense. We censure the Secretary for Agriculture and Rural Development for the way in which she has dealt with the agriculture and rural crisis generally and the calf scheme in particular.

Sylweddolaf fod wynebu cynnig fel hwn, Christine, am eich brifo chi, fel y mae'n ein brifo ni i orfod ei osod, yn brifo'r Llywodraeth ac o bosibl yn brifo'r Cynulliad ei hun. Fodd bynnag, byddem yn agored i feirniadaeth lawer mwy hallt pe baem yn eistedd yn ôl yn wyneb y ffars a brofwyd yn ystod y mis diwethaf ac yn gwneud dim.

I realise that facing a motion like this will hurt you, Christine, as it hurts us to have to table it, as it hurts the Government and possibly hurts the Assembly itself. However, we would be open to much more severe criticism if we were to sit back in the face of the farce experienced over the past month and do nothing.

Nid faint y mae hyn yn brifo Christine

What matters is not how much this hurts

Gwyther sydd o bwys, ond yn hytrach faint y mae'r argyfwng presennol wedi brifo'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru a chefn gwlad. Hefyd, pa mor niweidiol i'r ffermwyr llaeth oedd y methiant i dalu dros £700,000 iddynt?

Christine Gwyther, but rather how much the present crisis has hurt the agriculture industry in Wales and the countryside. Also, how detrimental to dairy farmers was the failure to pay over £700,000 to them?

Yr oedd argyfwng lloi yn Awst yn deillio'n uniongyrchol o benderfyniad y Llywodraeth i ddod â'r hen gynllun lloi i ben yng Ngorffennaf. Yr oedd hwn yn symudiad cwbl sinicaidd ac yr oedd Christine Gwyther yn rhan o'r penderfyniad.

The calf crisis in August arose directly from the Government's decision to terminate the old calf scheme in July. This was a totally cynical move and Christine Gwyther was part of the decision.

Mewn cyfarfod gyda Christine Gwyther ac Alun Michael ar 7 Medi, rhoddwyd ar ddeall inni fod siawns dda o weithredu cynllun lloi i Gymru. Ni ddywedwyd yr un gair am anawsterau wrth weithredu'r cynllun mewn un rhan yn unig o wladwriaeth sydd yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd.

In a meeting with Christine Gwyther and Alun Michael on 7 September, we were told that there was a good chance of implementing a calf scheme for Wales. Not a word was said about difficulties in implementing the scheme in only one part of a member state of the European Community.

Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol gan y Cynulliad ar 15 Medi. Cafodd groeso brwd. Teimlai llawer o ffermwyr fod y Llywodraeth yng Nghaerdydd wedi deffro i'w hargyfwng ar ôl misoedd o ddifaterwch.

The motion was adopted unanimously by the Assembly on 15 September. It was greeted enthusiastically. Many farmers felt that the Government in Cardiff had woken up to their crisis after months of indifference.

Yn sgîl y penderfyniad, dywedodd Christine Gwyther wrth Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad ar 21 Medi y byddai'r cynllun yn mynd yn ei flaen a bod yr arian yn ei le.

Following the decision, Christine Gwyther told the Assembly's Agriculture and Rural Development Committee on 21 September that the scheme would proceed and that the money was in place.

Gofynnais yn y Siambr ar 30 Medi am ddatganiad gan Christine Gwyther. Gwnaeth ddatganiad oddi allan i'r Siambr drannoeth, heb awgrymu am eiliad fod y cynllun wedi taro'r creigiau.

I asked in the Chamber on 30 September for a statement from Christine Gwyther. She made a statement outside the Chamber the following day, without suggesting for one moment that the scheme had hit the rocks.

Mae'n deg imi ofyn pa bryd y cododd y broblem a pham goblyn nad oedd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi sicrhau, cyn 15 Medi, fod y cynllun lloi arbennig i Gymru yn bosibl o fewn rheolau Ewrop?

It is fair for me to ask when the problem arose and why on earth the Secretary for Agriculture and Rural Development had not ensured, before 15 September, that the special calf scheme for Wales was possible within European rules?

Os oedd awgrym o broblem, pam nad aeth hi allan ei hun yn ystod Medi i argyhoeddi'r Comisiwn mor allweddol bwysig oedd y cynllun lloi i'r Cynulliad ac i ffermwyr llaeth Cymru?

If there was a hint of a problem, why did she not go out herself during September to convince the Commission of the crucial importance of the calf scheme for the Assembly and for the dairy farmers of Wales?

O'r diwedd ar 5 Hydref cynhaliwyd cyfarfod ym Mrwsel gyda swyddogion amaeth y Cynulliad yn bresennol. Aeth Christine Gwyther allan drannoeth gan ddatgan i'r cyfryngau ei bod yn ddiwrnod pwysig i Gymru. Yr oedd yn disgwyl cael golau gwyrdd ar gyfer y cynllun. Yn ei geiriau hi ei hun wrth y Cynulliad:

'On Tuesday, after getting the green light from my officials, I hoped to use my meeting with Commissioner Fischler to pump his hand, offer him a drink and so on.'

Hynny yw, yr oedd hi wedi hedfan allan yno, nid i geisio datrys unrhyw broblem ond i gael sylw'r cyfryngau i'w llwyddiant. Aeth ymlaen:

'I was only aware of how badly discussions in the meeting on Tuesday had gone when I received the report from my officials, an hour and a half before I entered Commissioner Fischler's office.'

Yn enw pob rheswm, sut y gallai Gweinidog a oedd ar ben ei gwaith fod yn y fath sefyllfa? Pwy oedd ar fai ein bod wedi treulio mis o dan gamargraff fod gennym gynllun credadwy?

A oedd Christine Gwyther wedi ei charmarwain gan ei swyddfa ei hun, gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd neu gan Frwsel? Neu a oedd UKREP ym Mrwsel wedi methu â gweithio'n effeithiol ar ein rhan?

A oedd Christine Gwyther wedi methu â gofyn y cwestiynau iawn? A oedd hi wedi methu â deall yr atebion i'r cwestiynau hynny? A oedd hi wedi methu â sefydlu peirianwaith i fwrw'r broses yn ei blaen, neu a oedd hi wedi credu bod rhywun arall yn rhywle yn gwneud hynny ar ei rhan?

Rhaid gofyn un cwestiwn sylfaenol. Gyda chynllun sydd mor bwysig i'r ffermwyr llaeth ac i gredadwyedd y Cynulliad, pam nad aeth Alun Michael ei hun i Frwsel i drafod y problemau gyda Fischler? Yr oedd fel pe bai

At last on 5 October a meeting was held in Brussels with the Assembly's agriculture officials present. Christine Gwyther went out the following day stating to the media that it was an important day for Wales. She expected to get the green light for the scheme. In her own words to the Assembly:

Ddydd Mawrth, ar ôl cael y golau gwyrdd gan fy swyddogion, gobeithiwn ddefnyddio fy nghyfarfod gyda'r Comisiynydd Fischler i ysgwyd ei law, cynnig diod iddo ac ati.'

That is, she had flown out there, not to try to resolve any problem but to draw the media's attention to her success. She went on:

'...dim ond ar ôl imi dderbyn adroddiad fy swyddogion, awr a hanner cyn i mi fynd i mewn i swyddfa'r Comisiynydd Fischler, y deuthum yn ymwybodol fod trafodaeth yng nghyfarfod dydd Mawrth wedi mynd mor wael.'

How on earth could a Minister who was on top of her work be in such a situation? Who was to blame for the fact that we had spent a month under the misconception that we had a credible scheme?

Had Christine Gwyther been misled by her own office, by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food or by Brussels? Or had UKREP in Brussels failed to work effectively on our behalf?

Had Christine Gwyther failed to ask the right questions? Had she failed to understand the answers to those questions? Had she failed to establish a mechanism to set the process in train, or had she believed that somebody else somewhere was doing that on her behalf?

One fundamental question must be asked. With a scheme that is so important to dairy farmers and to the credibility of the Assembly, why did Alun Michael himself not go to Brussels to discuss the problems with

cwmni wedi anfon prentis i drafod cytundeb pwysig gyda chadeirydd cwmni arall a'r prentis bach yn rhy ddiniwed i sylweddoli maint y dasg.

Fischler? It was as if a company had sent an apprentice to discuss an important contract with the chair of another company and the young apprentice was too naïve to understand the size of the task.

2:40 p.m.

Beth bynnag yw'r sefyllfa, y Gweinidog, sef yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn yr achos hwn, sydd yn gorfod cymryd y cyfrifoldeb am ffaoledau ei hadran. Dyna paham y mae'r cynnig hwn gerbron. Gofynnaf i'r Cynulliad ei gefnogi.

Whatever the situation is, the Minister, the Secretary for Agriculture and Rural Development in this case, must take responsibility for her department's failings. That is why this motion is before us. I ask the Assembly to support it.

**Nick Bourne:** I want to reiterate that this is nothing to do with vegetarianism. Had that been the case, this censure motion would have been tabled as soon as it became obvious that Christine was a vegetarian. Strangely, it has become a side issue that has distracted from this debate because she is known to people as the vegetarian Secretary for Agriculture and Rural Development rather than the—

**Nick Bourne:** Yr wyf am ailddatgan nad oes a wnelo hyn ddim â bwydlysyddiaeth. Pe bai hynny'n wir, byddai'r cynnig hwn o gerydd wedi ei gyflwyno cyn gynted ag y daeth yn amlwg bod Christine yn llysiuwraig. Yn rhyfedd, daeth yn eilbeth sydd wedi tynnu sylw oddi wrth y ddadl hon am ei bod yn adnabyddus i bobl fel yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig bwydlysiuol yn hytrach na'r—

**The Presiding Officer:** Order. Matters of personal lifestyle are not to be referred to in the Assembly Chamber.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes cyfeiriad i fod at faterion o fuchedd bersonol yn Siambr y Cynulliad.

**Nick Bourne:** With respect, that is why I was making it clear that it is not central to this debate, as did the last speaker.

**Nick Bourne:** Gyda pharch, dyna pam yr oeddwn yn rhoi ar ddeall nad yw hyn yn ganolog i'r ddadl hon, fel y gwnaeth y siaradwr diwethaf.

I will come to the main issues of this debate, though they are only part of a general picture of incompetence. We are concerned about the overconfidence of the First Secretary, the Secretary for Agriculture and Rural Development, Labour Assembly Members and Labour Members of European Parliament that this scheme could be delivered.

Dof at brif faterion y ddadl hon, er nad ydynt ond yn rhan o ddarlun cyffredinol o anghymhwyster. Yr ydym yn bryderus ynghylch gorhyder y Prif Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Aelodau Llafur y Cynulliad ac Aelodau Llafur Senedd Ewrop y gellid cyflawni'r cynllun hwn.

We are also concerned that when Christine Gwyther went to Brussels, she only discussed this issue with Franz Fischler for half an hour, which she was candid enough to admit. Half an hour to represent Welsh interests on a central matter that had the support of the whole Assembly. That was insufficient. We needed somebody to provide

Mae hefyd yn peri pryder inni nad oedd Christine Gwyther, pan aeth i Frwsel, ond wedi trafod y mater hwn gyda Franz Fischler am hanner awr, fel yr oedd yn ddigon gonest i gyfaddef. Hanner awr i ddadlau dros fuddiannau Cymreig ar fater canolog a oedd wedi derbyn cefnogaeth y Cynulliad cyfan. Yr oedd hynny'n annigonol. Yr oedd arnom

a strong, robust voice for Wales. The First Secretary should have been in Brussels arguing for Wales alongside her. We need a robust voice to argue for Welsh agriculture. This is one of many issues of concern that have recently arisen. Others include the beef on the bone ban, genetically modified crops, the Milk Marque report and a separate cull ewe scheme as well as the calf processing aid scheme.

The future of the whole administration has also caused concern. There were reports, unanswered and undenied, that if Christine Gwyther went they would all go: a tantalising prospect for many of us. So much for inclusiveness. However, that is an arrogant, undemocratic and dangerous threat. If the administration is not only not listening to minorities but not listening to a majority, the Assembly's credibility is at stake. This also happened during the summer when the three opposition parties wanted the Assembly to reconvene, as did at least one Labour backbencher, but the administration refused.

Alun Michael has been standing behind Christine Gwyther, sometimes a long way behind her. We can understand that he wants to keep her in front of him, as she is a lightening conductor for criticism. This motion concerns the whole issue of running Welsh agriculture. It is a confidence issue. We need somebody who can fight strongly for Wales, for Welsh agriculture and for Welsh rural interests. We need that person now.

**Michael German:** I share your regret, Presiding Officer, that the leaders of the parties who represent a majority in the Assembly are here to move a censure motion on the Secretary for Agriculture and Rural Development.

I also believe that the Assembly's credibility is at stake and recognise the importance of what I and my colleagues from other parties are doing. I assure you that we do not move

angen rhywun i godi llais cryf a chadarn dros Gymru. Dylasai'r Prif Ysgrifennydd fod ym Mrwsel yn dadlau dros Gymru ochr yn ochr â hi. Mae arnom angen llais cadarn i ddadlau dros amaethyddiaeth Cymru. Mae hyn yn un o blith nifer o faterion sydd yn peri pryder a gododd yn ddiweddar. Ymysg y lleill y mae'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn, cynydau a addaswyd yn enetig, yr adroddiad ar Milk Marque a chynllun difa mamogiaid ar wahân yn ogystal â'r cynllun cymorth prosesu lloi.

Mae dyfodol y weinyddiaeth gyfan wedi peri pryder hefyd. Cafwyd adroddiadau, nas atebwyd ac nas gwadwyd, y byddent oll yn mynd pe bai Christine Gwyther yn mynd: disgwyliad deniadol i lawer ohonom. Dyna werth cynwysoldeb. Fodd bynnag, mae hynny'n fygythiad trahaus, annemocrataidd a pheryglus. Os nad yw'r weinyddiaeth yn gwrando ar leiafrifoedd nac yn gwrando ar y fwyafrif ar ben hynny, mae hygredd y Cynulliad yn y fantol. Digwyddodd hyn yn ystod yr haf hefyd pan oedd y tair plaid wrthbleidiol am i'r Cynulliad ailgynnwyl, fel yr oedd o leiaf un o Aelodau Llafur y meinciau cefn, ond gwrthododd y weinyddiaeth.

Bu Alun Michael yn sefyll y tu cefn i Christine Gwyther, ymhell y tu cefn iddi ar adegau. Gallwn ddeall ei fod am ei chadw o'i flaen, oherwydd ei bod yn denu beirniadaeth fel rhoden fellt. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â holl fater rhedeg amaethyddiaeth Cymru. Mae'n fater o hyder. Mae arnom angen rhywun sydd yn gallu ymladd yn gryf dros Gymru, dros amaethyddiaeth Cymru a dros fuddiannau cefn gwlad Cymru. Mae arnom angen rhywun felly yn awr.

**Michael German:** Yr wyf yn rhannu'ch gofid, Lywydd, fod arweinyddion y pleidiau sydd yn cynrychioli lleiafrif yn y Cynulliad yma er mwyn rhoi cynnig o gerydd gerbron ar yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Credaf innau fod hygredd y Cynulliad yn y fantol a sylweddolaf mor bwysig yw'r hyn yr wyf fi a'm cyd-aelodau o'r pleidiau eraill yn ei wneud. Yr wyf yn eich sicrhau nad ydym

this motion lightly, or with any sense of satisfaction. I also accept your concern that this might not be the best use of the procedure. We are expressing our lack of confidence in Christine Gwyther, not as a person, nor as a hard working Assembly Member nor or even as a dedicated Assembly Secretary. We are expressing our lack of confidence in her as someone who is sufficiently competent for the high office that she holds.

However, this is the only route available to Assembly Members to express our grave concerns, particularly when no party has a majority. If we drew back from expressing them, what kind of service would we give to the people whom we represent? If public office were judged on people's intentions, hard work or dedication, political history would have been written differently. Chamberlain would have been held up as a hero, desperate to appease Hitler and, with the best will in the world, to prevent war. However, he was proved wrong and was judged on that. John Major is another example. He is a nice bloke, sincere, remarkably dedicated, honest and dependable. If he were judged by those criteria, he would still be in Number 10. However, he was judged on his record and that of his Government.

That is politics. Unfortunately, First Secretary, there are no prizes for effort, merely for achievement. We move this motion today due to Christine's failure to deliver what she promised. We move it not because of what she has done but what she has not done, not because of her lack of enthusiasm but her lack of competence. She failed to spot the European obstacles until after the calf scheme that she voted to implement was meant to be up and running. She misled the dairy sector into believing that it would receive a rescue package worth £750,000 by the end of the year and damaged the confidence of the agricultural community that she represents. Above all, she damaged the confidence of the people of Wales that the Assembly can be trusted to do what it says.

yn dod â'r cynnig hwn gerbron yn ddifeddwl, nac yn teimlo unrhyw foddhad wrth wneud hyn. Yr wyf hefyd yn derbyn eich pryder nad hyn yw'r modd gorau i ddefnyddio'r weithdrefn. Yr ydym yn mynegi ein diffyg hyder yn Christine Gwyther, nid fel person, nid fel Aelod Cynulliad gweithgar na hyd yn oed fel Ysgrifennydd Cynulliad ymroddedig. Yr ydym yn mynegi ein diffyg hyder ynddi fel rhywun nad yw'n ddigon cymwys i ddal ei swydd uchel.

Fodd bynnag, hon yw'r unig ffordd sydd yn agored i Aelodau'r Cynulliad fynegi ein pryderon difrifol, yn enwedig lle nad oes gan yr un blaid fwyafrif. Pe baem yn ymatal rhag eu mynegi, pa fath o wasanaeth a roddem i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli? Pe bai dyletswydd gyhoeddus yn cael ei barnu yn ôl bwriadau, gwaith caled neu ymroddiad, byddai hanes gwleidyddiaeth yn wahanol. Byddai Chamberlain wedi ei ddyrchafu'n arwr, yn barod i wneud rhywbeth i ddyhuddo Hitler a, gyda phob ewyllys da yn y byd, i atal rhyfel. Fodd bynnag, fe'i profwyd yn anghywir ac fe'i barnwyd ar hynny. Mae John Major yn enghraifft arall. Mae'n ddyn hoffus, yn ddiwyll, yn hynod o ymroddedig, gonest a dibynadwy. Pe bai'n cael ei farnu yn ôl y meini prawf hynny, byddai yn Rhif 10 o hyd. Fodd bynnag, fe'i barnwyd ar ei record ac ar record ei Lywodraeth.

Peth felly yw gwleidyddiaeth. Yn anffodus, Brif Ysgrifennydd, nid oes gwobrau am ymdrech, dim ond am gyflawniadau. Yr ydym yn rhoi'r cynnig hwn gerbron heddiw oherwydd methiant Christine i gyflawni'r hyn a addawodd. Yr ydym yn ei roi gerbron nid oherwydd yr hyn a wnaeth ond oherwydd yr hyn na wnaeth, nid oherwydd ei diffyg brwdfrydedd ond oherwydd ei diffyg cymhwysedd. Methodd â chanfod y rhwystrau Ewropeaidd tan ar ôl yr adeg pryd yr oedd y cynllun lloi y pleidleisiodd dros ei weithredu i fod yn weithredol. Camarweiniodd y sector llaeth i gredu y byddai'n derbyn pecyn cymorth gwerth £750,000 erbyn diwedd y flwyddyn a niweidiodd hyder y gymuned amaethyddol y mae'n ei chynrychioli. Uwchlaw popeth, niweidiodd hyder pobl Cymru yng ngallu'r Cynulliad i sefyll ar ei air.



Let us consider Scotland, where a similar situation was handled differently. As we do, let us put to rest the Labour spin that says that the Liberal Democrats failed to deliver up there. Ross Finnie has not lost the confidence of the agricultural community in Scotland, nor is his competence questioned in the Scottish Parliament. I have not heard Donald Dewar express his dissatisfaction or concern, and there are good reasons for that.

Ross put forward a ewe scheme, not a calf scheme. The timetable and obstacles were different, he never spoke of green lights or gave false assurances and the Scottish Parliament did not discuss or vote to implement the scheme. His credibility was not hanging on its delivery, neither was that of the Parliament in which he served. He stated clearly his intentions and outlined the obstacles before going to Strasbourg or Brussels. He prevented farmers from planning their winter budgets around a scheme that he could not deliver. Crucially, he had already provided a back-up scheme before embarking on the ewe scheme. Twenty million pounds was targeted for hill farmers to relieve the crisis in the sheep sector.

Ross Finnie did his best for Scotland in difficult circumstances, as Christine did for Wales. The difference is that his actions have inspired confidence and hers have not. He acted responsibly and she did not. He has given leadership and Christine has just given excuses. The people of Wales deserve more from the Assembly than broken promises and lengthy excuses. It is rough justice but the new politics is not playground politics. The Executive is accountable to the Assembly, and if it will not listen we will make ourselves heard. Christine, please consider your position for your sake and ours.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Diolch, Lywydd, am eich arweiniad clir a doeth ar y mater

Gadewch inni ystyried yr Alban, lle y trafodwyd sefyllfa debyg yn wahanol. Wrth wneud hynny, gadewch inni gladdu stori Llafur sydd yn dweud bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi methu â mynd â'r maen i'r wal yn y fan honno. Nid yw Ross Finnie wedi colli hyder y gymuned amaethyddol yn yr Alban, ac nid oes amheuaeth ynghylch ei gymhwysedd yn Senedd yr Alban. Ni chlywais Donald Dewar yn mynegi anfodlonrwydd neu bryder, ac mae rhesymau da dros hynny.

Cynllun defaid a gyflwynwyd gan Ross, nid cynllun lloi. Yr oedd yr amserlen a'r rhwystrau'n wahanol, ni soniodd erioed am oleuadau gwyrdd ac ni roddodd ffug addewidion ac nid oedd Senedd yr Alban wedi trafod nac wedi pleidleisio i weithredu'r cynllun. Nid oedd ei hygredd yn dibynnu ar ei gyflawni, na hygredd y Senedd y gwasanaethai ynddi. Rhoddodd ddatganiad eglur o'i fwriadau ac amlinelliad o'r rhwystrau cyn mynd i Strasbourg neu Frwsel. Rhwystrodd y ffermwyr rhag cynllunio eu cyllidebau gaeaf ar sail cynllun na allai ei gyflawni. Yn bwysicaf oll, yr oedd eisoes wedi darparu cynllun wrth gefn cyn cychwyn ar y cynllun defaid. Neilltuwyd £ 20 miliwn ar gyfer ffermwyr mynydd er mwyn lliniaru'r argyfwng yn y sector defaid.

Gwnaeth Ross Finnie ei orau dros yr Alban mewn amgylchiadau anodd, fel y gwnaeth Christine dros Gymru. Y gwahaniaeth yw bod ei weithredoedd ef wedi ennyn hyder ac nad yw ei gweithredoedd hi wedi gwneud hynny. Gweithredodd ef yn gyfrifol ac ni wnaeth hi. Rhoddodd ef arweiniad ac ni roddodd Christine ond esgusion. Mae pobl Cymru yn haeddu mwy gan y Cynulliad na thoraddewid ac esgusion hirwyntog. Mae'n fras gyfiawnder ond nid gwleidyddiaeth y buarth ysgol mo'r wleidyddiaeth newydd. Mae'r Weithrediaeth yn atebol i'r Cynulliad, ac os nad yw am wrando rhaid i ni fynnu gwrandawriad. Christine, ystyriwch eich sefyllfa er eich mwyn chi ac er ein mwyn ninnau.

**The First Secretary:** Thank you, Presiding Officer, for your clear and wise guidance on

anffodus hwn.

I debate this matter with considerable regret. There are three questions to answer. First, has the Secretary for Agriculture and Rural Development acted in any way that is inappropriate or that brings the Assembly into disrepute? The answer is a categorical 'no'. The substance of this motion was debated last week. Christine fought for the scheme and we came up with the £750,000 referred to in the motion. Not one of the speakers today, nor anybody in any previous debate on this subject, has given a single shred of evidence or example showing that the Secretary for Agriculture and Rural Development has acted inappropriately. On the contrary, this issue has underlined how hard and diligently she has worked, in extremely difficult circumstances, to get the best deal possible for Welsh farmers and the farming industry.

2:50 p.m.

She has not just done her best—which should be good enough to protect any individual from censure in the Assembly—she has done the best that anyone could do. She has justified my faith in appointing her. There is no one present who could have worked harder or achieved more in this situation. There has been no inappropriate behaviour by the Secretary for Agriculture and Rural Development. On the evidence, the motion must fall.

Secondly, have farmers' interests been served by this censure motion? Again, the answer is a categorical 'no'. Farmers' interests have been harmed by this motion. Those who have persisted with it have used farmers' interests as a political football and care nothing for the real issues at stake or the progress that we are trying to achieve. For them, this has been about scoring cheap political points and seeking out a political scapegoat in the most cowardly fashion. Their actions have distracted from the real issue: how we can safeguard the long-term future of the Welsh farming industry. My colleagues and I have contempt for their shabby behaviour.

this unfortunate matter.

Mae trafod y mater hwn yn peri cryn ofid imi. Mae tri chwestiwn i'w hateb. Yn gyntaf, a yw'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi gweithredu mewn unrhyw fodd sydd yn amhriodol neu'n dod ag anfri ar y Cynulliad? Yr ateb yw 'na', yn bendant. Trafodwyd mater y cynnig hwn yr wythnos diwethaf. Ymladdodd Christine dros y cynllun a chawsom hyd i'r £750,000 y cyfeirir ato yn y cynnig. Nid yw'r un o'r siaradwyr heddiw, nac unrhywun arall mewn dadl flaenorol ar y pwnc hwn, wedi rhoi iot o dystiolaeth neu enghraifft sydd yn dangos bod yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi gweithredu'n amhriodol. I'r gwrthwyneb, mae'r mater hwn wedi tynnu sylw at y modd y gweithiodd yn galed ac yn ddiwyd, mewn amgylchiadau anodd iawn, i gael y fargen orau posibl i ffermwyr Cymru a'r diwydiant amaethyddol.

Nid yn unig y gwnaeth ei gorau—a ddylai fod yn ddigon i amddiffyn unrhyw un rhag cael cerydd yn y Cynulliad—ond gwnaeth y gorau y gallai unrhywun ei wneud. Mae wedi cyfiawnhau fy ymddiriedaeth wrth ei phenodi. Nid oes unrhywun yn bresennol a allasai weithio'n galetach neu gyflawni mwy yn y sefyllfa hon. Ni fu unrhyw ymddygiad amhriodol ar ran yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yn ôl y dystiolaeth, rhaid gwrthod y cynnig.

Yn ail, a fu'r cynnig hwn o gerydd er budd i'r ffermwyr? Unwaith eto, yr ateb yw 'na', yn bendant. Mae buddiannau'r ffermwyr wedi eu niweidio gan y cynnig hwn. Mae'r rhai sydd wedi dal ati gyda'r cynnig wedi defnyddio buddiannau'r ffermwyr fel pêl wleidyddol ac nid ydynt yn poeni o gwbl am y gwir faterion sydd yn y fantol na'r cynnydd yr ydym yn ceisio ei sicrhau. Iddynt hwy, mae hyn yn ymwneud â sgorio pwyntiau gwleidyddol dibwys a chwilio am fwch dihangol gwleidyddol yn y modd mwyaf llwfr. Mae eu gweithredoedd wedi tynnu sylw oddi wrth y gwir fater: sut y gallwn ddiogelu dyfodol tymor-hir y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Mae fy

nghydweithwyr a minnau'n ffeiddio eu hymddygiad annheilwng.

Thirdly, has the Assembly itself been served by this censure motion? Again, the answer is a resounding 'no'. The opposite has happened. The Assembly could have been damaged by this affair if it were not that it is already bigger than any one of us. To the people we were elected to represent, this looks like politicians squabbling among themselves, putting personalities before the real issues and indulging in childish behaviour. That does nothing to enhance the Assembly's image or to further the work that we are here to do.

I believe in inclusive politics, co-operation and partnership. Anyone who knows me knows that these are not mere words or slogans but the beliefs that drew me into politics. They led me to argue for devolution in the 1960s and 1970s and to commit my future to the Assembly. Christine Gwyther shares those beliefs. She has put them into practice.

We gave the Assembly an electoral system that can only work if its Members practise partnership and co-operation. That is the only way the Assembly can succeed in its aim of improving the lives of the people of Wales. If anyone should be censured, it should be those who have put small-minded petty politicking above the interests of the Assembly and the people of Wales. Those who have persisted with this motion should be censured. They are the ones who have indulged in inappropriate action, whose behaviour is unbecoming and who have sought to bring the Assembly into disrepute. I say that with sadness as well as anger.

Let them withdraw this motion. Let us put this sorry business behind us, return to our serious work and get on with the job of addressing the real needs and concerns of the people of Wales. No one who cares for the Assembly or for Wales could possibly vote for this motion. [ASSEMBLY MEMBERS: Hear, hear.]

Yn drydydd, a fu'r cynnig hwn o gerydd er budd y Cynulliad ei hun? Unwaith eto, yr ateb yw 'na', eto byth. Y gwrthwyneb sydd wedi digwydd. Fe allai'r Cynulliad fod wedi ei niweidio gan y mater hwn oni bai ei fod eisoes yn fwy na'r un ohonom. Yng ngolwg y bobl yr etholwyd ni i'w cynrychioli, mae hyn yn ymddangos fel gwleidyddion yn ffræo ymysg ei gilydd, yn rhoi personoliaethau o flaen y gwir ystyriaethau ac yn ymbleseru mewn ymddygiad plentynnaidd. Nid yw hynny'n gwneud dim i wella delwedd y Cynulliad nac i hyrwyddo'r gwaith yr ydym yma i'w gyflawni.

Credaf mewn gwleidyddiaeth gynhwysol, cydweithredu a phartneriaeth. Mae unrhyw un sydd yn f'adnabod yn gwybod nad geiriau neu sloganau'n unig yw'r rhain ond y daliadau a'm denodd i wleidyddiaeth. Y rhain a'm cymhellodd i ddadlau dros ddatganoli yn y 1960au a'r 1970au ac i ymrwmo fy nyfodol i'r Cynulliad. Mae Christine Gwyther yn rhannu'r daliadau hynny. Mae wedi eu rhoi ar waith.

Rhoesom system etholiadol i'r Cynulliad na fydd yn gweithio ond os bydd ei Aelodau'n gweithio mewn partneriaeth a drwy gydweithredu. Dim ond felly y gall y Cynulliad lwyddo yn ei amcan o wella bywydau pobl Cymru. Os oes rhai y dylid eu ceryddu, hwy yw'r rheini a roddodd fân wleidyddia pitw uwchlaw buddiannau'r Cynulliad a phobl Cymru. Dylid ceryddu'r rhai a ddaliodd ati â'r cynnig hwn. Hwy yw'r rhai a gymerodd bleser mewn gweithredu amhriodol, y mae eu hymddygiad yn annheilwng ac a geisiodd ddwyn anfrï ar y Cynulliad. Dywedaf hynny gyda thristwch yn ogystal â dicter.

Boed iddynt dynnu'n ôl y cynnig hwn. Gadewch inni gefnu ar y busnes truenus hwn, a mynd yn ôl at ein gwaith pwysig a mynd ymlaen â'r gwaith o ymdrin â gwir anghenion a phryderon pobl Cymru. Ni allai unrhywun sydd yn ymboeni am y Cynulliad neu am Gymru bleidleisio dros y cynnig hwn. [AELODAU O'R CYNULLIAD: Clywch,

clywch.]

**The Presiding Officer:** We will now vote on the motion. **Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

*A vote was held by show of hands.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

**The Presiding Officer:** The result is unclear to me. I therefore call for a confirmatory vote. **Y Llywydd:** Nid yw'r canlyniad yn amlwg imi. Galwaf felly am bleidlais gadarnhau.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 30, Ymatal 1, Yn erbyn 27  
The Assembly divided: For 30, Abstain 1, Against 27*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Dafis, Cynog  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
German, Michael  
Graham, William  
Hancock, Brian  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Michael, Alun  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelod canlynol:  
The following Member abstained:

Jane Davidson

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

3:00 p.m.

**Nick Bourne:** Point of order. In view of the censure motion being passed, will the First Secretary, under Standing Order No. 6.4, make an announcement on what the Labour administration intends to do?

**The Presiding Officer:** This does not arise under Standing Order No. 6.4.

**The First Secretary:** My Cabinet colleagues and I will consider the resolution that has been passed by the Assembly. Arrangements have been made for us to meet to discuss it.

**Nick Bourne:** Pwynt o drefn. Yng ngolwg y ffaith bod y cynnig o gerydd wedi ei dderbyn, a wnaiff y Prif Ysgrifennydd, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.4, gyhoeddiad ynghylch bwriad y weinyddiaeth Lafur?

**Y Llywydd:** Nid yw hyn yn codi o dan Reol Sefydlog Rhif 6.4.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet a minnau yn ystyried y penderfyniad a dderbyniwyd gan y Cynulliad. Gwnaethpwyd trefniadau inni gyfarfod i'w drafod.

### **Dogfennau Strategaeth Ewropeaidd European Strategy Documents**

**The Presiding Officer:** I have selected two amendments to the motion. The first amendment stands in the names of Michael German and Alun Cairns and the second amendment stands in the names of Phil Williams, Alun Cairns and Michael German.

**The First Secretary:** I propose that the Assembly

*notes with approval the drafts single programming document for the west Wales and the Valleys Objective 1 area, and the draft operational programme for the east Wales Objective 3 area, laid in the Table Office on 13 October 1999;*

*authorises the First Secretary to arrange for their submission to the European Commission by 29 October 1999, with such amendments as may strictly be necessary to meet the Commission's technical requirements;*

*requests the First Secretary at the earliest opportunity to place before the Assembly, in English and in Welsh, the final texts of the documents submitted to the Commission; and*

*notes with approval the latest draft of the national economic development strategy laid in the Table Office on 14 October 1999, and requests the First Secretary to develop this further in the light of the additional*

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol dau welliant i'r cynnig. Mae'r gwelliant cyntaf wedi ei gyflwyno yn enwau Michael German ac Alun Cairns ac mae'r ail welliant wedi ei gyflwyno yn enwau Phil Williams, Alun Cairns a Michael German.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cynigiau fod y Cynulliad

*yn nodi gyda chymeradwyaeth y ddogfen raglennu sengl ddrfft ar gyfer ardal Amcan 1 gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r Rhaglen weithredu ddrfft ar gyfer ardal Amcan 3 dwyrain Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 1999;*

*yn awdurdodi'r Prif Ysgrifennydd i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 29 Hydref 1999, gyda'r gwelliannau hynny y mae'n rhaid wrthynt i ateb gofynion technegol y Comisiwn;*

*yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd cyn gynted ag y gall i osod gerbron y Cynulliad, yn y Gymraeg a'r Saesneg, destunau terfynol y dogfennau a gyflwynwyd i'r Comisiwn; ac*

*yn nodi gyda chymeradwyaeth ddrfft diweddaraf y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 1999, ac yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd ei datblygu*

*European funding to be made available to Wales and the need to promote the fullest possible integration between European-funded and domestic policies and programmes.*

The holding of this Plenary debate on the European structural funds documents marks a significant achievement by the Assembly and its partners. We have prepared and discussed documents covering the most important injection of external economic aid that we have ever seen into Wales. This happened at a time when the Assembly was adjusting to its challenging new role. We have also managed the difficult transformation of taking on and developing the taskforce's work into our own submission to Europe.

Our ability to take these difficult steps at such an early stage in our institutional lifetime is a considerable achievement. It does credit to the positive attitude shown by Members of all parties in getting this right. The documents before you today still require technical work, as I will explain later. However, this must be put in the context of how far we have come at a time when it has been difficult for us all to be completely focused on this critical issue.

I wish to record my warm personal thanks to the European taskforce who have worked so hard and well over the months to develop the proposals before us today. I also want to pay tribute to our officials—to Hugh Rawlings and his team, and to the Permanent Secretary. As a result of the pressures and distractions of the election period, I asked Jon Shortridge to take personal oversight of this work. It has greatly benefited from the focus that he brought to it, and also from the long hours that other officials have put into it. We should not underestimate the amount of time and effort that has been put into preparing this document.

On a subject of such vital importance to Wales, it is welcome that all parts of Wales have been involved in the work through a wide partnership of bodies from the public, private and voluntary sectors. The taskforce

*ymhellach yng ngoleuni'r cyllid Ewropeaidd ychwanegol a ddaw i Gymru a'r angen i integru cymaint ag y gellir y polisiau a'r rhaglenni a ariennir gan Ewrop gyda pholisiau a rhaglenni domestig.*

Mae cynnal y ddadl hon yn y Cyfarfod Llawn ar ddogfennau cronfeydd strwythurol Ewrop yn arwydd o gyflawniad o bwys gan y Cynulliad a'i bartneriaid. Yr ydym wedi paratoi a thrafod dogfennau sydd yn ymwneud â'r chwistrelliad pwysicaf o gymorth economaidd allanol a welsom yng Nghymru erioed. Digwyddodd hyn ar adeg pan yr oedd y Cynulliad yn ymgynefino â her ei rôl newydd. Yr ydym hefyd wedi dygymod â'r newid anodd o ymgymryd â gwaith y tasglu a'i ddatblygu a'i gynnwys yn ein cyflwyniad ein hunain i Ewrop.

Mae ein gallu i gymryd y camau anodd hyn mor gynnar yn ein hoes fel sefydliad yn gryn gamp. Mae'n glod i'r ymagwedd gadarnhaol a amlygwyd gan Aelodau o bob plaid at gael hyn yn iawn. Mae angen gwaith technegol ar y dogfennau sydd ger eich bron heddiw o hyd, fel yr egluraf yn ddiweddarach. Fodd bynnag, rhaid rhoi hyn yng nghyd-destun y pellter a deithiwyd ar adeg pan y bu'n anodd i bawb ohonom ganolbwytio'n llwyr ar y mater holl bwysig hwn.

Dymunaf gofnodi fy niolch personol cynnes i'r tasglu Ewropeaidd a weithiodd mor galed ac mor dda dros y misoedd i ddatblygu'r cynigion sydd ger ein bron heddiw. Yr wyf hefyd am dalu teyrnged i'n swyddogion—i Hugh Rawlings a'i dîm, ac i'r Ysgrifennydd Parhaol. O ganlyniad i'r pwysau a'r ymyrraeth dros gyfnod yr etholiad, gofynnais i Jon Shortridge oruchwylio'r gwaith hwn yn bersonol. Mae wedi elwa'n fawr ar y sylw a roddodd iddo, a hefyd ar yr oriau hir a gyfrannwyd gan swyddogion eraill. Ni ddylem danbrizio'r amser a'r ymdrech a roddwyd wrth baratoi'r ddogfen hon.

Ar bwnc sydd o bwys mor hanfodol i Gymru, croesawaf y ffaith fod pob rhan o Gymru wedi cymryd rhan yn y gwaith drwy bartneriaeth eang o gyrff a o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'r

has further extended the debate by conducting an extensive public consultation over the summer. That is a process of consideration in which the Economic Development Committee and the Regional Committees have played a valuable part.

The Assembly is being asked today to approve and authorise the submission to Brussels of the two documents on the use of European structural funds. We are also being asked to note with approval the latest draft of the national economic development strategy. We must pay close attention to the different roles that these documents are expected to play and the varying tests that they must meet. The national economic development strategy is the simplest of these documents. It was produced on the taskforce's initiative and has been described as the son of 'Pathway to Prosperity'. The document provides a strategic overview of the policies that should inform all spending on economic development in Wales, be it from European structural funds or from domestic resources. It should set a framework for all the Assembly's and its agencies' spending on economic development.

This is not an European Commission document, although the EC is interested in it. It does not have to meet regulatory requirements. The document outlines the key areas required for economic growth in Wales. These include developing a strong indigenous business base, developing a more entrepreneurial culture, upgrading our skills base and encouraging greater research and development by Welsh companies. I believe that these strategic priorities will receive the general support of most Members. However, I am aware that this is the first formal occasion that many of us have had to discuss the document.

I emphasise that the Assembly is not being asked to sign this document off. We simply need to give the Executive, working closely with the Subject Committees, the authority to develop this document further. I want this to become a clearly focused and widely

tasglu wedi ehangu'r ddadl ymhellach drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth dros yr haf. Mae honno'n broses o ystyriaeth lle y mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgorau Rhanbarthol wedi chwarae rhan werthfawr.

Heddiw, gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo ac awdurdodi cyflwyno i Frwsel y ddwy ddogfen ar y defnydd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Gofynnir inni hefyd nodi gyda chymeradwyaeth y drafft diweddaraf o'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Rhaid inni roi sylw manwl i'r gwahanol rolau y disgwylir i'r dogfennau hyn eu chwarae a'r profion amrywiol y bydd yn rhaid iddynt eu hateb. Y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yw'r symlaf o'r dogfennau hyn. Fe'i cynhyrchwyd ar fenter y tasglu ac fe'i disgrifiwyd fel olynnydd i 'Ffordd i Ffyniant'. Mae'r ddogfen yn rhoi uwcholg strategol ar y polisïau a ddylai oleuo'r holl wariant ar ddatblygu economaidd yng Nghymru, boed o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd neu o adnoddau domestig. Dylai osod fframwaith i holl wariant y Cynulliad a'i asiantaethau ar ddatblygu economaidd.

Nid un o ddogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd yw hon, er bod y CE yn ymddiddori ynnddi. Nid oes yn rhaid iddi ateb gofynion rheoleiddiol. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r meysydd allweddol sydd yn angenrheidiol ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae datblygu sylfaen busnes cynhenid gadarn, datblygu diwylliant mwy entrepreneuriaidd, uwchraddio ein sylfaen medrau a hyrwyddo mwy o ymchwil a datblygu gan gwmnïau Cymreig. Credaf y bydd y blaenoriaethau strategol hyn yn derbyn cefnogaeth gyffredinol y rhan fwyaf o'r Aelodau. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol mai hwn yw'r achlysur ffurfiol cyntaf a gafodd llawer ohonom i drafod y ddogfen.

Pwysleisiaf nad gofyn i'r Cynulliad arwyddo'r ddogfen hon yn derfynol a wneir. Nid oes gofyn ond inni roi'r awdurdod i'r Weithrediaeth ddatblygu'r ddogfen hon ymhellach, gan weithio'n agos gyda'r Pwyllgorau Pwnc. Yr wyf am i hon ddod yn

accepted economic development strategy for Wales, although I know that this cannot be done instantly. The document has benefited from extensive partnership work that I hope we can all build on in future discussions.

Today's debate is only the beginning of our discussions on the development strategy. However, it marks the culmination of our initial consideration of the Objective 1 single programming document. This document is the key to enabling west Wales and the Valleys to draw down the promised £1.2 billion in European structural funds. The document is based largely on the work of the Wales European taskforce with considerable input from a broad based partnership of public, private and voluntary sector bodies. It was put together in its initial form by representatives of the regional partnerships for west Wales and the Valleys and represents to a significant degree their aspirations for their areas. Its contents also reflect the comments made by Assembly Members and by our Subject Committees.

By its nature as an European structural funds document, it is technical in some places and broad in others. That must be the case as it must be the basis for a seven-year programme. It cannot be too specific as we must have the freedom to develop and to amend our policies in the light of experience. There are also a few remaining gaps in the document, mainly where our ability to meet technical requirements has been delayed by the absence of information from the Commission.

The chapter on implementation arrangements is designed to meet Commission requirements. Implementation will be handled by a new secretariat body in the form of an agency or a partnership team within the Assembly. This will allow us to take overall authority for the process while retaining the involvement from the wider partnership and the expertise developed by the Wales European programme executive. This partnership involvement will allow us to

strategaeth datblygu economaidd i Gymru sydd yn eglur o ran ffocws a'r derbyniad iddi'n eang, er y gwn na ellir gwneud hyn ar unwaith. Mae'r ddogfen wedi elwa ar waith partneriaeth eang y gallwn oll adeiladu arno, yr wyf yn gobeithio, mewn trafodaethau yn y dyfodol.

Nid yw'r ddadl heddiw ond yn ddechrau ar ein trafodaethau ar y strategaeth ddatblygu. Fodd bynnag, mae'n nodi diwedd glo ar ein hystyriaeth gychwynnol o'r ddogfen raglennu sengl Amcan 1. Y ddogfen hon yw'r allwedd i alluogi gorllewin Cymru a'r Cymoedd i ymestyn am y £1.2 biliwn a addawyd o gyllid strwythurol Ewropeaidd. Seiliwyd y ddogfen yn bennaf ar waith tasglu Ewropeaidd Cymru gyda mewnbwn sylweddol gan bartneriaeth eang o gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Fe'i lluniwyd ar ei ffurf gychwynnol gan gynrychiolwyr o'r partneriaethau rhanbarthol dros orllewin Cymru a'r Cymoedd ac mae'n adlewyrchu i raddau sylweddol eu dyheadau ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r cynnwys hefyd yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaethpwyd gan Aelodau'r Cynulliad a chan ein Pwyllgorau Pwnc.

Wrth ei natur fel dogfen ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, mae'n dechnegol mewn rhai mannau ac yn fras mewn mannau eraill. Rhaid iddi fod felly gan fod yn rhaid iddi fod yn sylfaen i raglen saith-mlunedd. Ni all fod yn rhy benodol oherwydd rhaid inni gael y rhyddid i ddatblygu a newid ein polisiau yng ngoleuni profiad. Mae ychydig o fylchau yn y ddogfen o hyd hefyd, yn bennaf lle yr ydym heb allu ateb gofynion technegol eto yn niffyg gwybodaeth oddi wrth y Comisiwn.

Mae'r bennod ar drefniadau gweithredu wedi ei chynllunio i ateb gofynion y Comisiwn. Ymdrinnir â'r gweithredu gan gorff ysgrifenyddiaeth newydd ar ffurf asiantaeth neu dîm partneriaeth o fewn y Cynulliad. Bydd hyn yn caniatáu inni ymgymryd ag awdurdod cyffredinol dros y broses gan gadw'r cysylltiad â'r bartneriaeth ehangach a'r arbenigaeth a ddatblygwyd gan weithrediaeth rhaglen Ewropeaidd Cymru. Bydd y cysylltiad hwn â'r bartneriaeth yn



consider utilising private sector expertise to encourage more bids from businesses and to ease their path through the administrative hurdles. I have been pleased at the way many leading figures in business have responded so positively. People who are directly engaged with business in the area of greatest interest—such as members of the South West Wales Economic Forum and the Chamber of Commerce in Swansea and west Wales—want to be a part of making this a success. With the Assembly's approval today, officials will be working to develop the detailed proposals for the new body, with a view to it starting work in the first quarter of next year.

Our main focus today must be on whether the broad strategies we are proposing to support using European funds are right. The key themes of the strategies are building up our indigenous business sector, upgrading skill levels and helping to encourage inward investors further west by upgrading the infrastructure and looking at the use of operating aids. In the two years since the requirement to push inward investment further west, there has been considerable success. The strategy and the pressure asserted when the requirement was set down by Ron Davies were right. It has been developed positively since and we have seen some of the successes working through.

The documents estimate that the programme period will see at least £2.4 billion of economic investment going into west Wales and the Valleys from 2000 to 2006. The full details of this will be developed in a separate programming complement. This must be finalised by a monitoring committee which I intend should be up and running in shadow form early in the new year. We should accelerate that process so that the shadow body is established as quickly as possible and is up and running by the noted timescale. Nevertheless, the broad principles are outlined before you. These overarching strategies will act as a framework for many of our policies for economic development in

fodd inni ystyried defnyddio arbenigaeth y sector preifat er mwyn annog busnesau i gyflwyno mwy o geisiadau a hwyluso eu taith dros y rhwystrau gweinyddol. Yr oeddwn yn falch o ymateb cadarnhaol llawer o'r rhai sydd yn arwain mewn busnes. Mae rhai sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â busnes yn yr ardal yr ymddiddorir ynddi fwyaf—fel aelodau o Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru a'r Siambr Fasnach yn Abertawe a gorllewin Cymru—am gyfrannu at sicrhau llwyddiant. Gyda chymeradwyaeth y Cynulliad heddiw, bydd y swyddogion yn gweithio i ddatblygu'r cynigion manwl ar gyfer y corff newydd, gyda'r bwriad o'i weld yn dechrau ar ei waith yn chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf.

Rhaid inni ganolbwyntio'n bennaf heddiw ar benderfynu a yw'r strategaethau bras yr ydym yn eu cynnig er mwyn cefnogi'r defnydd o gyllid Ewropeaidd yn gywir. Themâu allweddol y strategaethau yw cryfhau ein sector busnes cynhenid, codi lefelau medrau a helpu i annog buddsoddiad o'r tu allan ymhellach i'r gorllewin drwy uwchraddio'r isadeiledd ac ystyried defnyddio cymhorthion gweithredu. Yn y ddwy flynedd ers y gofyniad i wthio buddsoddiad o'r tu allan ymhellach i'r gorllewin, cafwyd cryn lwyddiant. Yr oedd y strategaeth a'r pwysau a roddwyd pan osodwyd y gofyniad gan Ron Davies yn gywir. Fe'i datblygwyd yn gadarnhaol ers hynny a gwelsom rai o'r llwyddiannau'n dwyn ffrwyth.

Mae'r dogfennau'n amcangyfrif y bydd o leiaf £2.4 biliwn o fuddsoddiad economaidd yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod cyfnod y rhaglen o 2000 i 2006. Datblygir y manylion llawn am hynny mewn dogfen raglennu ategol ar wahân. Rhaid i hyn gael ei gwblhau gan bwyllgor monitro y mae'n fwriad gennyf ei weld yn weithredol ar ffurf gysgodol yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dylem gyflymu'r broses honno er mwyn sefydlu'r corff cysgodol cyn gynted ag y bo modd a'i gael yn weithredol yn ôl yr amserlen a nodwyd. Er hynny, amlinellir yr egwyddorion bras o'ch blaen. Bydd y strategaethau cyffredinol hyn yn gweithio fel fframwaith ar gyfer llawer o'n polisiau

the poorer areas of Wales over the next seven years.

The same issues need to be looked at when considering the Objective 3 operational programme which covers the seven counties of east Wales. I am sorry that this document does not contain clear financial tables, unlike the Objective 1 document. There has as yet been no agreement at central Government level on the financial allocations for Objective 3 between the three countries of Britain. However, the text shows how we expect the money to be broadly divided between the various priorities and the pattern of spend over the seven-year period. In the past, the tables and the financial information now available to the Assembly have never been in the public domain. Local government has frequently complained that it has no indication of the figures and the finances until way beyond the stage that we have reached today.

3:10 p.m.

I ask the Assembly to agree to the submission of these documents to the European Commission. They are highly technical in some ways and officials will need to do further work to ensure that they are fit for the purpose. There will be a need to negotiate as the EC will look at these documents and will want to talk to us and to our officials. However, the overarching strategies are before us and we must agree them today. The documents must be passed to Brussels by the end of the month if we are to make the earliest possible start to this programme. People in west Wales and the Valleys, including north-west Wales, are eager to utilise this great opportunity. The Assembly must help the programme on its way by approving these documents for submission to the Commission.

Rhodri Morgan will provide a fuller response to the two amendments before us when he winds up this debate. However, I wish to make one point about each of them. I have no problem with the spirit of the first amendment. We want to see the development

datblygu economaidd yn ardaloedd tlotaf Cymru dros y saith mlynedd nesaf.

Bydd angen edrych ar yr un materion wrth ystyried rhaglen weithredol Amcan 3 sydd yn cynnwys saith sir dwyrain Cymru. Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r ddogfen hon yn cynnwys tablau ariannol eglur, yn wahanol i'r ddogfen Amcan 1. Ni chafwyd cytundeb eto ar lefel Llywodraeth ganol ar y dyraniadau ariannol ar gyfer Amcan 3 rhwng tair gwlad Prydain. Fodd bynnag, mae'r testun yn dangos sut yr ydym yn disgwyl y caiff yr arian ei rannu'n fras rhwng y gwahanol flaenoriaethau a phatrwm y gwariant dros y cyfnod saith-mlynedd. Yn y gorffennol, nid oedd y tablau a'r wybodaeth ariannol sydd bellach ar gael i'r Cynulliad yn rhan o'r maes cyhoeddus. Mae llywodraeth leol wedi cwyno'n aml na ddangoswyd iddi'r ffigurau a'r manylion ariannol tan ymhell ar ôl y cyfnod yr ydym wedi ei gyrraedd heddiw.

Gofynnaf i'r Cynulliad gytuno i gyflwyno'r dogfennau hyn i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae rhai agweddau arnynt yn dechnegol iawn a bydd angen i'r swyddogion wneud rhagor o waith i sicrhau eu bod yn ateb y diben. Bydd angen trafod oherwydd bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn edrych ar y dogfennau hyn ac am siarad â ni a'n swyddogion. Fodd bynnag, mae'r strategaethau cyffredinol ger ein bron a rhaid inni gytuno arnynt heddiw. Rhaid trosglwyddo'r dogfennau i Frwsel erbyn diwedd y mis os ydym i gychwyn ar y rhaglen hon cyn gynted ag y bo modd. Mae pobl yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys gogledd-orllewin Cymru, yn awyddus i ddefnyddio'r cyfle mawr hwn. Rhaid i'r Cynulliad helpu'r rhaglen ar ei ffordd drwy gymeradwyo'r dogfennau hyn i'w cyflwyno i'r Comisiwn.

Bydd Rhodri Morgan yn rhoi ymateb llawnach i'r ddau welliant ger ein bron pan ddaw â'r ddadl hon i ben. Fodd bynnag, dymunaf wneud un pwynt am bob un ohonynt. Nid oes gennyf wrthwynebiad i ysbryd y gwelliant cyntaf. Yr ydym am weld

of a more entrepreneurial culture in Wales, although we should not talk down the extent to which there are many successes to point to. We have strengthened the document with respect to promoting entrepreneurship and the spirit of adventure in business. However, there are difficulties with the wording of the amendment as it stands.

I must also draw attention to the nature of the second amendment. It calls for an unequivocal statement from me that budgets for health, education, social services and the environment will not be reduced to pay for structural funds activities. I have no intention of raiding budgets for those key services to pay for structural funds support. This administration is committed to raising spending on health and education. We made this clear in our manifesto in 1997 and again last May. We are delivering on our promise with the finances of the current three-year period. I am more than happy to give the commitment that the amendment seeks, before we move on to the details of the debate. It is a pleasure to introduce this debate. I hope that from now on we will see the release of energy by all three partner sectors and everyone in the Assembly to make the Objective 1 period a great success for such large parts of Wales.

**Michael German:** I propose the following amendment. After clause 2 of the motion, add the following:

*requires the incorporation into the final text of the document a strong commitment to the development of entrepreneurship in Wales including in particular the following two objectives:*

*to change attitudes towards and promote entrepreneurial behaviour of all stakeholders at all levels and especially among young people to cope with change and to maximise economic potential;*

*to broaden the national curriculum to ensure that an entrepreneurial experience is the entitlement for all children and young*

datblygu diwylliant mwy entrepreneuriaid yng Nghymru, er na ddylem fychanu'r ffaith fod llawer o lwyddiannau y gallwn gyfeirio atynt. Yr ydym wedi cryfhau'r ddogfen o ran hybu entrepreneuriaeth a'r ysbryd o fenter mewn busnes. Fodd bynnag, mae anawsterau ynghylch geiriad y gwelliant fel y mae.

Rhaid imi dynnu sylw hefyd at natur yr ail welliant. Mae'n galw am ddatganiad diamwys gennyf fi na fydd gostyngiad yn y cyllidebau i iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r amgylchedd er mwyn talu am weithgareddau cronfeydd strwythurol. Nid oes gennyf fwriad i ysbeilio cyllidebau i'r gwasanaethau allweddol hynny i dalu am gymorth i'r cronfeydd strwythurol. Mae'r weinyddiaeth hon wedi ymrwymo i gynyddu gwariant ar iechyd ac addysg. Rhoesom hynny ar ddeall yn ein maniffesto yn 1997 ac eto fis Mai diwethaf. Yr ydym yn cadw ein haddewid gyda chyllid y cyfnod tair-blynedd cyfredol. Yr wyf yn fwy na bodlon rhoi'r ymrwymiad a geisir yn y gwelliant, cyn inni fynd ymlaen at fanylion y ddatl. Mae'n bleser cyflwyno'r ddatl hon. Gobeithiaf o hyn ymlaen y gwelwn ryddhau egni'r tri sector yn y bartneriaeth a phawb yn y Cynulliad i wneud cyfnod Amcan 1 yn llwyddiant mawr i rannau mor helaeth o Gymru.

**Michael German:** Cynigiaf y gwelliant canlynol. Ar ôl cymal 2 y cynnig, ychwaneger y canlynol:

*yn mynnu cynnwys yn nhestun terfynol y ddogfen ymrwymiad cadarn i ddatblygu entrepreneuriaeth yng Nghymru gan gynnwys, yn benodol, y ddau amcan canlynol:*

*newid agweddau at ymddygiad entrepreneuriaid, a'i hyrwyddo, ymhlith yr holl gyfranddeiliaid ar bob lefel ac yn enwedig ymhlith pobl ifainc er mwyn dygymod â newid a chynyddu potensial economaidd i'r eithaf;*

*ehangu'r cwricwlwm cenedlaethol er mwyn sicrhau bod profiad entrepreneuriaid yn hawl i bob plentyn a pherson ifanc.*

*people.*

In this amendment we call for a clear and explicit commitment to promoting and supporting entrepreneurship in the Objective 1 documentation. We seek to reinstate the clauses that were removed from the first draft of the documentation. We are trying to get clear initiatives to change attitudes towards entrepreneurship in Wales and to promote entrepreneurial activity among all stakeholders. Emphasis is placed on promoting entrepreneurial attitudes among young people, including a change to the entrepreneurial experience in the National curriculum.

Many of us recently attended meetings with the manufacturing and engineering industries. We always hear from them that real cultural change must begin at a young age. Low priority has been given to entrepreneurship in the past, which has contributed to low gross domestic product and employment growth.

Well-funded public services depend on wealth creation and wealth creation depends on entrepreneurship. We must therefore look for future economic growth from within Wales through our small and medium-sized enterprises, based on new technologies. That will generate sufficient economic anchorage to persuade large companies to stay in Wales in an increasingly competitive global market.

I note Alun's comments about the wording of this amendment. The wording is almost replicated in tomorrow's debate. I refer to Edwina Hart's document that will be discussed tomorrow and I will read the two paragraphs that the Executive asks us to support.

'Put more of our investment in people and lifelong learning so that everyone, and particularly our youth, can gain the range of knowledge and skills required...'

**The First Secretary:** The problem with the

Yn y gwelliant hwn, galwn am ymrwymiad clir ac agored i hybu a chefnogi entrepreneuriaeth yn y dogfennau Amcan 1. Yr ydym yn ceisio ailgynnwys y cymalau a dynnwyd o ddrafft cyntaf y dogfennau. Yr ydym yn ceisio sicrhau mentrau pendant i newid agweddau at entrepreneuriaeth yng Nghymru ac i hybu gweithgaredd entrepreneuriaidd ymhlith yr holl gyfranddeiliaid. Rhoddir pwyslais ar hybu agweddau entrepreneuriaidd ymhlith pobl ifainc, gan gynnwys newid yn y profiad entrepreneuriaidd yn y Cwricwlwm cenedlaethol.

Bu llawer ohonom yn bresennol yn ddiweddar mewn cyfarfodydd gyda'r diwydiannau cynhyrchu a pheirianeg. Clywn ganddynt bob tro fod yn rhaid i newid diwylliannol gwirioneddol ddechrau mewn oedran ifanc. Blaenoriaeth isel a roddwyd i entrepreneuriaeth yn y gorffennol, ac mae hyn wedi cyfrannu at lefel isel o gynnyrch mewnwladol crynswth a thwf isel mewn cyflogaeth.

Mae gwasanaethau cyhoeddus a ariennir yn ddigonol yn dibynnu ar greu cyfoeth a bod creu cyfoeth yn dibynnu ar entrepreneuriaeth. Rhaid inni chwilio felly am dwf economaidd yn y dyfodol y tu mewn i Gymru drwy ein mentrau bach a chanolig, ar sail technolegau newydd. Bydd hynny'n cynhyrchu sylfaen economaidd ddigonol i berswadio cwmnïau mawr i aros yng Nghymru mewn marchnad fyd-eang sydd yn fwyfwy cystadleuol.

Nodaf sylwadau Alun ynghylch geiriad y gwelliant hwn. Ailadroddir y geiriad bron yn y ddadl yfory. Cyfeiriaf at ddogfen Edwina Hart a drafodir yfory a darllenaf y ddau baragraff y mae'r Weithrediaeth yn gofyn inni eu cefnogi.

'Buddsoddi mwy mewn pobla dysgu gydol oes fel y gall pawb, ynenwedig ein hieuentid, feddu ar yr ystod o wybodaeth a sgiliau angenrheidiol...'

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y broblem ynghylch

wording is that it seeks to bind us to a commitment in the National curriculum when there is currently consultation on that curriculum. I am at one with you regarding the wording on encouraging entrepreneurship. We have put it more strongly in the latest draft, with the same objective in mind. I tried to indicate in advance that you are pushing at an open door.

**Michael German:** I intended to read the paragraph that you will propose tomorrow, which is to 'promote...active citizenship...and entrepreneurship' as criteria for the National curriculum. Therefore, I accept what you say. If it is good enough for the corporate plan for Wales it is good enough for the Objective 1 documents.

This is a big opportunity and we cannot afford to get it wrong. Much of our country has been recognised as poor and we have been given a chance to get out of that poverty. I accept that the documents are incomplete. They have improved in recent weeks but they are nowhere near perfect. One major item we must consider is the vision statement. It is low on vision. I do not criticise the estimate of what we should try to achieve but we should be more specific about the vision that we should put forward. I am not afraid to say these things. There is a feeling that we should come together and show that we have a unified plan. However, the paymasters in Brussels read the newspapers. I am sure that they read *The Western Mail's* website and watch BBC Online. They are probably better informed about this debate than many people in Wales. I am proposing additions and changes that should be incorporated into this document before it is sent out.

The strategy document focuses on Wales's relative weaknesses. Bridging the GDP gap is not a matter of Wales catching up while everyone else stands still. The rest of the UK, Europe and the world is moving on a pace and we must move faster to close the gap. We should remember that we are not simply closing a gap but chasing the front runners.

y geiriad yw ei fod yn ceisio ein rhwymo i ymrwymiad yn y Cwricwlwm cenedlaethol ar adeg pryd y mae ymgynghori ar y cwricwlwm hwnnw. Cytunaf â chi ynghylch y geiriad ar annog entrepreneuriaeth. Yr ydym wedi ei eirio'n gryfach yn y drafft diweddaraf, a'r un amcan mewn golwg. Ceisiais ddangos ymlaen llaw eich bod yn pwysu ar ddrws agored.

**Michael German:** Yr oeddwn yn bwriadu darllen y paragraff y byddwch yn ei gynnig yfory, sydd yn ceisio 'hybu...dinasyddiaeth weithgar...ac entrepreneuriaeth' fel meini prawf ar gyfer y Cwricwlwm cenedlaethol. Felly, derbynïaf yr hyn a ddywedwch. Os yw'n ddigon da i'r cynllun corfforaethol i Gymru, mae'n ddigon da i'r dogfennau Amcan 1.

Mae hwn yn gyfle mawr ac ni allwn fforddio ei fethu. Cydnabuwyd bod rhan helaeth o'n gwlad yn dlawd a rhoddyd cyfle inni godi o'r tlodi hwnnw. Derbynïaf fod y dogfennau'n anghyflawn. Maent wedi gwella yn yr wythnosau diwethaf ond maent ymhell o fod yn berffaith. Un eitem o bwys y bydd yn rhaid inni ei hystyried yw'r datganiad o weledigaeth. Mae'n brin o weledigaeth. Nid wyf yn beirniadu'r amcangyfrif o'r hyn y dylem geisio ei gyflawni ond dylem fod yn fwy penodol ynghylch y weledigaeth y dylem ei chyflwyno. Nid oes arnaf ofn dweud y pethau hyn. Mae teimlad y dylem ddod at ein gilydd a dangos bod gennym gynllun unedig. Fodd bynnag, mae'r tâl-feistri ym Mrwsel yn darllen y papurau newydd. Yr wyf yn sicr eu bod yn darllen gwefan *The Western Mail* ac yn gwylio BBC Online. Mae'n debygol eu bod yn fwy gwybodus am y ddadl hon na llawer o bobl yng Nghymru. Yr wyf yn cynnig ychwanegiadau a newidiadau y dylid eu cynnwys yn y ddogfen hon cyn ei hanfon.

Mae'r ddogfen strategaeth yn canolbwyntio ar wendidau cymharol Cymru. Nid yw pontio'r agendor cynnyrch mewnwladol crynswth yn fater o Gymru'n ennill tir tra bod pawb arall yn sefyll yn stond. Mae gweddill y DU, Ewrop a'r byd yn symud yn gyflym a rhaid i ni symud yn gynt er mwyn cau'r bwllch. Dylem gofio nad cau bwllch yn

unig yr ydym a'n bod hefyd yn ceisio dal y rhedwyr blaen.

Information communication technology will undoubtedly drive the future of our economy. The limited vision statement at the beginning of the document fails to reflect the opportunities that this could bring. E-commerce is a sea change in the way business will be done in the future. There will be less dependency on travel and location. Businesses of the future will be able to locate and trade more freely; an obvious advantage to Wales given its location on the periphery of Europe. Yet e-commerce does not even get a mention in the documents. We would be well advised to change that.

Wales's future economic success will come from its ability to trade with others. Trading internally will not be enough. We must build on our home grown business, develop clusters of expert companies and anchor down our large inward investors. However, the main way to close the gap between Wales and the rest of the UK, Europe and the world is to trade outwards. The use of clusters is surprisingly absent from the document. We have seen an example of it in south Wales where numerous small companies are now developing a cluster around Ford Motor Company and the motor production industry. This is also true of British Aerospace and other major manufacturers. We have a chance to develop in a way that is not always clear from the vision statement.

3:20 p.m.

We must not forget that we must also continue our search for inward investment. It is too easy to say that everything depends on building our own indigenous industry. The home grown and incoming industries can and should work hand in glove because they can benefit each other. I was told in British Aerospace in north Wales last week that many of its suppliers are from Europe. Those suppliers could be from Wales but they require the large company as an anchor. It is important that we do not lose sight of the potential of inward investment.

Mae'n sicr mai technoleg cyfathrebu gwybodaeth fydd yn gyrru ein heconomi yn y dyfodol. Nid yw'r datganiad gweledigaeth cyfyng ar ddechrau'r ddogfen yn adlewyrchu'r cyfleoedd a allai ddod yn sgîl hyn. Mae e-fasnach yn creu chwyldro yn y modd y trafodir busnes yn y dyfodol. Bydd llai o ddibyniaeth ar deithio a lleoliad. Bydd busnesau'r dyfodol yn gallu symud a masnachu'n rhwyddach; mantais amlwg i Gymru oherwydd ei lleoliad ar gyrion Ewrop. Fodd bynnag nid oes hyd yn oed sôn am e-fasnach yn y dogfennau. Byddai'n ddoeth inni newid hynny.

Bydd llwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol yn deillio o'i gallu i fasnachu ag eraill. Ni fydd masnachu'n fewnol yn ddigon. Rhaid inni adeiladu ar sail ein busnesau cynhenid, datblygu clystyrau o gwmnïau arbenigol ac angori'r buddsoddwyr mawr o'r tu allan. Fodd bynnag, y brif ffordd i gau'r bwll rhwng Cymru a gweddill y DU, Ewrop a'r byd yw masnachu tuag at allan. Mae'n syndod nad oes sôn am ddefnyddio clystyrau yn y ddogfen. Gwelsom enghraifft o hynny yn ne Cymru lle y mae nifer o gwmnïau bach bellach yn datblygu clwstrw o amgylch Ford Motor Company a'r diwydiant cynhyrchu moduron. Mae hyn yn wir hefyd am British Aerospace a diwydiannau cynhyrchu mawr eraill. Mae gennym gyfle i ddatblygu mewn modd nad yw bob amser yn amlwg yn y datganiad o weledigaeth.

Rhaid inni beidio ag anghofio fod angen inni barhau i chwilio am fuddsoddi o'r tu allan hefyd. Rhy hawdd yw dweud bod popeth yn dibynnu ar adeiladu ein diwydiant cynhenid ein hunain. Gall a dylai'r diwydiannau cynhenid a'r rhai o'r tu allan gydweithio'n agos oherwydd gallant fod o fudd i'w gilydd. Dywedwyd wrthyf yng ngwaith British Aerospace yng ngogledd Cymru yr wythnos diwethaf fod llawer o'i gyflenwyr yn Ewrop. Gallai'r cyflenwyr hynny fod yng Nghymru ond mae arnynt angen y cwmni mawr fel angor. Mae'n bwysig na chollwn olwg ar botensial buddsoddi o'r tu allan.

The percentage figure for training and skills development must be increased by up to 40 per cent. I agreed to the submission of an amendment by Val Feld on this but it is not on the order paper. In Ireland, there is general agreement that earmarking 40 per cent of the available resources to human resource development was a major factor in its success. I am concerned that the documents before us show an approximate figure of 32 per cent for skills.

**Val Feld:** I had hoped that it might be possible to achieve an agreement from the Economic Development Committee to an amendment on this matter. We have sought to achieve cross-party support on the content of the programmes. Unfortunately, the Conservatives thought that there was far too much in the programmes for human resources. Plaid Cymru and Phil Williams also have a stream of projects, for which they wish the support of the infrastructure budget, therefore it was not possible.

**Michael German:** I am happy to hear the answer to this question but since Alun and Phil will speak later, perhaps they will address these issues because they are fundamental. I reassure Val that, if she wanted to propose an amendment, we would be happy to support her. The approximate figure of 32 per cent for skills must be increased to 40 per cent. How often have we heard that the future for Wales lies in investing in its people? This matter needs serious consideration.

There are justifiable concerns about how the private sector will participate in the programmes. It is important to remember that although the public sector can create the infrastructure for economic development, it cannot generate wealth or create new added value jobs. The private sector must be given a chance to be in the driving seat, not left behind in the boot. If we expect the private sector to contribute huge amounts of match funding, we cannot expect it not to want to be able to drive forward the future prosperity of our country.

Mae angen cynyddu'r ganran ar gyfer hyfforddi a datblygu medrau hyd at 40 y cant. Cytunais ar gyflwyno gwelliant gan Val Feld ar hyn ond nid yw ar bapur y drefn. Yn Iwerddon, cytunir yn gyffredinol fod clustnodi 40 y cant o'r adnoddau a oedd ar gael i ddatblygu adnoddau dynol yn ffactor o bwys yn ei llwyddiant. Yr wyf yn bryderus bod y dogfennau sydd ger ein bron yn dangos ffigur bras o 32 y cant ar gyfer medrau.

**Val Feld:** Yr oeddwn wedi gobeithio y gallai fod yn bosibl cael cytundeb gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar welliant ar y mater hwn. Yr ydym wedi ceisio sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol ar gynnwys y rhaglenni. Yn anffodus, yr oedd y Ceidwadwyr o'r farn fod llawer gormod yn y rhaglenni ar gyfer adnoddau dynol. Hefyd mae gan Blaid Cymru a Phil Williams lif o brosiectau y maent yn dymuno cael cymorth o'r gyllideb isadeiledd ar eu cyfer, felly nid oedd hyn yn bosibl.

**Michael German:** Yr wyf yn falch o glywed yr ateb i'r cwestiwn hwn ond gan y bydd Alun a Phil yn siarad yn ddiweddarach, efallai y rhoddant sylw i'r materion hyn oherwydd maent yn sylfaenol. Yr wyf yn sicrhau Val, pe bai am gynnig gwelliant, y byddem yn falch o'i chefnogi. Mae angen cynyddu'r ffigur bras o 32 y cant ar gyfer medrau i 40 y cant. Pa mor aml y clywsom fod dyfodol Cymru yn dibynnu ar fuddsoddi yn ei phobl? Mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater hwn.

Mae pryderon cyfiawnadwy ynghylch y modd y bydd y sector preifat yn cyfranogi yn y rhaglenni. Mae'n bwysig cofio, er bod y sector cyhoeddus yn gallu creu'r isadeiledd ar gyfer datblygu economaidd, nad yw'n gallu cynhyrchu cyfoeth na chreu swyddi newydd â gwerth ychwanegol. Rhaid rhoi cyfle i'r sector preifat fod wrth y llyw, ac nid ei adael yn y gist. Os disgwyliwn i'r sector preifat gyfrannu symiau enfawr o arian cyfatebol, ni allwn ddisgwyl iddo beidio â bod ag awydd gyrru ffyniant ein gwlad yn y dyfodol.

Perhaps the thorniest issue before us is our ability to draw down all of the available money from Europe. People may become confused because the terms and language we use may be complicated. However, we must find over £150 million of match funding from the public purse each year for the next seven years, beginning on 1 January 2000. That is for Objective 1 alone. We are not told how much of the Objective 2 money will be spent in the other eligible parts of Wales. The statement that we are not to spend any Objective 2 money in 2000 is rather strange and difficult to understand, especially given the needs of the people in poorer parts of Cardiff, Newport and Powys. These areas would have been able to set up projects and proposals ready to begin next year.

In the past, many public sector bodies have used their normal poor resources as match funding. We do not know how much this amounts to because, regrettably, it is not on public record. However, the scale of match funding required is now much, much greater. For Objective 1, at least £150 million a year is required, and Objectives 2 and 3 figures are unknown as yet.

There is no line in the Assembly budget that states 'match funding', nor is there one in that of the Wales Tourist Board, the Welsh Development Agency or the Training and Enterprise Councils. We must find that money outside of the threatened block grant. It is significant that, from 1 January 2000 and for each subsequent year, we must commit a minimum of £150 million of public money for Objective 1 alone. I understand that payment may follow up to two years later, but how can anyone be expected to commit without guarantee that the match funding will be paid? It is like writing a huge, post-dated cheque without knowing whether the money will be in the bank to cover it, or like writing a huge cheque without having the Assembly's cheque guarantee card. What level of confidence will this generate among the private and voluntary sectors? Can they realistically be expected to commit core

Efallai mai'r mater mwyaf dyrys sydd o'n blaen yw ein gallu i ymestyn am y cwbl o'r arian sydd ar gael o Ewrop. Efallai y bydd pobl yn drysu am fod y termau a'r iaith a ddefnyddiwn yn gymhleth o bosibl. Fodd bynnag, rhaid inni ganfod dros £150 miliwn o arian cyfatebol o'r pwrw cyhoeddus bob blwyddyn am y saith mlynedd nesaf, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2000. Mae hynny ar gyfer Amcan 1 yn unig. Ni ddywedir wrthym faint o'r arian Amcan 2 a werir yn y rhannau cymwys eraill o Gymru. Mae'r datganiad na fyddwn yn gwario unrhyw arian Amcan 2 yn 2000 braidd yn rhyfedd ac yn anodd ei ddeall, yn enwedig yng ngolwg anghenion y bobl yn y rhannau tlotaf o Gaerdydd, Casnewydd a Phowys. Byddai'r ardaloedd hyn wedi gallu sefydlu prosiectau a chynigion yn barod i ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Yn y gorffennol, mae llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus wedi defnyddio eu hadnoddau gwael arferol fel arian cyfatebol. Ni wyddom beth yw cyfanswm hynny oherwydd, yn anffodus, nid yw ar y cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, mae maint yr arian cyfatebol sydd yn ofynnol yn fwy o lawer bellach. Ar gyfer Amcan 1, mae angen o leiaf £150 miliwn y flwyddyn, ac ni wyddys y ffigurau ar gyfer Amcanion 2 a 3 hyd yn hyn.

Nid oes yr un llinell yng nghyllideb y Cynulliad sydd yn dweud 'arian cyfatebol', nac yng nghyllidebau Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru neu'r Cynghorau Hyfforddi a Menter. Bydd yn rhaid inni ganfod yr arian hwnnw y tu allan i'r grant bloc y bygythir ni ag ef. Mae'n arwyddocaol y bydd yn rhaid inni neilltuo o leiaf £150 miliwn o arian cyhoeddus o 1 Ionawr 2000 ac am bob blwyddyn wedyn ar gyfer Amcan 1 yn unig. Deallaf y gall y taliad ddilyn hyd at ddwy flynedd yn ddiweddarach, ond sut y gellir disgwyl i unrhywun neilltuo arian heb sicrwydd y telir yr arian cyfatebol? Mae'n debyg i ysgrifennu siec enfawr, ôl-ddyddiedig heb wybod a fydd yr arian yn y banc i dalu amdani, neu fel ysgrifennu siec enfawr heb gerdyn gwarantu sieciau'r Cynulliad. Pa raddau o hyder y bydd hyn yn ei ennyn ymysg y sectorau preifat a gwirfoddol? Mewn difrif, a ellir disgwyl



investment cash up front if the Government is not doing so?

In the document, table 3.1 does not give a breakdown of where this public money must come from. It does not show whether it will come from local government in Wales or from national Government. The columns are blank. Despite requests for this information, it has not yet been provided. Therefore the document does not provide evidence of where the Government proposes to find the match funding or from where new additional money will come. You are left to believe that it will come from existing resources: the Welsh block. That is entirely unacceptable. Even if the Government's figures are taken at face value, an up-front commitment of £25 million and £19 million is still well short of the amount required to provide match funding for Objective 1.

It is as if the people of Wales have been given an opportunity to build a new house. They have been told to buy the materials for the house from their own pockets and have been promised that they will be reimbursed; they just need to trust Tony. All the Treasury has done so far is provide late payment for the house that we built last year. There is no financial provision from the Treasury to honour this debt. Some of us question the Treasury's incentive to honour the debt. The evidence suggests that the Treasury has been trying to find every avenue possible to avoid honouring the payment of this debt from day one.

How can the people of Wales mortgage their future on this basis when they have no evidence that the funds will be available to clear the debt? How can the private and voluntary sectors be expected to have confidence that we will honour the debts that they incur on Wales's behalf? How can we write a cheque payable by the Assembly in three years? Would your bank manager accept an IOU for £1.2 billion when you do not even attempt to explain where you will find the money? If there is a shortfall, who will pay for it? Our hospitals or schools? Or

iddynt neilltuo arian buddsoddi craidd yn syth os nad yw'r Llywodraeth yn gwneud hynny?

Yn y ddogfen, nid yw tabl 3.1 yn rhoi dadansoddiad o ble y mae'n rhaid i arian cyhoeddus ddod. Nid yw'n dangos a fydd yn dod o lywodraeth leol yng Nghymru neu o'r Llywodraeth genedlaethol. Mae'r colofnau'n wag. Er gwaethaf ceisiadau am yr wybodaeth hon, nid yw wedi ei darparu hyd yn hyn. Felly, nid yw'r ddogfen yn darparu tystiolaeth o ble y mae'r Llywodraeth yn bwriadu canfod yr arian cyfatebol neu o ble y daw arian ychwanegol newydd. Gadewir ichi gredu y daw o'r ffynonellau presennol: y bloc Cymreig. Mae hynny'n gwbl annerbyniol. Hyd yn oed os derbynir ffigurau'r Llywodraeth ar eu golwg, mae ymrwymiad parod o £25 miliwn a £19 miliwn yn dal i fod ymhell o'r swm sydd yn ofynnol i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1.

Y mae fel petai pobl Cymru wedi cael cyfle i godi tŷ newydd. Dywedwyd wrthynt i brynu'r deunyddiau i'r tŷ o'u pocedi eu hunain ac addawyd eu had-dalu, dim ond iddynt ymddiried yn Tony. Y cwbl y mae'r Trysorlys wedi ei wneud hyd yn hyn yw darparu'r taliad hwyr am y tŷ a godasom y llynedd. Nid oes darpariaeth ariannol gan y Trysorlys i dalu'r ddyled hon. Mae rhai ohonom yn cwestiynu'r cymhelliant sydd ar y Trysorlys i dalu'r ddyled. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Trysorlys wedi bod yn ceisio canfod pob dull a modd posibl i osgoi talu'r ddyled hon o'r diwrnod cyntaf.

Sut y gall pobl Cymru forgeisio eu dyfodol ar y sail hon a hwythau heb dystiolaeth y bydd yr arian ar gael i glirio'r ddyled? Sut y gellir disgwyl i'r sectorau preifat a gwirfoddol fod yn hyderus y byddwn yn talu'r dyledion y byddant yn mynd iddynt ar ran Cymru? Sut y gallwn ysgrifennu siec sydd i'w thalu gan y Cynulliad ymhen tair blynedd? A fyddai eich rheolwr banc yn derbyn nodyn dyled am £1.2 biliwn a chithau heb hyd yn oed ceisio egluro o ble y cewch yr arian? Os bydd diffyg, pwy fydd yn talu amdano? Ein hysbytai neu'n hysgolion? Neu a fyddwn ond yn fforffedu'r

will we simply forfeit the money back to the European Union as has happened in the past in other Objective 1 areas of the UK?

These are not acceptable choices for the Assembly to make. That is why there must be a guarantee that additional new money will be available from the Treasury. This is not about transferring money from east to west Wales, but it may be about transferring money to poorer Wales from middle England. Gordon Brown has the war chest. Will he spend the money on middle England voters or in Wales, where it is needed? The people of Wales cannot be let down in this one-off opportunity to rebuild our economy and strengthen our communities and to bring hope to those who are most marginalised in our society.

3:30 p.m.

**Phil Williams:** I propose the second amendment. After clause 3, delete 'and' and insert:

*welcomes the annual commitment of public expenditure published in table 3.2 of the Objective 1 single programming document and recognises that if the total budget indicated in this table, together with the budgets that will be allocated to Objectives 2 and 3, are effectively used according to the priorities presented in the single programming document, this will lead to the economic and social regeneration of Wales;*

*notes that the implementation of this programme depends on the firm understanding that the Assembly will secure from the Treasury adequate funding additional to the Barnett block to cover the full structural fund allocation to Wales from the EU and the necessary public component of match funding; and*

*seeks an unequivocal statement before 29 October 1999 from the First Secretary that the planned budget for such matters as health, education, social services and the environment which are funded from the block will not be reduced in order to allow the structural fund budget indicated in table 3.2*

arian yn ôl i'r Undeb Ewropeaidd fel a ddigwyddodd yn y gorffennol mewn ardaloedd Amcan 1 eraill yn y DU?

Nid yw'r rhain yn ddewisiadau derbynol i'r Cynulliad. Dyna pam y mae'n rhaid cael sicrwydd y bydd arian newydd ychwanegol ar gael o'r Trysorlys. Nid yw hyn yn golygu trosglwyddo arian o ddwyrain i orllewin Cymru, ond gallai olygu trosglwyddo arian i Gymru dlotach o Loegr ganol. Gan Gordon Brown y mae'r gist ryfel. A fydd yn ei gwario ar bleidleiswyr Lloegr ganol neu yng Nghymru, lle y mae'r angen amdano? Ni ellir siomi pobl Cymru yn y cyfle unwaith-ac-ambyth hwn i ailadeiladu ein heconomi a chryfhau ein cymunedau ac i ddod â gobaith i'r rhai sydd ar ymylon eithaf ein cymdeithas.

**Phil Williams:** Cynigiau yr ail welliant. Ar ôl cymal 3, dileu 'ac' ac ychwanegu:

*yn croesawu'r ymrwymiad blynyddol i ddarparu gwariant cyhoeddus fel y'i cyhoeddir yn nhabl 3.2 o'r ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1, ac yn cydnabod y bydd cyfanswm y gyllideb a nodir yn y tabl hwn, ynghyd â'r cyllidebau a neilltuir ar gyfer Amcanion 2 a 3, o'u defnyddio'n effeithiol yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen raglennu sengl, yn arwain at adfywiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru;*

*yn nodi bod gweithredu'r rhaglen hon yn dibynnu ar y ddealltwriaeth glir y bydd y Cynulliad yn cael cyllid digonol, sydd yn ychwanegol at grant bloc Barnett, oddi wrth y Trysorlys, fel bod yr arian cyhoeddus cyfatebol y mae ei angen ar gael ynghyd â'r holl arian a neilltuwyd i Gymru gan yr UE o'r gronfa strwythurol; ac*

*yn ceisio datganiad diamwys cyn 29 Hydref 1999 oddi wrth y Prif Ysgrifennydd na welir gostyngiad yn y gyllideb gynlluniedig ar gyfer materion megis iechyd, addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, a'r amgylchedd, sydd yn cael eu hariannu o'r bloc, er mwyn manteisio'n llawn ar gyllideb*

*to be taken up in full.*

This is the most important debate that the Assembly has had. This is our big test and our big opportunity.

When I first became active in politics, the gross domestic product per capita of Wales was around 90 per cent of the United Kingdom average. That was unacceptable. By today, the GDP capita has fallen to 81 per cent of the UK average. Our highest priority is to close that gap. The programme outlined in these documents gives us that opportunity. To succeed, this programme must have four ingredients: a well-prepared overall strategy, a range of suitable projects, an appropriate machinery for funding and monitoring those projects and a guaranteed budget to cover the cost.

Today, we have the first three ingredients but the last component is still uncertain. The single programming document is a huge improvement on the earlier draft and I pay tribute to the Assembly officials and the Committee members who have contributed to the document. It justifies the existence of the Assembly. It now has a strong theme and reads as a coherent document. I am particularly happy with the programme outlined in priority 2. For consistency, let us call this priority 'the competitive environment' and not 'infrastructure'. The word 'infrastructure' would turn off the European bodies that would consider this document. Priority 2 includes the four main themes of my election manifesto last May: renewable energy, broadband telecommunication, niche tourism and public transport.

My one remaining reservation is the reduced emphasis on entrepreneurship in the document. I hope that Brian Hancock will have a chance to speak about this. We do not agree with the wording of the first amendment. Our problems were the specific prescription for the National curriculum. We intend to abstain on this amendment, but in the spirit of the first clause, we urge the First

*y gronfa strwythurol a nodir yn nhabl 3.2.*

Hon yw'r ddadl bwysicaf i'r Cynulliad ei chael. Dyma'r prawf mawr arnom a'n cyfle mawr.

Pan ddeuthum yn weithgar mewn gwleidyddiaeth gyntaf yr oedd y cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yng Nghymru tua 90 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Yr oedd hynny'n annerbyniol. Erbyn heddiw, mae'r cynnyrch mewnwladol crynswth y pen wedi disgyn i 81 y cant o gyfartaledd y DU. Ein blaenoriaeth bennaf yw cau'r bwlch hwnnw. Mae'r rhaglen a amlinellir yn y dogfennau hyn yn rhoi inni'r cyfle hwnnw. Er mwyn llwyddo, rhaid i'r rhaglen hon gael pedwar cynhwysyn: strategaeth gyffredinol a baratowyd yn dda, amrediad o brosiectau addas, peirianwaith priodol i ariannu a monitro'r prosiectau hynny a chyllideb warantedig i dalu'r gost.

Heddiw, mae'r tri chynhwysyn cyntaf gennym ond mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr elfen olaf. Mae'r ddogfen raglennu sengl yn welliant aruthrol ar y drafft cynharach a thalaf deyrnged i swyddogion y Cynulliad a'r aelodau Pwyllgor a gyfrannodd at y ddogfen. Mae'n cyfiawnhau bodolaeth y Cynulliad. Bellach mae iddi thema gref ac mae'n darllen fel dogfen gydlynol. Yr wyf yn arbennig o fodlon â'r rhaglen a amlinellir ym mlaenoriaeth 2. Er mwyn cysondeb, gadewch inni alw'r flaenoriaeth hon yn 'amgylchedd cystadleuol' ac nid 'isadeiledd'. Byddai'r gair 'isadeiledd' yn peri diflastod i'r cyrff Ewropeaidd a fydd yn ystyried y ddogfen hon. Mae blaenoriaeth 2 yn cynnwys pedair prif thema fy maniffesto etholiad Fai diwethaf: ynni adnewyddol, telegyfathrebu band llydan, twristiaeth arbenigol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yr unig amheuaeth sydd gennyf bellach yw'r pwyslais llai yn y ddogfen ar entrepreneuriaeth. Gobeithiaf y caiff Brian Hancock gyfle i siarad am hyn. Nid ydym yn cytuno â geiriad y gwelliant cyntaf. Yr hyn a barai anhawster oedd y gorchymyn penodol ar gyfer y Cwricwlwm cenedlaethol. Bwriadwn ymatal ar y gwelliant hwn ond, yn ysbryd y cymal cyntaf, anogwn y Prif

Secretary to make the commitment to entrepreneurship more explicit in the final version of the document. Otherwise, the basic programme makes a convincing case; we have all had a chance to comment on the document and can support the submission to Brussels. The single programming document presents a more convincing economic strategy than the national economic development strategy. We are, however, reassured that it is the SPD that is important and that we must work on the national economic development strategy during the next few months.

The second ingredient in a successful programme is a full range of suitable projects. I am convinced that there are sufficient appropriate projects to use the whole of the allocated budget. I am aware of a range of projects that are compatible with the measures listed in the SPD. I know of several major proposals to provide renewable, non-polluting energy and projects to improve the availability and utilisation of broadband communication throughout the Objective 1 region. There are plans to provide a greatly improved public transport system in the Gwent Valleys and plans to provide a world-class research facility matched to materials and biological research. These plans represent the kind of projects that we could now undertake.

In addition, there are scores of smaller projects that were presented to our roadshow meetings or described in the correspondence that I receive from all parts of Wales. Not all of these outlined projects will reach the implementation stage of developments that are sustainable economically, socially and environmentally, but many of them meet the criteria.

However, we must look actively for developments where there will be rapid growth globally so that we can share in that growth and in developments that do not depend on scarce, non-renewable resources, do not cause pollution and, above all, where

Ysgrifennydd i wneud yr ymrwymiad i entrepreneuriaeth yn fwy agored yn fersiwn terfynol y ddogfen. Fel arall, mae'r rhaglen sylfaenol yn cyflwyno achos argyhoeddiadol; cawsom oll gyfle i wneud sylwadau ar y ddogfen a gallwn gefnogi ei chyflwyno i Frwsel. Mae'r ddogfen raglennu sengl yn cyflwyno strategaeth economaidd fwy argyhoeddiadol na'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Fodd bynnag, rhoddir sicrwydd inni mai'r ddogfen raglennu sengl sydd yn bwysig ac y bydd yn rhaid inni weithio ar y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn ystod yyr ychydig fisoedd nesaf.

Yr ail gynhwysyn mewn rhaglen lwyddiannus yw amrediad llawn o brosiectau addas. Yr wyf yn argyhoeddedig bod digon o brosiectau addas i ddefnyddio'r cyfan o'r gyllideb a ddyrannwyd. Yr wyf yn ymwybodol o amrediad o brosiectau sydd yn gydnaws â'r mesurau a restrir yn y ddogfen raglennu sengl. Gwn am sawl cynnig pwysig i ddarparu ynni adnewyddol, dilygredd ac am brosiectau i wella argaeledd a defnydd cyfathrebu band llydan ledled y rhanbarth Amcan 1. Mae cynlluniau i ddarparu system trafniadaeth gyhoeddus well o lawer yng Nghymoedd Gwent a chynlluniau i ddarparu cyfleuster ymchwil gyda'r gorau yn y byd mewn cysylltiad ag ymchwil deunyddiau a biolegol. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y math o brosiectau y gallem ymgymryd â hwy yn awr.

Yn ogystal â hynny, mae ugeiniau o brosiectau llai a gyflwynwyd yn ein cyfarfodydd pen ffordd neu a ddisgrifir yn yr ohebiaeth a dderbyniaf o bob rhan o Gymru. Ni fydd pob un o'r amlinelliadau prosiect hyn yn cyrraedd y cyfnod o weithredu datblygiadau sydd yn gynaliadwy'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, ond mae llawer ohonynt yn cyflawni'r meini prawf.

Fodd bynnag, rhaid inni chwilio'n ddiwyd am ddatblygiadau lle y bydd cynnydd bydeang cyflym fel y gallwn o'r twf hwnnw ac o ddatblygiadau nad ydynt yn dibynnu ar adnoddau anadnewyddadwy, prin, nad ydynt yn achosi llygredd ac, uwchlaw popeth, lle y

Wales has intrinsic advantage. Many of these projects fit those requirements exactly. We have the potential to match the economic achievements of Ireland. European structural funds allow us to exploit that potential. We have the strategy and, with the proper encouragement and planning, we have the projects. We need the proper machinery for implementation and a guaranteed budget so that we can make the appropriate commitment for the major projects we want to see up and running in the year 2000.

Elin Jones will discuss the implementation proposals in detail. However, I make one comment. We accept the need for an Executive with the power to administer strategic packages for the whole region such as business development, an investment fund, a national strategy for renewable energy and tourism. The exact relationship between this central Executive and the local partnerships must be examined. I want to know how the implementation of a number of parallel strategic packages will be passed on from the central Executive to each local partnership where these packages have to be integrated with local projects to produce a coherent and effective local programme. From the e-mails and phone calls I have had over the past few days, I know that many organisations are unhappy about the role of local partnerships. I hope that we can still clarify this and make whatever changes are necessary before submitting the document.

Therefore, with these few reservations, we have a strategy, a range of projects and a machinery for implementation. However, what about the budget? *Diwedd y gân yw'r geiniog*—it all comes down to money. I welcome the inclusion of table 3.2 in the document. It presents the maximum budget which the European Union will allow us to commit every year under Objective 1—an average of £340 million a year for each of the seven years. We are waiting for the additional allocation to Objectives 2 and 3. It is important that that decision is made in time to start on those programmes as soon as

mae mantais gynhenid i Gymru. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn gweddu i'r gofynion hynny yn union. Mae ynom botensial i efelychu cyflawniadau economaidd Iwerddon. Mae cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn caniatáu inni ddatblygu'r potensial hwnnw. Mae'r strategaeth gennym, a chyda'r anogaeth a'r cynllunio priodol, mae'r prosiectau gennym. Mae arnom angen y peirianwaith priodol i weithredu a chyllideb warantedig fel y gallwn wneud yr ymrwymiad priodol ar gyfer y prosiectau mawr yr ydym am weld eu gweithredu yn y flwyddyn 2000.

Bydd Elin Jones yn ymdrin â'r cynigion gweithredu yn fanwl. Fodd bynnag, gwnaf un sylw. Derbyniwn yr angen am Weithrediaeth a chanddi'r pŵer i weinyddu pecynnau strategol ar gyfer y rhanbarth cyfan fel datblygu busnes, cronfa fuddsoddi, strategaeth genedlaethol ar ynni adnewyddol a thwristiaeth. Mae angen ystyried yr union berthynas rhwng yr Weithrediaeth ganolog hon a'r partneriaethau lleol. Yr wyf am wybod sut y bydd y gweithredu ar nifer o becynnau strategol cyfochrog yn cael ei drosglwyddo o'r Weithrediaeth ganolog i bob partneriaeth leol lle y mae'n rhaid integru'r pecynnau hyn â phrosiectau lleol er mwyn creu rhaglen leol effeithiol a chydlynol. O'r negeseuon e-bost a'r galwadau ffôn a dderbyniais dros yr ychydig ddyddiau diwethaf, gwn fod llawer o gyrff yn anhapus ynghylch rôl partneriaethau lleol. Gobeithiaf fod modd o hyd inni roi gwedd eglurach ar hyn a gwneud pa bynnag newidiadau sydd yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r ddogfen.

Felly, gyda'r ychydig amheuan hyn, mae gennym strategaeth, amrediad o brosiectau a pheirianwaith i weithredu. Fodd bynnag, beth am y gyllideb? *Diwedd y gân yw'r geiniog*. Croesawaf gynnwys tabl 3.2 yn y ddogfen. Mae'n dangos y gyllideb fwyaf y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn caniatáu inni ei neilltuo bob blwyddyn o dan Amcan 1—cyfartaledd o £340 miliwn y flwyddyn am bob un o'r saith mlynedd. Yr ydym yn disgwyl am y dyraniad ychwanegol i Amcanion 2 a 3. Mae'n bwysig y bydd y penderfyniad hwnnw wedi ei wneud mewn pryd i ddechrau ar y rhaglenni hynny cyn

possible.

Two things concern me. The first is how this budget is distributed between priorities. That distribution has not been discussed properly by the Economic Development Committee. The figures were tabled during our last meeting. We do not know how they were derived or, as today is the day of Sotheby's Welsh auction, perhaps I should say that we do not know their provenance. I would welcome an assurance from the Secretary for Economic Development that these figures are not cast in stone. I am committed to the competitive environment but I could not table a detailed amendment because I need to know what criteria led to the particular distribution. I hope that the figures are not cast in stone because, once the Commission confirms them, we are committed to them at least until the two-year review.

Finally, we come to the key issue and the subject of the second amendment: the need for the European component of the structural funds and the necessary component in match funding to be added to the Barnett allocation. We need that if we are to take full advantage of the present once-only opportunity. We often hear about the comprehensive spending review. It is a recent introduction; I have looked carefully through the Magna Carta and there is no reference to it. It is a valuable and fair device for allocating normal UK public expenditure. However, two things have happened since the last comprehensive spending review. West Wales and the Valleys have achieved Objective 1 status. That was not foreseen. In addition, the UK budget has moved into an unexpected surplus of £5 billion this year. Therefore, the Government has the justification and the ability to give the Assembly a guarantee that the necessary budget will be available. Let us make this clear. We are not calling for an actual allocation of £340 million in the 2000-01 budget but, according to EU rules, we must be able to make a commitment to that level of public expenditure and a similar commitment in every subsequent year. If we do not, the uncommitted part of the Objective

gynted ag y bo modd.

Mae dau beth yn peri pryder imi. Y cyntaf yw'r modd y dosberthir y gyllideb hon rhwng y blaenoriaethau. Nid yw'r dosbarthiad hwnnw wedi ei drafod yn iawn gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Cyflwynwyd y ffigurau yn ystod ein cyfarfod diwethaf. Ni wyddom sut y cawsant eu holrhain neu, gan mai heddiw yw diwrnod arwerthiant Cymreig Sotheby, efallai y dylwn ddweud na wyddom eu tarddle. Croesawn sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd nad yw'r ffigurau hyn yn ddigyfnewid. Mae gennyf ymrwymiad i'r amgylchedd cystadleuol ond ni allwn gyflwyno gwelliant manwl am fod arnaf angen gwybod am y meini prawf a arweiniodd at y dosbarthiad penodol. Hyderaf nad yw'r ffigurau'n ddigyfnewid oherwydd, wedi i'r Comisiwn eu cadarnhau, byddwn yn ymrwymedig iddynt tan yr adolygiad dwy-flynedd o leiaf.

Yn olaf, deawn at y mater allweddol a phwnc yr ail welliant: yr angen i ychwanegu cydran Ewropeaidd yr arian strwythurol a'r gydran angenrheidiol o arian cyfatebol at ddyraniad Barnett. Mae arnom angen hynny os ydym i fanteisio'n llawn ar y cyfle unwaith-ac-am-byth presennol. Clywn yn aml am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Fe'i cyflwynwyd yn ddiweddar; edrychais yn ofalus drwy'r Magna Carta ac nid oes cyfeiriad ato. Mae'n ddyfais werthfawr a theg i ddyrannu gwariant cyhoeddus arferol y DU. Fodd bynnag, mae dau beth wedi digwydd ers yr adolygiad cynhwysfawr o wariant diwethaf. Mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cyrraedd statws Amcan 1. Ni ragwelwyd hynny. Yn ogystal, cafwyd gwarged annisgwyl o £5 biliwn yng nghyllideb y DU eleni. Felly, mae cyfiawnhad a gallu gan y Llywodraeth i roi sicrwydd i'r Cynulliad y bydd y gyllideb angenrheidiol ar gael. Gadewch inni fod yn glir ynghylch hyn. Nid ydym yn galw am ddyraniad gwirioneddol o £340 miliwn yng nghyllideb 2000-01 ond, yn ôl rheolau'r UE, rhaid inni allu neilltuo lefel gwariant cyhoeddus felly gan neilltuo gwariant tebyg ym mhob blwyddyn wedi hynny. Os na wnawn hynny, collir y rhan o'r gyllideb

1 budget will be lost.

Amcan 1 na neilltuwyd.

3:40 p.m.

Commitment works in two ways. I ask the First Secretary how else can we persuade major companies, local authorities and the voluntary sector to commit to major programmes under Objective 1 in 2000 without a firm commitment from the Government that the funding will be available? We need a commitment that 100 per cent of the EU money allocated to Wales under the different programmes and all the necessary match funding will be ring-fenced as an addition to the Barnett block in the spending review. If we obtain it, I pledge that we will all work with the Government night and day to ensure receipt of appropriate applications to start the programme.

Mae ymrwymo yn gweithio mewn dwy ffordd. Gofynnaf i'r Prif Ysgrifennydd sut fel arall y gallwn berswadio cwmnïau mawr, awdurodau lleol a'r sector gwirfoddol i ymrwymo i raglenni mawr o dan Amcan 1 yn 2000 heb ymrwymiad cadarn oddi wrth y Llywodraeth y bydd yr arian ar gael? Mae arnom angen ymrwymiad y bydd 100 y cant o arian yr UE a ddyrannwyd i Gymru o dan y gwahanol raglenni a'r holl arian cyfatebol angenrheidiol wedi eu neilltuo fel ychwanegiad i bloc Barnett yn yr adolygiad o wariant. Os cawn hynny, addunedaf y bydd pob un ohonom yn gweithio gyda'r Llywodraeth ddydd a nos i sicrhau y derbynnir y ceisiadau priodol er mwyn dechrau'r rhaglen.

On a personal note, I am too old and I care too much about the future of the Valleys, where I grew up, and west Wales, where I have lived for many years, to play games with this issue. If we do not get the necessary commitment from the Government this year, the entire programme will inevitably suffer from a delayed start and a loss of part of the allocated budget. Furthermore, if the Treasury does not make the allocation in the comprehensive spending review—and I am concerned when people in Government talk about it being a tough fight—we will lose our, last chance to use European funding to rebuild our economy. If that happens, history will condemn us all.

Ar nodyn personol, yr wyf yn rhy hen ac yn ymboeni'n ormodol am ddyfodol y Cymoedd, lle y'm magwyd, a gorllewin Cymru, lle'r wyf yn byw ers blynyddoedd lawer, i chwarae â'r mater hwn. Os na chawn yr ymrwymiad angenrheidiol gan y Llywodraeth eleni, bydd y rhaglen gyfan yn sicr o ddiodef drwy ddechrau'n hwyr a cholli rhan o'r gyllideb a ddyrannwyd. Ymhellach na hynny, os na fydd y Trysorlys yn rhoi'r dyraniad yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant—ac yr wyf yn pryderu pan glywaf rai yn y Llywodraeth yn dweud ei bod yn frwydr anodd—collwn ein cyfle olaf i ddefnyddio arian Ewropeaidd i adfer ein heconomi. Os digwydd hynny, bydd hanes yn ein collfarnu i gyd.

**Alun Cairns:** Following draft after draft and amendment after amendment, we are finally debating in Plenary the single programming document for Objective 1 and the operational programme for eastern parts of Wales.

**Alun Cairns:** Yn dilyn drafft ar ôl drafft a gwelliant ar ôl gwelliant, o'r diwedd yr ydym yn y Cyfarfod Llawn yn trafod y ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1 a'r rhaglen weithredol ar gyfer rhannau dwyreiniol Cymru.

First, I highlight my objection, concern and frustration at the way in which we have reached this debate on these vital documents. The process began with an enormous taskforce, a mass of people, dominated by public and social organisations, all with their

Yn gyntaf, tynnaf sylw at y gwrthwynebiad, y pryderon a'r rhwystredigaeth a deimlaf ynghylch y modd yr ydym wedi cyrraedd y ddadl hon ar y dogfennau hanfodol hyn. Dechreuodd y broses gyda thasglu anferth, llu o bobl, a chyrrff cyhoeddus a

own agendas including token representations from some groups so as not to offend certain sectors of society.

Consultations on the documents were dominated by the public sector. Its views were already proposed by its umbrella organisation in the original taskforce. A significant lack of private sector partnership and participation led the Federation of Small Businesses to complain officially to Rhodri Morgan because it felt so strongly.

The financial papers outlining the crux of the plan were handed out not simply late, but after the last Economic Development Committee meeting had started. To add insult to injury, we were requested to respond immediately to the table, figures and statistics at that meeting.

Finally, this administration is at loggerheads with the Commission on the necessary profiling of the public and private sector funds. My first and second points pose questions about competence, but to delay the paper's financial implications and to disagree on profiling at such a late stage highlights incompetence. Last week, to confuse the matter further, the administration misled the public, journalists and the Assembly by stating that new money had been found. That underlined the panic and scrambling in the administration. It is scratching for breadcrumbs to see what can be found, not even in this year's budget but in last year's, to try to make up some form of match funding. If it were not for the Committee's and the Government of Wales's bumbling incompetence, one might conclude that there was a conspiracy to hoodwink the Assembly on the lack of match funds.

In a speech on 14 July, I warned the First Secretary that we were waiting, watching, counting, analysing and that we would check whatever formula he chose to mask the lack

chymdeithasol yn bennaf yn eu mysg, a phob un â'i agenda ei hun, gan gynnwys sylwadau er mwyn sioe oddi wrth rai grwpiau er mwyn peidio â digio rhai sectorau mewn cymdeithas.

Y sector cyhoeddus oedd yn flaenaf yn yr ymgynghoriadau ar y dogfennau. Yr oedd ei safbwyntiau wedi eu cyflwyno eisoes gan ei gorff ymbarél yn y tasglu gwreiddiol. Oherwydd diffyg sylweddol o ran partneriaeth a chyfranogiad gan y sector preifat, cwynodd Ffederasiwn y Busnesau Bach yn swyddogol i Rhodri Morgan am ei fod yn teimlo mor gryf.

Yr oedd y papurau ariannol sydd yn amlinellu craidd y cynllun wedi eu cylchredeg nid yn unig yn hwyr, ond ar ôl dechrau cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd. I rwbio halen yn y briw, gofynnwyd inni ymateb ar unwaith i'r tabl, y ffigurau a'r ystadegau yn y cyfarfod hwnnw.

Yn olaf, mae'r weinyddiaeth hon benben â'r Comisiwn ynghylch y proffilio angenrheidiol ar gronfeydd y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r cyntaf a'r ail o'm pwyntiau yn codi cwestiynau ynghylch cymhwysedd, ond mae gohirio goblygiadau ariannol y papur ac anghytuno ar broffilio ar adeg mor hwyr yn tynnu sylw at anghymhwysedd. Yr wythnos diwethaf, er mwyn drysu'r mater ymhellach, camarweiniodd y weinyddiaeth y cyhoedd, y newyddiadurwyr a'r Cynulliad drwy ddatgan bod arian newydd wedi ei ganfod. Yr oedd hynny'n tanlinellu'r dychryn a'r ymbalfalu yn y weinyddiaeth. Mae'n crafu am friwsion i weld beth y gellir ei ganfod, nid yng nghyllideb y flwyddyn hon hyd yn oed ond yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf er mwyn ceisio cael rhyw fath o arian cyfatebol. Oni bai am anghymhwysedd bwngleraidd y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru, gallai rhywun ddod i'r casgliad bod cynllwyn i dwyllo'r Cynulliad ynghylch diffyg arian cyfatebol.

Mewn araith ar 14 Gorffennaf, rhybuddiais y Prif Ysgrifennydd ein bod yn disgwyl, yn gwyllo, yn cyfrif, yn dadansoddi ac y byddem yn gwirio pa bynnag fformwla a



of match funds. So, last week we counted, analysed and checked, only to hear the official at the last meeting of the Economic Development Committee agree that there was no extra money this year and no extra money proposed next year over and above Barnett. Furthermore, the document released last week stated explicitly that match funding would be the sole responsibility of the project sponsor.

Let me advise you, First Secretary—or the Secretary for Economic Development in his absence—that I have spoken to several likely project sponsors, local authorities, quangos and the like and they cannot provide the match funding from existing budgets. The buck stops with the administration. Rhodri Morgan, you are accountable. The First Secretary is accountable. Do not let Wales down or the Conservative group will be forced to table a motion of no confidence in the administration. Let us be clear—full match funds for the whole of the programme or face a motion of no confidence.

Moving to the documents, I welcome the targets that are set. Gross domestic product and job creation must measure the success or failure of the plan. I have previously stated that each project established under the programme must take ownership of meeting these targets. Monitoring, as highlighted in chapter 1, paragraph 1.5, encourages them to meet this request. Let us make no mistake, 110,000 net new jobs in Objective 1 areas and achieving 81 per cent of UK GDP per capita by 2010 will be the acid test of success or failure. One document presented to the Economic Development Committee meeting suggested that the GDP targets should be seen as 'desirable goals' rather than targets or an acid test of success or failure. That is not the way to manage a programme and I am pleased that that is not what is suggested in the document before us.

ddewisai i guddio diffyg arian cyfatebol. Felly, yr wythnos diwethaf, cyfrifasom, dadansoddasom a gwiriasom, ond i glywed y swyddog yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cytuno nad oedd arian ychwanegol eleni ac nad oedd arian ychwanegol wedi ei gynnig y flwyddyn nesaf uwchlaw Barnett. Ar ben hynny, yr oedd y ddogfen a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn datgan yn eglur y byddai arian cyfatebol yn gyfrifoldeb i noddwr y prosiect yn unig.

Gadewch imi'ch hysbysu, Brif Ysgrifennydd—neu'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yn ei absenoldeb—fy mod wedi siarad â nifer o noddwyr prosiectau tebygol, awdurdodau lleol, cwangos ac eraill ac ni allant ddarparu'r arian cyfatebol o'r cyllidebau presennol. Ar y weinyddiaeth y mae'r cyfrifoldeb. Rhodri Morgan, yr ydych yn atebol. Mae'r Prif Ysgrifennydd yn atebol. Peidiwch â siomi Cymru neu bydd y grŵp Ceidwadol yn gorfod cyflwyno cynnig o ddiffyg hyder yn y weinyddiaeth. Gadewch inni fod yn glir ynghylch hyn—arian cyfatebol llawn i'r rhaglen gyfan neu rhaid ichi wynebu cynnig o ddiffyg hyder.

Gan symud ymlaen at y dogfennau, croesawaf y targedau a osodwyd. Rhaid i gynnyrch mewnwladol crynswth a chreu swyddi fod yn ffon fesur ar lwyddiant neu fethiant y cynllun. Dywedais o'r blaen y bydd yn rhaid i bob prosiect a sefydlir o dan y rhaglen ymgymryd â pherchnogaeth dros gyrraedd y targedau hyn. Mae monitro, fel y nodir ym mhennod 1, paragraff 1.5, yn eu hannog i ateb y cais hwn. Gadewch inni ddeall hyn, 110,000 o swyddi newydd net mewn ardaloedd Amcan 1 a chyrraedd 81 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y pen y DU erbyn 2010 fydd y prawf terfynol o lwyddiant neu fethiant. Mae un ddogfen a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn awgrymu y dylid ystyried y targedau cynnyrch mewnwladol crynswth yn 'nodau dymunol' yn hytrach nag yn dargedau neu'n brawf terfynol o lwyddiant neu fethiant. Nid dyna'r modd i reoli rhaglen ac yr wyf yn falch nad hynny a awgrymir yn y ddogfen sydd o'n blaenau.

The support for indigenous enterprise is encouraging, and the acknowledgement of the need to develop entrepreneurship culture and spirit is to be welcomed. However, the document does not go far enough in this regard, and that is the purpose of the amendment. If we are to capitalise on the opportunity, it is essential that all strands of Government pull together as was suggested in part of last week's entrepreneurship debate. Broadening the National curriculum would ensure that the essential qualities and competencies are harnessed at the right age and at the right time for our future prosperity.

In paragraph 1.10 of the single programming document, I was pleased to read about the support for small and medium-sized enterprises, facilitating their access to finance. However, in paragraph 2.7, the document flirts with idea of an economic development bank. The private sector can deliver our target and goal. Objective 1's role is to facilitate them.

Although I am focusing on our small businesses, I hope that inward investment will continue to play its role in diversifying and regenerating our economy. I welcome amendments to that accord. However, to dismiss jobs obtained from inward investment as low paid and low opportunity is a complete misunderstanding. It has already been made evident that foreign-owned companies pay 7 per cent more than their UK equivalents and invest three times more per employee.

In terms of finance, the reduction of the proportion to fund business competitiveness also concerns me. This is the sort of funding that will soak up more of the funds away from what Objective 1 aims to achieve. I am also concerned about the obsession with supporting some groups of society. That may well detract from the support of other groups. I hope that facilitating one sector of society will not prevent another from developing through European structural funds. The whole of Wales must benefit: man, woman or ethnic minority; public, private or charitable organisation and we must not exclude any

Mae'r gefnogaeth i fenter gynhenid yn galonogol, ac mae'r gydnabyddiaeth i'r angen i ddatblygu diwylliant ac ysbryd mentergar i'w chroesawu. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn mynd yn ddigon pell yn hyn o beth, a dyna ddiben y gwelliant. Os ydym i fanteisio ar y cyfle, mae'n holl bwysig bod holl elfennau'r Llywodraeth yn cyd-dynnu fel yr awgrymwyd mewn rhan o'r ddadl ar entrepreneuriaeth yr wythnos diwethaf. Byddai ehangu'r Cwricwlwm cenedlaethol yn sicrhau y caiff rhinweddau a galluoedd hanfodol eu harneisio yn yr oedran iawn ac ar yr adeg iawn er mwyn ein ffyniant yn y dyfodol.

Ym mharagraff 1.10 o'r ddogfen raglennu sengl, yr oeddwn yn falch o ddarllen am y gefnogaeth i fentrau bach a chanolig, i'w galluogi i gael mynediad at gyllid. Fodd bynnag, ym mharagraff 2.7, mae'r ddogfen yn chwarae â'r syniad o fanc datblygu economaidd. Gall y sector preifat gyflawni ein targed a'n nod. Rôl Amcan 1 yw eu hwyluso.

Er fy mod yn canolbwyntio ar ein busnesau bach, gobeithiaf y bydd buddsoddi o'r tu allan yn dal i chwarae ei ran wrth amryfalu ac adfywio ein heconomi. Croesawaf welliannau i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, camsyniad llwyr yw wfftio swyddi a geir drwy fuddsoddi o'r tu allan drwy eu galw'n rhai isel eu cyflogau a chyfyng eu cyfleoedd. Amlygwyd eisoes bod cwmnïau dan berchnogaeth dramor yn talu 7 y cant yn fwy na'u cymheiriaid Prydeinig ac yn buddsoddi tair gwaith yn fwy fesul gweithiwr.

O ran cyllid, mae'r gostyngiad yn y gyfran i ariannu cystadleuolrwydd busnesau hefyd yn peri pryder imi. Dyma'r math o ariannu a fydd yn mynd ag arian oddi wrth yr hyn y mae Amcan 1 yn ceisio ei gyflawni. Yr wyf hefyd yn bryderus ynghylch yr obsesiwn â chefnogi rhai grwpiau mewn cymdeithas. Mae'n bosibl iawn y bydd hynny'n lleihau'r gefnogaeth i grwpiau eraill. Gobeithiaf na fydd hwyluso un sector mewn cymdeithas yn atal un arall rhag datblygu drwy gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Rhaid i Gymru gyfan fod ar ei hennill: pob dyn, benyw a lleiafrif ethnig; cyrff a mudiadau cyhoeddus,

sector, organisation or person.

preifat neu elusenol a rhaid inni beidio ag eithrio unrhyw sector, mudiad neu berson.

3:50 p.m.

**Rhodri Morgan:** The bus from Damascus has arrived.

**Rhodri Morgan:** Mae'r bws o Ddamascus wedi cyrraedd.

**Helen Mary Jones:** Will Alun clarify whether he regards ethnic minorities as being men and women?

**Helen Mary Jones:** A wnaiff Alun egluro a yw'n ystyried dynion a benywod yn lleiafrifoedd ethnig?

**Alun Cairns:** My point is that all sectors of society must benefit from European Union funds and that over emphasis on one sector might detract from funding the other sectors that we have already discussed.

**Alun Cairns:** Y pwynt sydd gennyf yw bod yn rhaid i'r holl sectorau mewn cymdeithas elwa ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd ac y gallai gorbwyslais ar un sector leihau'r arian sydd ar gael i'r sectorau eraill yr ydym wedi eu trafod eisoes.

However, the whole document may be a waste of time without the full match funding for the Objective 1 programme. I remind you, Secretary for Economic Development, of what I said earlier. Match funding is critical, and it would be a sad day for the Assembly and for Wales if a motion of no confidence had to be tabled.

Fodd bynnag, gallai'r ddogfen gyfan fod yn wastraff amser heb yr arian cyfatebol llawn i'r rhaglen Amcan 1. Fe'ch atgoffaf, Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, am yr hyn a ddywedais yn gynharach. Mae arian cyfatebol yn hanfodol, a byddai'n ddiwrnod trist i'r Cynulliad ac i Gymru pe bai'n rhaid cyflwyno cynnig o ddiffyg hyder.

**John Marek:** The contributions have been excellent this afternoon, every Assembly Member would agree with nearly all the points made. The substantive points were about the programme for the future. In particular, it would be helpful if Phil Williams's point was taken seriously and we knew the criteria for the figures in tables 3.2 and 3.3. We could then give the matter careful consideration and help the Assembly arrive at the right conclusion. We must ensure that no money is left with Europe when it could have been drawn down. Everybody agrees on that and we must work together to ensure that happens.

**John Marek:** Bu'r cyfraniadau brynhawn heddiw yn rhagorol, a byddai pob Aelod o'r Cynulliad yn cytuno â bron y cwbl o'r pwyntiau a wnaethpwyd. Yr oedd y pwyntiau gwirioneddol yn ymwneud â'r rhaglen ar gyfer y dyfodol. Byddai o gymorth, yn enwedig, pe cymerid pwynt Phil Williams o ddifrif ac inni gael gwybod am y meini prawf ar gyfer y ffigurau yn nhablau 3.2 a 3.3. Gallem wedyn roi ystyriaeth ofalus i'r mater a helpu'r Cynulliad i ddod i'r casgliad cywir. Rhaid inni sicrhau na adewir unrhyw arian gydag Ewrop pryd y gellid ymestyn amdano. Mae pawb yn gytûn ar hynny a rhaid inni gydweithio i sicrhau mai hynny fydd yn digwydd.

I hope the Assembly will forgive me for being parochial. I could but will not make a speech on economic strategy. I will instead talk about the north Wales main railway line. Alun Michael's letter to me and to other Members earlier in the term, probably on 23 September, said that at this stage we do not want any points on particular schemes. I

Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn maddau i mi am fod yn blwyfol. Gallwn wneud araith ar strategaeth economaidd ond ni wnaif hynny. Siaradaf yn hytrach am brif reilffordd gogledd Cymru. Yn ei lythyr ataf fi ac at Aelodau eraill yn gynharach yn y tymor, ar 23 Medi yn fwy na thebyg, fe ddywedodd Alun Michael nad oes arnom angen unrhyw

hope Members will forgive me for mentioning this scheme because it is one which could be put forward and upon which work could start in the summer of 2000. We do not need extensive planning permissions or inquiries for the electrification of a line from Crewe to Holyhead. It can go ahead straight away. The project would cost about £130 million. Railtrack had previously considered electrifying Crewe to Chester, because it thought that the capital return on the investment involved would cover the costs. The project is within the Objective 1 area once the railway passes Point of Ayr.

The project would have great support from business because it would unite the railway line below Crewe and Chester with the electrified west coast mainline network. Private business and people in north Wales would support it and it would show that the Assembly can act. It would be a tangible proposal about which all of us, especially in north Wales, could say, this is what the Assembly will do. It could also be done quickly. I would not mention it otherwise because we should take our time and get our lists of projects into good order and shape. However, there is an urgency in identifying projects that could be undertaken at the beginning of the five year period. This is one that could be done but will it be done? I do not expect Rhodri to say 'yes, we will start next April' but I would like him to say that 'if it is included we will do our best'.

Finally, this project would involve the private sector. The executive would have to talk to Railtrack and train operating companies such as Virgin, Wales and West Passenger Trains Limited and First North Western because there are programmes for improving the line. However, none of these programmes would be as brilliant as electrifying the line and joining the north-west to the rest of the United Kingdom. It is nothing to do with the north-south Wales links. The main flow for industry and passenger transport in north Wales is

bwyntiau ar gynlluniau penodol ar hyn o bryd. Hyderaf y bydd yr Aelodau'n maddau i mi am grybwyll y cynllun hwn oherwydd mae'n un y gellid ei gyflwyno ac y gellid dechrau gweithio arno yn haf 2000. Nid oes arnom angen caniatâd cynllunio helaeth nac ymchwiliadau er mwyn trydaneiddio'r rheilffordd o Crewe i Gaerdybi. Gall fynd ymlaen ar unwaith. Costiai'r prosiect tua £130 miliwn. Yr oedd Railtrack wedi ystyried trydaneiddio'r rheilffordd o Crewe i Gaer o'r blaen, am y credai y byddai'r enillion cyfalaf ar y buddsoddiad dan sylw yn cynnwys y costau. Mae'r prosiect o fewn ardal Amcan 1 wedi i'r rheilffordd fynd heibio i'r Parlwr Du.

Câi'r prosiect lawer o gefnogaeth oddi wrth fusnes oherwydd byddai'n cysylltu'r rheilffordd i'r de o Crewe a Chaer â rhwydwaith prif reilffyrdd trydan arfordir y gorllewin. Byddai busnes preifat a phobl yng ngogledd Cymru yn ei gefnogi a byddai'n dangos bod y Cynulliad yn gallu gweithredu. Byddai'n gynnig pendant y gallai pob un ohonom, yn enwedig yng ngogledd Cymru, ddweud mai dyma'r hyn y bydd y Cynulliad yn ei wneud. Gellid ei wneud yn gyflym hefyd. Ni fyddwn yn sôn amdano fel arall oherwydd y dylem fynd wrth ein pwysau a rhoi trefn a llun ar ein rhestrau o brojectau. Fodd bynnag, mae yna frys i ddynodi prosiectau y gellid eu cyflawni ar dechrau'r cyfnod pum-mlynedd. Dyma un y gellid ei wneud ond a gaiff ei wneud? Nid wyf yn disgwyl i Rhodri ddweud 'byddwn, fe fyddwn yn dechrau fis Ebrill nesaf' ond hoffwn ei glywed yn dweud 'os cynhwysir ef byddwn yn gwneud ein gorau'.

Yn olaf, byddai'r prosiect hwn yn cynnwys y sector preifat. Byddai'n rhaid i'r Weithrediaeth siarad â Railtrack a'r cwmnïau gweithredu trenau fel Virgin, Wales and West Passenger Trains Cyfyngedig a First North Western oherwydd bod rhaglenni i wella'r rheilffordd hon. Fodd bynnag, ni fyddai'r un o'r rhaglenni hyn mor wych â thrydaneiddio'r rheilffordd a chysylltu'r gogledd-orllewin â gweddill y Deyrnas Unedig. Nid oes a wnelo hyn ddim â chysylltiadau rhwng de a gogledd Cymru. Mae prif lif diwydiant a thrafnidiaeth

between north Wales and the north-west, north Wales and the Midlands, north Wales and London. I hope I have Members' support in recommending this as a project that could be started next year because everyone in Wales would welcome it.

**Elin Jones:** Hoffwn ganolbwyntio ar weithredu'r cronfeydd strwythurol, yn benodol pennod 4 o'r ddogfen raglennu sengl, 'Implementation Arrangements'. Ar ddechrau'r bennod sonir am sefydlu partneriaeth rhaglennu Ewropeaidd yng Nghymru ac mae'n nodi mai cyfeiriad swyddogol y bartneriaeth hon yw Parc Cathays, Caerdydd. Mae hyn yn iawn dros dro nes y sefydlir y bartneriaeth, ond mae'n hollol annerbyniol yn y tymor hir i gynllun Amcan 1 gael ei weithredu a'i weinyddu o Gaerdydd. Dylai pencadlys y bartneriaeth Ewropeaidd gael ei sefydlu o fewn ardal ddaearyddol Amcan 1. Byddai unrhyw leoliad arall yn tanseilio'r egwyddor o rannu cyfleoedd trwy Gymru, yn benodol i'r ardaloedd â'r anghenion mwyaf.

Mae ail adran pennod 4, sef paragraffau 4.3 a 4.4, yn sôn am yr asiantaeth dalu ac yn nodi y bydd yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn parhau yn gyfrifol yn ariannol am y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd. Hoffwn bwysleisio eto fod rhaid i'r cyfrifoldeb am y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd a'r arolwg gwariant cyhoeddus perthnasol gael ei drosglwyddo i Gymru. Bydd rhyw 34 y cant o arian Amcan 1 yn deillio o'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd. Bydd rhywfaint o arian Amcan 2 a'r rhan fwyaf o arian Amcan 3 yn dod o'r gronfa hefyd. Un person yn unig yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn Llundain sydd yn gyfrifol am arian Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r person hwnnw wedi bod yn gyfrifol am weinyddu rhaglen 5, rhaglen 2 a'r rhaglenni LEADER. Mae hynny wedi bod yn annigonol yn y gorffennol ac wedi arwain i broblemau enfawr o ran defnyddio'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf.

teithwyr yng ngogledd Cymru rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gogledd Cymru a Chanolbarth Lloegr, gogledd Cymru a Llundain. Hyderaf fod yr Aelodau'n fy nghefnogi wrth argymhell hyn yn broject y gellid ei ddechrau'r flwyddyn nesaf oherwydd byddai pawb yng Nghymru yn ei groesawu.

**Elin Jones:** I would like to concentrate on the implementation of the structural funds, particularly chapter 4 of the single programming document, 'Implementation Arrangements'. The first part of the chapter mentions establishing a European programming partnership in Wales and notes that the official address of this partnership is Cathays Park, Cardiff. This is fine as a temporary measure until the partnership is established, but it is totally unacceptable in the long term to implement and administer the Objective 1 scheme from Cardiff. The European partnership's headquarters should be established within the geographical area of Objective 1. Any other location would undermine the principle of sharing opportunities throughout Wales, particularly in the areas of greatest need.

The second part of chapter 4, namely paragraphs 4.3 and 4.4, refers to the payments agency and notes that the Department for Education and Employment will continue to have financial responsibility for the European social fund. I wish to emphasise the point again that the responsibility for the ESF and the relevant public expenditure survey must be transferred to Wales. Some 34 per cent of Objective 1 money will come from the European social fund. Some of the Objective 2 money and most of the Objective 3 money will also come from that fund. There is only one person in DfEE in London with responsibility for European funding in Wales. That person has been responsible for administering programme 5, programme 2 and the LEADER programmes. This has been inadequate in the past and has led to huge problems in using the ESF in Wales over the last five years.

Os yw'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd i weithio i'w llawn botensial yng Nghymru ac i integreiddio'n llawn â'r cronfeydd eraill, cronfa ddatblygu ranbarthol Ewrop a chronfa arweiniad a gwarant amaethyddol Ewrop, rhaid i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo i Gymru. Hoffwn i'r Prif Ysgrifennydd neu'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ymrwymo i sicrhau hyn erbyn Ebrill 2000. Mae'r mater wedi cael ei drafod ers blynnyddoedd. Rhaid inni sicrhau canlyniad iddo.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â sefydlu pwyllgor monitro. Mae'n bwysig sefydlu pwyllgor monitro cysgodol ar unwaith. Yr oeddwn yn falch o glywed y Prif Ysgrifennydd yn cytuno i'r egwyddor hwn yn gynharach. Mae gwaith y tasglu Ewropeaidd wedi dod i ben a rhaid inni sicrhau ein bod yn cynnwys ein partneriaid o'r sector busnes a'r sector gwirfoddol yn natblygiad pellach rhaglen Amcan 1 yng Nghymru. Gallwn wneud hyn, i raddau, trwy sefydlu pwyllgor monitro.

Nid yw'r ddogfen raglennu sengl yn sôn am y broses o wneud ceisiadau am arian Amcan 1. Rhaid inni aros i'r pwyllgor monitro gyfarfod a mabwysiadu rheolau a strwythur ar gyfer gwneud ceisiadau Amcan 1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd eisoes wedi derbyn papur ar hyrwyddo pecynnau cenedlaethol a lleol ar gyfer Amcan 1.

4:00 p.m.

Yng Ngheredigion mae pawb yn holi beth yw pecyn lleol. Yn gynharach fe soniodd Phil Williams am y dryswch cyffredinol ynglŷn â sut mae rhoi cynllun Amcan 1 at ei gilydd. Rhaid rhoi cyfarwyddyd cyflym i'n cymunedau ac i'r sector busnes ar hyn. Ailadroddaf fod yn rhaid i'r pwyllgor monitro cysgodol gael ei sefydlu o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn rhoi cyfarwyddyd clir.

Mae gennyf dri phwynt i'r Llywodraeth a'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yr hoffwn gael ymateb iddynt: yn gyntaf sefydlu pencadlys o bartneriaid Ewropeaidd yn ardal Amcan 1; yn ail trosglwyddo cyfrifoldeb y

If the ESF is to work to its full potential in Wales and fully integrate with the other funds, the European regional development fund and the European agricultural guidance and guarantee fund, then the responsibility must be transferred to Wales. I would like the First Secretary or the Economic Development Secretary to commit to securing this by April 2000. The matter has been discussed for years. We must ensure an outcome to it.

My last point concerns establishing a monitoring committee. It is important that we establish a shadow monitoring committee immediately. I was pleased to hear the First Secretary agreeing to this principle earlier. The work of the European taskforce has come to an end and we must ensure that we include our partners from the voluntary and business sectors in the further development of the Objective 1 programme in Wales. We could do this, to an extent, by establishing a monitoring committee.

The single programming document does not mention the bidding process for Objective 1 funding. We must wait for the monitoring committee to meet and adopt a structure and rules for Objective 1 bids. The Economic Development Committee has already received a paper on the promotion of national and local packages for Objective 1.

In Ceredigion everyone is asking what constitutes a local package. Phil Williams mentioned earlier the general confusion surrounding the preparation of an Objective 1 scheme. We must swiftly issue guidance to our communities and to the business sector on this. I repeat that the shadow monitoring committee must be established within the next few weeks in order to give clear guidance.

I have three points for the Government and the Secretary for Economic Development on which I would like a response: First, the establishment of a headquarters of European partners in the Objective 1 area; secondly,

gronfa gymdeithasol Ewropeaidd i'r Cynulliad, ac yn drydydd sefydlu pwyllgor monitro cysgodol ar fyrder.

**Janice Gregory:** I agree with Phil Williams. There is no subject of greater significance for debate in the Assembly than the economic and social regeneration of west Wales and the Valleys. My special concern is for the members of the Ogmores constituency in what the report rather vaguely calls the central or industrial valleys. Annex 1 states:

'Even this hides pockets of severe deprivation, with the central Valleys having a GDP per head of only 64 per cent of the UK average'.

In my constituency this means places like Caerau and Betws. The same is true of Caerphilly, Merthyr Tydfil, Swansea, Rhondda Cynon Taff, Neath Port Talbot, Blaenau Gwent and Torfaen. The report implies that the social and economic conditions of the central and industrial valleys have brought the Welsh GDP per capita figures well below the 75 per cent eligibility criterion set by the Commission. If it were not for the severe deprivation in the Valleys Wales would not have Objective 1 funding. After 60 years we have a unique opportunity to regenerate parts of Wales that have been forgotten for far too long. There has been a long history of defeat and decline; the great miners' strike, the pit closures of the 60s and the rundown of the steel industry have all come since the Second World War. However, this goes back even further, to the Depression of the 30s. We learned about that time in school. Relatives have since told me about the despair and the hopelessness of that terrible time. Do you remember someone saying famously 60 years ago that 'something needs to be done'? I believe, Huw, that it was when that royal personage was on a visit to Dowlais, in your constituency.

Objective 1 provides an opportunity for the

the transfer of ESF responsibility to the Assembly, and thirdly the establishment of a shadow monitoring committee urgently.

**Janice Gregory:** Cytunaf â Phil Williams. Nid oes yr un pwnc pwysicach i'w drafod yn y Cynulliad nag adfywiad economaidd a chymdeithasol gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Pryderaf yn arbennig am bobl etholaeth Ogwr sydd yn yr ardal y mae'r adroddiad yn ei galw'n annelwig braidd yn gymoedd canolog neu ddiwydiannol. Dywedir yn Atodiad 1:

'Mae hyd yn oed hyn yn cuddio pocedi o amddifadedd difrifol, gyda chynnyrch mewnwladol crynswth y pen o ddim ond 64 y cant o gyfartaledd y DU yn ardal canol y Cymoedd.'

Yn f'etholaeth i mae hyn yn golygu lleoedd fel Caerau a'r Betws. Mae'r un peth yn wir am Gaerffili, Merthyr Tudful, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Thor-faen. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai cyflwr economaidd a chymdeithasol y cymoedd canolog a diwydiannol a dynnodd ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth y pen Cymru ymhell islaw'r maen prawf o 75 y cant ar gyfer ymgymhwysio a osodwyd gan y Comisiwn. Oni bai am yr amddifadedd difrifol yng Nghymoedd Cymru ni fyddai gennym arian Amcan 1. Ar ôl 60 mlynedd mae gennym gyfle unigryw i adfywio rhannau o Gymru a anghofwyd yn rhy hir. Cafwyd hanes hir o aflwyddiant a dirywiad; mae streic fawr y glowyr, cau'r pyllau glo yn y 60au a dirywiad y diwydiant dur oll wedi digwydd ers yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae'n mynd yn ôl yn bellach na hynny hyd yn oed, i'r Dirwasgiad yn y 30au. Fe'n dysgwyd am y cyfnod hwnnw yn yr ysgol. Mae perthnasau wedi dweud wrthyf ers hynny am anobaith ac enbydrwydd y cyfnod ofnadwy hwnnw. A gofiwch y geiriau enwog hynny a lefarwyd gan rywun 60 mlynedd yn ôl bod 'rhaid gwneud rhywbeth'? Yr wyf yn credu, Huw, fod hynny wedi digwydd pan oedd y gŵr brenhinol hwnnw yn ymweld â Dowlais, yn eich etholaeth chi.

Mae Amcan 1 yn rhoi cyfle am aileni yn y

rebirth of the Valleys. We will not fail them. The document refers to the Welsh Office index on socio-economic conditions which lists the 906 electoral wards in Wales in rank order of social deprivation. About the Valleys it states:

‘The area suffers from high localised social deprivation and 82 of the most 100 deprived wards are in west Wales and the Valleys. Of these no less than 73 are actually in the Valleys.’

This social deprivation or exclusion is more than financial poverty. It describes a way of life where there are few opportunities, services are difficult to access and people lose hope. That means that over 90 per cent of the most deprived wards in west Wales and the Valleys are in the Valleys area. Here are the top 10: the Gurnos and Tirphil, Thornhill and Penderry in Swansea, Tylerstown and Maerdy in Rhondda, and, in my own constituency, Caerau in Maesteg and Betws at the bottom end of the Garw Valley. The wards with the greatest need are in these central or industrial valleys in the former West and Mid Glamorgan former county council areas. These parts of Wales have been ignored for far too long. They are the marginalised communities, the excluded places. The Objective 1 programme is their last chance. The Assembly will not fail them and neither will the Labour Government.

**David Melding:** I would like to highlight the plight of Barry, which has lost out on Objective 2 status. Many areas not included in the Objective 1 area feared that they could potentially lose out as a result of this funding coming to Wales. Many efforts were made to dispel those fears and I do not want to lessen the achievement of securing Objective 1 status for the Valleys and west Wales. It is important for those areas. However, much of Wales falls outside the Objective 1 area.

Barry feels that it has lost out in a numbers game and not on any logical criteria to ascertain whether an area could benefit from Objective 2 monies. East Wales has lost over 50 per cent of the area formally covered on

Cymoedd. Ni fyddwn yn eu siomi. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at fynegai'r Swyddfa Gymreig ar amodau cymdeithas-economaidd sydd yn rhestru'r 906 o wardiau etholiadol yng Nghymru yn ôl trefn eu hamddifadedd cymdeithasol. Mae'n dweud am y Cymoedd:

Mae amddifadedd neu ddieithrwyd cymdeithasol yn golygu mwy na thlodi ariannol. Mae'n disgrifio ffordd o fyw lle y mae cyfleoedd yn brin, gwasanaethau'n anodd mynd atynt a lle y bydd pobl yn anobeithio. Mae'n golygu bod dros 90 y cant o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i'w cael yn ardaloedd y Cymoedd. Dyma'r 10 uchaf: y Gurnos a Thir-phil, Thornhill a Penderry yn Abertawe, Pendyrus a Maerdy yn y Rhondda ac, yn f'etholaeth i, Caerau ym Maes-teg a'r Betws yng ngwaelod Cwm Garw. Y wardiau sydd â'r angen mwyaf yw'r rhai yn y cymoedd canolog neu ddiwydiannol hyn yn ardaloedd cyn-gynghorau sir Gorllewin Morgannwg a Morgannwg Ganol. Anwybyddwyd y rhannau hyn o Gymru yn rhy hir o lawer. Hwy yw cymunedau'r ymylon, y manau a ddieithriwyd. Rhaglen Amcan 1 yw eu cyfle olaf. Ni fydd y Cynulliad yn eu siomi, na'r Llywodraeth Lafur ychwaith.

**David Melding:** Hoffwn dynnu sylw at gyflwr y Barri, a fethodd â chael statws Amcan 2. Yr oedd llawer o ardaloedd sydd heb eu cynnwys yn rhanbarth Amcan 1 yn ofni y gallent fod ar eu colled o ganlyniad i'r cyllid sydd yn dod i Gymru. Gwnaethpwyd llawer ymdrech i chwalu'r ofnau hynny ac nid wyf am fychanu'r gamp o ennill statws Amcan 1 i'r Cymoedd a gorllewin Cymru. Mae'n bwysig i'r ardaloedd hynny. Fodd bynnag, mae rhannau helaeth o Gymru y tu allan i ranbarth Amcan 1.

Mae'r Barri'n teimlo ei fod wedi colli mewn gêm o rifau ac nid yn ôl unrhyw feini prawf rhesymegol i ganfod a allai ardal elwa ar arian Amcan 2. Mae dwyrain Cymru wedi colli dros 50 y cant o'r rhanbarth oedd gynt



the Objective 2 map. The loss overall in the UK is only 14 per cent. These figures are disproportionate and, if we are not included in the Objective 1 area, why have we done so badly in terms of the Objective 2 map? These funds have been important for the areas that have qualified. In the Vale of Glamorgan for example, support for SMEs and starter businesses, infrastructure for industrial development and tourism facilities, such as the railway heritage centre at Barry Island, have been facilitated and helped by Objective 2 monies or predecessor schemes. I am concerned about the economic regeneration of Barry. It has a proud industrial heritage and it remains an excellent place to invest in and live, with a splendid environment close by as well as facilities within the town itself. However, Barry will not get the monies that were available. That is a dramatic loss for the people of Barry.

I am also concerned about the method by which the decision was reached on selecting Objective 2 areas. On 13 October, a delegation from the Vale of Glamorgan Council met with Stephen Byers at the Department of Trade and Industry. They were informed that his decision was based on the recommendation of the Assembly. I would like to know who made this recommendation on our behalf. The council has not been given the information on the criteria used to make these decisions and feels that it did not have an appropriate opportunity to respond to the decision. Our prospects have been greatly reduced by not being able to apply for these monies and this administration should address the people of Barry and tell them what their future prospects are for economic regeneration and the use of European funds.

**Helen Mary Jones:** I would like to concentrate on the key policy pillar of promoting equality, and stress how much better these set of documents are than previous drafts. In the Objective 1 single programming document, the human resources development strategy now has a full section on equality of opportunity with some specific

wedi ei gynnwys ar fap Amcan 2. Nid yw'r golled gyffredinol yn y DU ond 14 y cant. Mae'r ffigurau hyn yn anghyfartal ac, os nad ydym wedi ein cynnwys yn rhanbarth Amcan 1, pam y mae cyn waethed arnom o ran map Amcan 2? Bu'r cronfeydd hyn yn bwysig i'r ardaloedd a oedd yn gymwys. Ym Mro Morgannwg, er enghraifft, mae cymorth i fentrau bach a chanolig a busnesau sydd yn dechrau, isadeiledd ar gyfer datblygu diwydiannol a chyfleusterau twristiaeth, fel canolfan dreftadaeth y rheilffyrdd yn Ynys y Barri, wedi eu hwyluso a'u helpu gan arian Amcan 2 neu gynlluniau a'i rhagflaenodd. Yr wyf yn bryderus ynghylch adfywiad economaidd y Barri. Mae iddo dreftadaeth ddiwydiannol wych ac mae'n dal i fod yn lle rhagorol i fuddsoddi ac i fyw, gydag amgylchedd rhagorol gerllaw yn ogystal â chyfleusterau yn y dref ei hun. Fodd bynnag, ni fydd y Barri'n derbyn yr arian a oedd ar gael. Mae hynny'n golled ddifrifol i bobl y Barri.

Yr wyf hefyd yn bryderus ynghylch y dull o benderfynu ar ddethol ardaloedd Amcan 2. Ar 13 Hydref, cyfarfu dirprwyaeth o Gyngor Bro Morgannwg â Stephen Byers yn yr Adran Diwydiant a Masnach. Fe'u hysbyswyd bod ei benderfyniad wedi ei seilio ar argymhelliad y Cynulliad. Hoffwn wybod pwy a wnaeth yr argymhelliad hwn ar ein rhan. Ni roddwyd gwybodaeth i'r cyngor am y meini prawf a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniadau hyn ac mae'n teimlo na chafodd gyfle priodol i ymateb i'r penderfyniad. Mae'r rhagolygon sydd gennym yn llai o lawer o beidio â gallu ymgeisio am yr arian hwn a dylai'r weinyddiaeth hon ddweud wrth bobl y Barri pa obaith fydd ganddynt yn y dyfodol o weld adfywiad economaidd ac o ddefnyddio arian Ewropeaidd.

**Helen Mary Jones:** Hoffwn ganolbwyntio ar y brif golofn bolisi o hybu cydraddoldeb, a phwysleisio gymaint gwell yw'r gyfres hon o ddogfennau na'r drafftiau blaenorol. Yn nogfen raglennu sengl Amcan 1, mae'r strategaeth datblygu adnoddau dynol bellach yn cynnwys adran gyfan ar gyfle cyfartal gyda rhai targedau ymarferol penodol. Mae

realistic targets. That is welcome. Measure six of the business competitiveness priority, which discusses the provision of sites and premises, refers to the need for disabled access and the need for the provision of, or access to, childcare facilities. There are several other positive examples.

It is clear that there has been valuable progress. However, we are still a long way from the model of mainstreaming equality that the European Commission requires. There are good references in some parts and no references or glancing comments in others. Under the Objective 1 implementation strategy, the most we get on equality is a curious reference to seeking gender balance on the monitoring committees. I do not understand how we can 'seek' to do it. Either we do it or not. The word 'seek' is a bit wishy-washy and I am not sure how impressed the Commission will be by that. We cannot blame officials for this. We have gone a long way towards getting it right. However, with only three staff out of a total of 2,400 having equal opportunity responsibilities as their main job it is small wonder that other staff do not fully grasp what the concept of mainstreaming equality means to them and their work. In the longer term, if the Assembly is to meet the statutory equality responsibilities we must address this issue urgently.

4:10 p.m.

While I welcome the improvements and the steps towards mainstreaming equality in these documents, I ask the Cabinet to take a last look at them before they go to Europe, and seek advice from the standing advisers to the Committee on Equality of Opportunity. We have come a long way but we are not there yet in terms of mainstreaming equality. We must get this right, not only to ensure that we meet our own objectives and statutory responsibilities, but to ensure that we meet the European Commission's requirements.

**Val Feld:** I had hoped to stand up and say

hynny i'w groesawu. Mae mesur chwech o'r flaenoriaeth cystadleurwydd busnes, sydd yn trafod darparu safleoedd ac adeiladau, yn cyfeirio at yr angen am fynediad i bobl anabl a'r angen i ddarparu cyfleusterau gofal plant neu'r hawl i'w defnyddio. Ceir sawl enghraifft gadarnhaol arall.

Mae'n amlwg bod cynnydd gwerthfawr wedi digwydd. Fodd bynnag, yr ydym yn dal i fod ymhell oddi wrth y model o roi lle canolog i gydraddoldeb sydd yn ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ceir cyfeiriadau da mewn rhai rhannau a dim cyfeiriadau neu ddim ond sylwadau wrth fynd heibio mewn eraill. O dan strategaeth gweithredu Amcan 1, y sylw mwyaf a roddir i gydraddoldeb yw cyfeiriad rhyfedd at geisio cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y pwyllgorau monitro. Ni ddeallaf sut y gallwn 'geisio' gwneud hynny. Byddwn un ai'n gwneud hynny neu'n peidio â'i wneud. Mae'r gair 'ceisio' braidd yn lastwraidd ac nid wyf yn siŵr faint o argraff a wna hynny ar y Comisiwn. Ni allwn roi'r bai ar y swyddogion am hyn. Yr ydym yn nes o lawer at ei chael yn iawn. Fodd bynnag, gyda dim ond tri o staff o blith cyfanswm o 2,400 yn gyfrifol am gyfle cyfartal fel eu prif swydd nid oes ryfedd nad yw staff eraill yn llwyr amgyffred yr hyn y mae rhoi lle canolog i gydraddoldeb yn ei olygu iddynt hwy a'u gwaith. Yn y tymor hwy, os yw'r Cynulliad i gyflawni'r dyletswyddau statudol ar gydraddoldeb rhaid inni roi sylw i'r mater hwn ar frys.

Er fy mod yn croesawu'r gwelliannau a'r camau tuag at roi lle canolog i gydraddoldeb yn y dogfennau hyn, gofynnaf i'r Cabinet fwrw golwg arnynt am y tro olaf cyn eu hanfon i Ewrop, a gofyn am gyngor gan ymgynghorwyr sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Daethom yn bell iawn ond nid ydym wedi cyrraedd eto o ran rhoi lle canolog i gydraddoldeb. Rhaid inni gael hyn yn iawn, nid yn unig er mwyn cyflawni'n hamcanion a'n cyfrifoldebau statudol ein hunain, ond er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd.

**Val Feld:** Yr oeddwn wedi gobeithio gallu

how good it was that we had reached an all-party agreement on the content of these programmes. However, the more I sit here the more I wonder whether there are a number of parallel universes which different people inhabit. I particularly wonder whether Alun Cairns, who has now left the Chamber, has a twin.

I am disappointed by Helen's contribution although I accept the principle behind what she said. My understanding from the Committee meeting and the advice that we received is that much of the development of the mainstreaming of equality must take place in how we implement the programmes and make use of expertise and monitoring to ensure that the outcomes are met. The difficulty with these programmes, as many of us have seen through attending hundreds of meetings and discussions, is that every sector wants to be clearly mentioned in the programmes. However, the programmes only contain broad-based proposals that provide a parameter for the sustainable growth and development of Wales over a six-year period. They do not spell out every sector in every measure because we must be able to use these programmes flexibly and incrementally in order to build sustainable growth and change. I agree with Janice about the importance of these programmes. I include in this the Objective 3 programme, which David seems to have forgotten, which extends to all of Wales and offers opportunities for work growth and development in education and training.

**David Melding:** I did not forget it at all. My remarks are specifically aimed at the Objective 2 funding which has been denied to the Vale of Glamorgan, one of the only five councils in Great Britain that has been entirely cut.

**Val Feld:** I appreciate your position on Objective 2 and we are constrained by the rules of the European Commission but you seemed to suggest, David, that there were parts of Wales that were getting nothing. It is important that we make it clear to people that there are programmes accessible to all. There

sefyll a dweud mor dda ydoedd ein bod wedi cyrraedd cytundeb trawsbleidiol ar gynnwys y rhaglenni hyn. Fodd bynnag, po fwyaf yr eisteddaf yma, mwyaf yn y byd y byddaf yn meddwl tybed a oes nifer o fydoedd cyfochrog lle y mae gwahanol bobl yn byw. Yr wyf yn meddwl yn benodol tybed a yw Alun Cairns, sydd bellach wedi gadael y Siambr, yn un o efeilliaid.

Cefais fy siomi gan gyfraniad Helen er fy mod yn derbyn hanfod yr hyn a ddywedodd. Yr hyn a ddeallaf o gyfarfod y Pwyllgor a'r cyngor a gawsom yw bod rhaid i lawer o'r datblygu ar le canolog cydraddoldeb ddigwydd yn y modd y byddwn yn gweithredu'r rhaglenni ac yn manteisio ar arbenigaeth a monitro er mwyn sicrhau llwyddiant. Yr anhawster gyda'r rhaglenni hyn, fel y gwelodd llawer ohonom drwy fynychu cannoedd o gyfarfodydd a thrafodaethau, yw bod pob sector am gael ei grybwyll yn eglur yn y rhaglenni. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni ond yn cynnwys cynigion bras sydd yn darparu paramedr ar gyfer twf a datblygu cynaliadwy yng Nghymru dros gyfnod chwe-blynedd. Nid ydynt yn manylu ar bob sector ym mhob mesur oherwydd bod yn rhaid inni allu defnyddio'r rhaglenni hyn mewn modd hyblyg a chynyddol er mwyn creu twf a newid cynaliadwy. Cytunaf â Janice am bwysigrwydd y rhaglenni hyn. Yr wyf yn cynnwys rhaglen Amcan 3 yn hynny, yr ymddengys fod David wedi ei hanghofio, sydd yn ymestyn i bob cwr o Gymru ac yn cynnig cyfleoedd am waith, twf a datblygu mewn addysg a hyfforddiant.

**David Melding:** Nid oeddwn wedi ei hanghofio o gwbl. Mae fy sylwadau'n ymwneud yn benodol ag arian Amcan 2 a wrthodwyd i Fro Morgannwg, un o blith dim ond pum cyngor ym Mhrydain Fawr lle y'i diddymwyd yn llwyr.

**Val Feld:** Yr wyf yn deall eich safbwynt ar Amcan 2 ac yr ydym yn gorfod dilyn rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd ond mae'n ymddangos eich bod yn awgrymu, David, fod rhannau o Gymru nad ydynt yn derbyn dim. Mae'n bwysig inni roi ar ddeall bod rhai rhaglenni sydd ar gael i bawb. Ceir gwahanol

are different programmes in different parts of Wales because of the legacy of poverty, which Janice Gregory has mentioned, and because there is a need to shift resources. It is important that the programmes offer hope, expectation and opportunity to the parts of Wales that have been damaged from years of neglect and decline.

Janice is correct in saying that two of the top wards on the list of neglect and decline and poverty, Penderry and Bonymaen, are in my constituency. From past experience of working in that area, I learned that if we are going to change the situation, we must give people hope. People must know and believe that there will be jobs for them and that it is worth making the effort to gain the skills and experience that make them more employable. The programmes offer an opportunity to provide a range of education and training. The higher skills are important in attracting inward investors and in developing good quality jobs. However, vocational skills are also important as they enable people to take the first steps into the workforce, that so many have been unable to do. The pre-vocational skills and the opportunities that entice people into the education and training system are important. We must encourage all of those.

From travelling around Wales in my work on the Economic Development Committee, I have learned that many different matters must be confronted to change and develop the Welsh economy. We must work on several levels in education and training. An infrastructure must be developed to support people and provide ladders for them. We must remove the barriers that have kept so many out of the work place, such as the lack of childcare, job opportunities, the information technology infrastructure and public transport. Those things make it possible for people to move around and take advantage of the opportunities that exist. We must also invest in our own businesses, build supply chains and ensure that, as we develop our businesses, we find ways of keeping our wealth in Wales so that jobs are created here. If we are to do that, the extent to which we are able to build people's confidence and the

raglenni mewn gwahanol rannau o Gymru oherwydd y tlodi a etifeddiwyd, y cyfeiriodd Janice Gregory ato, ac am fod angen symud adnoddau. Mae'n bwysig bod y rhaglenni'n cynnig gobaith, disgwyliadau a chyfle i'r rhannau o Gymru a niweidiwyd gan flynyddoedd o esgeulustod a dirywiad.

Mae Janice yn gywir wrth ddweud bod dwy o'r wardiau sydd uchaf ar y rhestr o esgeulustod a dirywiad a thlodi, Penderry a Bôn-y-maen, yn fy etholaeth i. O'm profiad o weithio yn yr ardal honno yn y gorffennol, dysgais fod rhaid inni gynnig gobaith i bobl os ydym i newid y sefyllfa. Rhaid i bobl wybod a chredu y bydd swyddi ar eu cyfer a'i bod yn werth ymdrechu i ennill y medrau a'r profiad sydd yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy. Mae'r rhaglenni'n cynnig cyfle i ddarparu amrediad o addysg a hyfforddiant. Mae'r medrau uwch yn bwysig wrth ddenu buddsoddwyr o'r tu allan a datblygu swyddi o ansawdd da. Fodd bynnag, mae medrau galwedigaethol yn bwysig hefyd am eu bod yn galluogi pobl i gymryd y camau cyntaf yn y gweithlu, rhywbeth na fu modd i lawer ei wneud. Mae'r medrau cynnalwedigaethol a'r cyfleoedd sydd yn denu pobl i'r system addysg a hyfforddiant yn bwysig. Rhaid inni gefnogi pob un o'r rhain.

Drwy deithio o amgylch Cymru wrth wneud fy ngwaith ar y Pwyllgor Datblygu Economaidd, dysgais fod rhaid mynd i'r afael â llawer o faterion gwahanol er mwyn newid a datblygu economi Cymru. Rhaid inni weithio ar sawl lefel mewn addysg a hyfforddiant. Rhaid datblygu isadeiledd i gynnal pobl a darparu ysgolion iddynt eu dringo. Rhaid inni symud y rhwystrau a gadwodd gymaint o bobl o'r gweithle, fel y diffyg gofal plant, cyfleoedd gwaith, yr isadeiledd technoleg gwybodaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r pethau hynny'n ei gwneud yn bosibl i bobl symud o gwmpas a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. Rhaid inni fuddsoddi hefyd yn ein busnesau ein hunain, adeiladu cadwyni cyflenwi ac ymorol, wrth inni ddatblygu ein busnesau, ein bod yn canfod ffyrdd i gadw'n cyfoeth yng Nghymru fel bod swyddi'n cael eu creu yma. Er mwyn gwneud hynny, mae'n

hope that things can change and that there will be a future and opportunities here is critical.

I do not think that we have no entrepreneurial culture in Wales. We have people of real enterprise but in the past they have left Wales. We must persuade them that there is a future for them here. We must develop a culture that says that taking risks is good and acceptable and that we value our risk-takers. I was disappointed by our earlier debate, when someone who had taken a risk was castigated because the attempt failed. As a society and as a culture, we must recognise that there will be failures. However, they must be accepted not as failures but as learning opportunities for us all. Otherwise, people will not take those risks and stay in Wales and that is what we need them to do.

I support the view that we must do more to involve the private sector. The Economic Development Committee has invited many private business people to talk to us on 3 November about how we can work with them and what they need.

We must do more work on these programmes. I put on record that I am concerned that there is not enough about health in the programmes. We must ensure that we can spend on programmes that will improve healthcare provision.

4:20 p.m.

I share Phil and Mike's concerns about the distribution of funds. We need to be careful where we fix the final total, under which the funds for the allocation will be. We also need to be careful under which measures we put our investments so that we can make sure that the money is where we need it to be. There is much work to be done on the implementation of the monitoring committees. We must stick to the European Commission's proposal that we base the composition of our monitoring committees on the basis of a third of members from the public sector government organisations, a third from social partners, including private

holl bwysig inni greu hyder mewn pobl a'r gobaith y gall pethau newid ac y bydd dyfodol a chyfleoedd yma.

Ni chredaf fod diffyg diwylliant entrepreneuriaidd yng Nghymru. Mae gennym bobl sydd yn wirioneddol fentrus ond yn y gorffennol maent wedi gadael Cymru. Rhaid inni eu hargyhoeddi bod dyfodol iddynt yma. Rhaid inni ddatblygu diwylliant sydd yn dweud bod mentro'n dda a derbyniol a'n bod yn gwerthfawrogi'r rhai sydd yn mentro. Fe'm siomwyd gan y ddadl a gawsom yn gynharach, pan gystwywyd rhywun a fentrodd wedi ei chystwyo am fod yr ymdrech wedi methu. Fel cymdeithas ac fel diwylliant, rhaid inni dderbyn y bydd methiannau. Fodd bynnag, ni ddylid eu hystyried yn fethiannau ond yn gyfleoedd dysgu i ni i gyd. Fel arall, ni fydd pobl yn mentro ac aros yng Nghymru a dyna'r hyn yr ydym am iddynt ei wneud.

Ategaf y farn bod rhaid inni wneud mwy i gynnwys y sector preifat. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi gwahodd llawer o bobl busnes preifat i siarad â ni ar 3 Tachwedd am y modd y gallwn weithio â hwy a beth yw eu hanghenion.

Rhaid inni wneud mwy o waith ar y rhaglenni hyn. Yr wyf am ei roi ar y cofnod fy mod yn bryderus nad oes digon am iechyd yn y rhaglenni. Rhaid inni sicrhau y gallwn wario ar raglenni a fydd yn gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd.

Rhannaf y pryderon sydd gan Phil a Mike am ddsbarthu'r arian. Rhaid inni fod yn ofalus ym mhle y byddwn yn pennu'r cyfanswm terfynol ar gyfer yr arian sydd i'w ddyrannu. Rhaid inni fod yn ofalus hefyd wrth benderfynu o dan ba fesurau y rhoddwn ein buddsoddiadau fel y gallwn sicrhau bod yr arian yn y manau y mae ei angen. Mae llawer o waith i'w wneud ar weithredu'r pwyllgorau monitro. Rhaid inni lynu wrth gynig y Comisiwn Ewropeaidd ein bod yn seilio cyfansoddiad ein pwyllgorau monitro ar y sail y bydd un rhan o dair o'r aelodau o gyrrff sector cyhoeddus y llywodraeth un rhan o dair o'r partneriaid cymdeithasol, gan

businesses, and a third from community organisations. No one sector would have overriding ownership or dominance of how the programmes are rolled out. It is important that we find ways between us of preventing these programmes becoming a political football. We have much work to do on the ground to present our proposals and packages.

I am satisfied that there is money available. Mike is wrong in his assumption that you need match funding before you can put your programme together. You do not. We look for a series of partnerships that will bring investment from a range of organisations. If we do that then, at the end of the programmes, we will have a legacy of working in partnership that will stand us in good stead. It is important that we sell our ability to deliver and engage people now in the process of developing their projects and getting the structures right so that we can roll the programmes out speedily. We must stand together and argue that we need the resources from the UK Treasury that will ensure we get the maximum value from Objective 1. It is a huge opportunity. What we do with it that opportunity will make the difference to our future.

**Jocelyn Davies:** I welcome the document on Objective 3 operational programming. However, we should acknowledge the broader context. I hope that that does not put me in a parallel universe to anybody else currently in this room. As Objective 3 is funded centrally through the Department for Education and Employment, the east Wales operational programmes supplement the UK's community support framework and follow guidelines in the UK's national plan. I would like to see a summary of the framework proposals included as an annex. The Objective 3 operational programmes are required to present a coherent and integrated plan for human resource development. However, there is no mention of how training systems could be developed to complement the imminent and widespread changes in education and training in Wales outlined in the Education and Training Action Group

gynnwys busnesau preifat, ac un rhan o dair o fudiadau cymunedol. Ni fyddai gan yr un o'r sectorau fwy o berchnogaeth neu benarglwyddiaeth na'i gilydd ar y modd y datblygir y rhaglenni. Mae'n bwysig inni ganfod ffyrdd gyda'n gilydd o atal y rhaglenni rhag dod yn bêl wleidyddol. Mae gennym lawer o waith i'w wneud yn y maes er mwyn cyflwyno ein cynigion a'n pecynnau.

Yr wyf yn sicr bod arian ar gael. Mae Mike yn anghywir wrth ragdybio bod angen arian cyfatebol cyn i chi lunio rhaglen. Nid yw'n wir. Yr ydym yn chwilio am gyfres o bartneriaethau a fydd yn dod â buddsoddiad o amrediad o gyrff. Os gwnawn hynny yr adeg honno, bydd gennym hanes o weithio mewn partneriaeth ar ddiwedd y rhaglenni a fydd yn fanteisiol i ni. Mae'n bwysig inni argyhoeddi pobl o'n gallu i fynd â'r maen i'r wal a'u cynnwys yn awr yn y broses o ddatblygu eu prosiectau a sefydlu'r strwythurau iawn fel y gallwn ddatblygu'r rhaglenni'n gyflym. Rhaid inni sefyll gyda'n gilydd a dadlau bod arnom angen yr adnoddau o Drysorlys y DU a fydd yn sicrhau y cawn y gwerth mwyaf posibl o Amcan 1. Mae'n gyfle enfawr. Yr hyn a wnawn gyda'r cyfle hwnnw fydd yn gwneud y gwahaniaeth i'n dyfodol.

**Jocelyn Davies:** Croesawaf y ddogfen ar raglennu gweithredol Amcan 3. Fodd bynnag, fe ddylem gydnabod y cyd-destun ehangach. Gobeithiaf nad yw hynny'n golygu fy mod mewn byd cyfochrog gwahanol i neb arall sydd yn yr ystafell hon ar hyn o bryd. Gan fod Amcan 3 wedi ei ariannu'n ganolog drwy'r Adran Addysg a Chyflogaeth, mae rhaglenni gweithredu dwyrain Cymru yn ategu fframwaith cefnogaeth gymunedol y DU ac yn dilyn canllawiau yng nghynllun cenedlaethol y DU. Hoffwn weld cynnwys crynodeb o'r cynigion ar gyfer y fframwaith fel atodiad. Mae'n ofynnol i raglenni gweithredol Amcan 3 fod yn gynlluniau cydlynol ac integredig ar gyfer datblygu adnoddau dynol. Fodd bynnag, nid oes sôn am y modd y gellid datblygu systemau hyfforddi i gyflenwi'r newidiadau eang sydd ar fin digwydd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru a amlinellir yng nghynigion y

proposals currently before the Post-16 Education and Training Committee. The approach is not sufficiently coherent and holistic.

The document refers at some length to the need to improve workforce employability. That is valid. We need better skilled men and women. However, we need to ensure that there are enough job opportunities to keep those people in Wales. That is not addressed in the document. The need to develop new managerial courses is repeated throughout the operational programme but there is no indication of plans for these courses or where will they take place. The document informs us that there is a total of '£xx million' to be allocated across the six priority areas. That shows little improvement on the previous draft of the document where a suggested measure of impact was to ensure that 'x' per cent of adults would have a level 3 qualification by 2002.

Perhaps the Secretary will fill in those gaps when he responds? There is also a severe lack of targets in the document. For each of the priorities, it is stated that targets can be developed in line with national targets. There are no specific targets for the use of Objective 3 in Wales. That is distinctly problematic. That is why supplementary operational programmes are drafted. Many of the measures under priority 3, lifelong learning and priority 4, promoting business development, introduce good initial ideas that are not developed. For example, priority 1,

'The first measure, preventing long-term unemployment, focuses upon those individuals who have been non-employed for up to 12 months. It supports active measures that seek to integrate this client group into the labour market.'

Nobody would disagree with that in principle, but without further information it is impossible to come to a rational and informed opinion on how such a measure would contribute to human resource development in Wales and how it would

Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant sydd gerbron y Pwyllgor Addysg a Hyfforddi Ôl-16 ar hyn o bryd. Nid yw'r ymagwedd yn ddigon cydlynol a chyfannol.

Ceir ymdriniaeth eithaf hir yn y ddogfen â'r angen i wella cyflogadwyedd y gweithlu. Mae hynny'n ddilys. Mae arnom angen dynion a benywod sydd â medrau gwell. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod digon o gyfleoedd gwaith i gadw'r bobl hynny yng Nghymru. Ni chyfeirir at hynny yn y ddogfen. Crybwyllir yr angen i ddatblygu cyrsiau newydd i reolwyr drwy'r rhaglen weithredol ond nid oes cyfeiriad at gynlluniau ar gyfer y cyrsiau hyn nac ym mhle y byddant yn digwydd. Mae'r ddogfen yn ein hysbysu bod cyfanswm o '£xx miliwn' i'w ddyrannu ar draws y chwe maes blaenoriaeth. Nid yw hynny'n fawr o welliant ar y drafft blaenorol lle'r awgrymwyd mai un mesurydd o'i effaith fyddai sicrhau bod 'x' y cant o'r oedolion yn meddu ar gymhwyster lefel 3 erbyn 2002.

Efallai y bydd yr Ysgrifennydd yn llenwi'r bylchau hynny wrth ymateb. Mae diffyg difrifol o dargedau yn y ddogfen hefyd. Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, dywedir y gellir datblygu targedau yn unol â'r targedau cenedlaethol. Nid oes targedau penodol ar gyfer defnyddio Amcan 3 yng Nghymru. Mae hynny'n creu cryn anhawster. Dyna pam y caiff rhaglenni gweithredol atodol eu drafftio. Mae llawer o'r mesurau o dan flaenoriaeth 3, dysgu gydol oes a blaenoriaeth 4, hybu datblygiad busnesau, yn cyflwyno syniadau da ar y dechrau ond ni ddatblygir hwy. Er enghraifft, blaenoriaeth 1,

'Mae'r mesur cyntaf, atal diweithdra tymor hir, yn canolbwyntio ar yr unigolion hynny nad ydynt wedi cael eu cyflogi am hyd at 12 mis. Y mae'n cefnogi mesurau gweithredol sydd yn ceisio integreiddio'r grŵp cleient hwn i'r farchnad lafur.'

Ni fyddai neb yn anghytuno â hynny mewn egwyddor, ond heb wybodaeth bellach nid oes modd ffurfio barn resymol a gwybodus ar y modd y byddai mesur o'r fath yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau dynol yng Nghymru a sut y byddai'n ymdrin â'n problemau

address our severe social problems. Without more details on these measures, who can honestly say how east Wales would benefit from the Objective 3 programme? This document gives us no real indication. I welcome the document but I ask you to note my reservations and take my comments as constructive as happened with Helen Mary Jones's.

**Richard Edwards:** In warmly welcoming this document the first thing I should do, especially in view of the constant dirge from the opposition doom and gloom merchants, is applaud the huge achievement of the Labour Government in securing Objective 1 funding for two thirds of the landmass of Wales.

The nationalists said that Labour could not secure Objective 1; a familiar refrain from them. As for the Tories, it is a wonder that they have the gall to utter the words 'match funding' given their abysmal record. The scale of this achievement is all the more impressive because of the demanding deadlines, the need for consultation and the fact that this has taken place alongside the creation of a brand new democratic voice for Wales in the Assembly.

The main need now is to raise awareness of the opportunities provided by European funding to facilitate the development of good projects and not inhibit them. We need to unite in a concerted effort and not snipe from the sidelines. This is a golden opportunity for a step change in Welsh economic prosperity and for an investment in sustainable and fundamental change. Above all, this is a chance to make a big difference to our poorest communities. Our number one priority must be to spread funding equitably, to increase economic cohesion and to give hope and purpose to people and communities who have endured two decades of economic and social blight. That must be done through empowerment and partnership. For example, there are communities such as Milford Haven in my constituency. Milford, Hakin and Hubberston form the largest settlement west of Llanelli and have social and economic problems to match the worst in the Valleys. Male unemployment is nearly 25 per cent,

cymdeithasol difrifol. Heb gael rhagor o fanylion ar y mesurau hyn, pwy all ddweud yn onest sut y bydd dwyrain Cymru yn elwa ar y rhaglen Amcan 3? Nid yw'r ddogfen hon yn nodi hynny mewn gwirionedd. Croesawaf y ddogfen ond gofynnaf ichi nodi f'amheuo a derbyn fy sylwadau fel rhai adeiladol fel y digwyddodd yn achos rhai Helen Mary Jones.

**Richard Edwards:** Wrth estyn croeso cynnes i'r ddogfen hon y peth cyntaf y dylwn ei wneud, yn enwedig yn sgîl tiwn gron pedlerwyr anobaith yr gwrthbleidiau, yw canmol camp enfawr y Llywodraeth Lafur wrth sicrhau arian Amcan 1 i ddwy ran o dair o dir Cymru.

Dywedodd y cenedlaetholwyr na allai Llafur sicrhau Amcan 1; cân gyfarwydd ganddynt hwy. Am y Toriaid, mae'n rhyfedd bod ganddynt yr wyneb i yngan y geiriau 'arian cyfatebol' o gofio eu record echrydus. Mae'r gamp yn fwy fyth oherwydd y terfynau amser anodd, yr angen i ymgynghori a'r ffaith bod hyn wedi digwydd ochr yn ochr â chreu llais democrataidd newydd sbon i Gymru yn y Cynulliad.

Y prif angen yn awr yw codi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd a roddir gan arian Ewrop i hwyluso datblygiad prosiectau da ac nid eu llesteirio. Mae angen inni gydymdrechu ac nid beirniadu o'r ymylon. Mae hyn yn gyfle euraidd i gael newid gwirioneddol yn ffyniant economaidd Cymru ac i fuddsoddi mewn newid cynaliadwy a sylfaenol. Yn anad dim, mae hyn yn gyfle inni wneud gwahaniaeth mawr yn ein cymunedau tlotaf. Rhaid i ni roi'r flaenoriaeth bennaf i ddosbarthu'r arian yn deg, cynyddu cydlynid economaidd a rhoi gobaith a phwrpas i'r bobl a'r cymunedau a ddioddefodd ddau ddegawd o ddiffeithwch economaidd a chymdeithasol. Rhaid gwneud hynny drwy alluogi a phartneriaeth. Er enghraifft, mae yna gymunedau fel Aberdaugleddau yn fetholaeth i. Aberdaugleddau, Hakin a Hubberston yw'r anheddiad mwyaf i'r gorllewin o Lanelli ac mae ganddynt broblemau cymdeithasol ac economaidd sydd gyn waethed â'r rhai yn y



there are households with up to three generations who have never worked and there is grinding poverty. If Objective 1 and the Assembly cannot deliver in Milford Haven, we will have failed badly.

Throughout my constituency there are special needs, both real and perceived, related to rurality and peripherality. We have been waiting for lifelines such as information communications technology, new skills and training, more business enterprise and community regeneration. In the Objective 1 SPD we have a prospectus for a better future for the whole of Wales and a better future for our most needy areas.

**Brian Hancock:** I have been concerned for a long time about the funding being made available for projects. Phil Williams has discussed this. We need John Marek and others to make pleas for projects in their areas. The integrated rail transport scheme from Ebbw Vale via Islwyn into Newport would be of benefit to Blaenau Gwent and Islwyn.

4:30 p.m.

The economist Alfred Marshall likened the economy to the trees of a forest: many trees are born, some die immediately, some only grow a little, but those that grow do so differently. The basic theme is for the forest to grow, sustain and renew itself. In doing so, it supports other life.

The European Commission has identified small and medium-sized enterprises as one of the key sectors to receive structural funds. I welcome the attempt to identify ways in which Wales can use Objective 1 to promote enterprise and local developments by addressing the need to secure adequate support for SMEs. I am pleased that there are serious attempts to deal with entrepreneurship. On the specific measures outlined in the business competitiveness priorities in chapter 3 of the Objective 1

Cymoedd. Mae diweithdra ymysg dynion bron 25 y cant, mae yna deuluoedd lle y ceir hyd at dair cenhedlaeth sydd heb weithio erioed ac mae yna dlodi affwysol. Os na all Amcan 1 a'r Cynulliad fynd â'r maen i'r wal yn Aberdaugleddau, byddwn wedi methu'n arw.

Ym mhob cwr o'm hetholaeth fe geir anghenion arbennig, rhai gwirioneddol a rhai a welir felly, sydd yn ymwneud â gwledigrwydd a byw ar yr ymylon. Buom yn disgwyl am raffau achub fel technoleg cyfathrebu gwybodaeth, medrau newydd a hyfforddi, mwy o fenter mewn busnes ac adfywio cymunedau. Yn nogfen raglennu sengl Amcan 1 mae gennym brospectws ar gyfer gwell dyfodol i Gymru gyfan a gwell dyfodol i'n hardaloedd mwyaf anghenus.

**Brian Hancock:** Bûm yn bryderus ers cryn amser ynghylch sicrhau bod arian ar gael i brosiectau. Mae Phil Williams wedi trafod hyn. Mae arnom angen apeliadau gan John Marek ac eraill am brosiectau yn eu hardaloedd. Byddai'r cynllun trafndiaeth reilffyrdd integredig o Lyn Ebwy drwy Islwyn i Gasnewydd o fudd i Flaenau Gwent ac i Islwyn.

Bu i'r economegydd Alfred Marshall gyffelybu'r economi i goed mewn coedwig: bydd llawer o goed yn egino, bydd rhai'n marw ar unwaith, eraill yn tyfu ond ychydig, ond bydd y rhai sydd yn tyfu yn gwneud hynny mewn modd gwahanol. Y thema sylfaenol yw gweld y goedwig yn tyfu, yn ymgynnal ac yn ymadnewyddu. Wrth wneud hynny, mae'n cynnal ffurfiau bywyd eraill.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dynodi mentrau bach a chanolig yn un o'r prif feysydd sydd i dderbyn arian y cronfeydd strwythurol. Croesawaf yr ymgais i ganfod ffyrdd i Gymru ddefnyddio Amcan 1 i hybu menter a datblygiadau lleol drwy ymdrin â'r angen i sicrhau cefnogaeth ddigonol i fentrau bach a chanolig. Mae'n dda gennyf fod ymdrechion difrifol i ymdrin ag entrepreneuriaeth. Ynglŷn â'r mesurau penodol a amlinellir yn y blaenoriaethau cystadleurwydd busnes ym mhennod 3 yn

single programming document, I ran a small business for seven years before I was elected. We must ensure that money will be targeted at people on the ground to provide them with the practical support and assistance that they need. Business support will give us growth and development. If small businesses, particularly micro businesses, employed one extra person, the employment situation in Wales would be resolved immediately. Small businesses must be supported.

I am keen to ensure that the structures that emerge provide real and practical assistance to SMEs and do so when, where and how the assistance is most needed. In the past, too much effort and money has gone into showy initiatives that received a lot of publicity but brought little, if any, benefit to the men and women trying to run their businesses. The number of small firms in an area is fundamental to the rate at which other new enterprises grow. Success breeds success.

I was pleased that the amendment tabled by Plaid Cymru—the Party of Wales was adopted during last Wednesday's enterprise debate. I read this as I was not present. For those involved in getting European funding up and running, that amendment is significant in helping small businesses to make the most of European funding. The amendment will ensure that an independently managed development bank or similar fund is established early in 2000-2006, which is the European funding period, to help SMEs to access finance when they need it. We must ensure that this is understood by those involved in deciding spending priorities.

From my experience, I also know that there are not nearly enough women and minority entrepreneurs in Wales. As was decided last week, providing sustainable and flexible support for these groups will mean using all appropriate UK and Welsh sources of funding as well as European finance.

nogfen raglennu sengl Amcan 1, bûm yn rhedeg busnes bach am saith mlynedd cyn cael f'ethol. Rhaid inni ymorol y bydd arian yn cael ei dargedu ar bobl yn y maes er mwyn rhoi'r gefnogaeth a'r cymorth ymarferol y mae arnynt eu hangen. Bydd cefnogaeth i fusnesau yn dod â thwf a datblygiad i ni. Pe bai busnesau bychain, yn enwedig microfusnesau, yn cyflogi un gweithiwr ychwanegol, byddai'r sefyllfa cyflogaeth yng Nghymru wedi ei datrys ar unwaith. Rhaid cefnogi busnesau bychain.

Yr wyf yn awyddus i sicrhau y bydd y strwythurau a ddaw i'r golwg yn darparu cymorth gwirioneddol ac ymarferol i fentrau bach a chanolig ac yn gwneud hynny ar yr adeg ac yn y dull a'r lle y mae angen y cymorth fwyaf. Yn y gorffennol, aeth gormod o lawer o ymdrech ac arian i fentrau rhwysgfawr a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd ond na ddaethant ag ond ychydig, os dim, o fantais i'r dynion a'r benywod sydd yn ceisio rhedeg eu busnesau. Mae nifer y busnesau bychain mewn ardal yn hollbwysig i gyfradd twf mentrau newydd eraill. Mae llwyddiant yn magu llwyddiant.

Yr oeddwn yn falch bod y gwelliant a gyflwynwyd gan Blaid Cymru—the Party of Wales wedi'i dderbyn yn ystod y ddaidl ar fenter ddydd Mercher diwethaf. Darllenais am hynny gan nad oeddwn yn bresennol. I'r rhai sydd yn ymwneud â rhoi'r ariannu Ewropeaidd ar waith, mae'r gwelliant hwnnw'n bwysig wrth helpu busnesau bychain i fanteisio i'r eithaf ar arian Ewrop. Bydd y gwelliant yn sicrhau y bydd banc datblygu dan reolaeth annibynnol neu gronfa debyg yn cael ei sefydlu'n gynnar yn 2000-06, sef y cyfnod ariannu Ewropeaidd, i helpu mentrau bach a chanolig i ddefnyddio cyllid pan fydd arnynt ei angen. Rhaid inni sicrhau bod y rhai sydd yn ymwneud â phenderfynu blaenoriaethau gwariant yn deall hynny.

Yr wyf hefyd yn gwybod drwy brofiad nad oes digon o entrepreneuriaid o fenywod ac ymhlith lleiafrifoedd yng Nghymru. Fel y penderfynwyd yr wythnos diwethaf, bydd yn rhaid defnyddio'r holl ffynonellau ariannu priodol yn y DU a Chymru, yn ogystal â chyllid o Ewrop, i ddarparu cefnogaeth

gynladwy a hyblyg i'r grwpiau hyn.

**Brian Gibbons:** I will curtail some of my comments because others are queuing up to speak. The previous draft of the SPD was justly criticised because of the scarcity of references to health issues, not least because health has been one of the crosses and bitter legacies that people in Wales have had to carry for the last century. If that criticism was legitimate about the previous document, it is not true of this improved document. Unless people believe that health is about building hospitals and employing doctors and nurses, this document does address the main issues. Paragraph 7.4 in annex A acknowledges that the underlying reasons for the relatively poor health of the Welsh population are thought to include a combination of relative socio-economic deprivation; occupational history; high unemployment; poor housing; a polluted environment; higher prevalence of unhealthy lifestyles and a poor diet. The first five of those reasons are addressed directly by this document. There is ample evidence to suggest that if these five are addressed then the last two are more easily dealt with.

There are many references to the importance of health in the document. I counted 24 before I stopped. That emphasises the importance and desirability of having a healthy workforce. The document also points out that work and lifelong training should contribute to a healthy and productive working life and pays attention to the importance of people with long-term disabilities. The document notes that 11.5 per cent of people have permanent disabling conditions in the Objective 1 area compared to 8 per cent in east Wales and 6 per cent in the UK. Recognising this high prevalence of chronic disabling illness shows that efforts have to be made, not only to allow these people to become gainfully employed but to be able to become enterprising entrepreneurs.

Other provisions targeted at social and economic regeneration will have undoubted health benefits: the renewal of our communities, outlined in priority 3, will have

**Brian Gibbons:** Yr wyf am dalffyrnu rhai o'm sylwadau am fod eraill yn disgwyl eu tro i siarad. Cafwyd beirniadaeth gyfiawn ar ddrafft blaenorol y ddogfen raglennu sengl oherwydd prinder y cyfeiriadau at faterion iechyd, yn bennaf am mai iechyd yw un o'r beichiau a'r cymynroddion chwerau y bu'n rhaid i bobl Cymru eu cario dros y ganrif ddiwethaf. Os oedd y feirniadaeth ar y ddogfen flaenorol yn briodol, nid yw'n wir am y ddogfen amgenach hon. Oni bai fod pobl yn credu bod iechyd yn gyfystyr ag adeiladu ysbytai a chyflogi meddygon a nyrsys, mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r prif faterion. Mae paragraff 7.4 yn atodiad A yn cydnabod y gred bod y rhesymau sylfaenol am iechyd cymharol wael pobl Cymru yn cynnwys cyfuniad o amddifadedd cymdeithasol-economaidd cymharol; hanes galwedigaethol; diweithdra uchel; tai gwael; amgylchedd llygredig; cyfran uwch o bobl â chanddynt ffordd llai iach o fyw ac ymborth gwael. Ceir ymdriniaeth uniongyrchol â'r pum cyntaf o'r rhesymau hynny yn y ddogfen hon. Mae digon o dystiolaeth i awgrymu y gellir trin y ddau reswm olaf yn rhwyddach os rhoddir sylw i'r pum rheswm hynny.

Ceir llawer o gyfeiriadau yn y ddogfen at bwysigrwydd iechyd. Cyfrifais 24 cyn rhoi'r gorau iddi. Mae hynny'n pwysleisio mor bwysig a dymunol yw cael gweithlu iach. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi y dylai gwaith a hyfforddiant gydol oes gyfrannu at fywyd gwaith iach a chynhyrchiol ac yn rhoi sylw i bwysigrwydd pobl sydd ag anableddau tymor-hir. Mae'r ddogfen yn nodi bod 11.5 y cant o bobl â chyflwr anabledd parhaol yn rhanbarth Amcan 1 o'i gymharu ag 8 y cant yn nwyrain Cymru a 6 y cant yn y DU. Mae'r gydnabyddiaeth i amllder uchel y salwch o anablu hirfaith yn dangos bod rhaid ymdrechu, nid yn unig i ganiatáu i'r bobl hyn gael gwaith cyflogedig, ond i'w galluogi i fentro fel entrepreneuriaid.

Mae darpariaethau eraill er mwyn adfywiad cymdeithasol ac economaidd yn sicr o fod o fantais i iechyd: mae goblygiadau mawr yn y bwriad i adnewyddu ein cymunedau, a

major implications for people living in the areas of greatest poor health; provisions for childcare will lessen the social and cultural isolation that affect many of our marginalised citizens; providing work and integrating people into work and society will address the social disintegration that is a major factor in the poor health of many young adults, as highlighted in a recent issue of the *British Medical Journal*. The last point also relates to the poor mental health seen in our agricultural communities in particular where there is concern about suicide among farmers. The document's attention to addressing pollution and cleaning up the environment will have a positive health outcome as will attention to transport and improving access to information technology.

The Labour Party has given the Assembly a mandate to address education, health and economic renewal. I was pleased to see the First Secretary give a clear commitment that the Labour Party will deliver on all three without compromising one in favour of another.

**Huw Lewis:** I hope that we will have our SPD and a skeleton for the delivery of the Objective 1 project for Wales by the end of this debate. The project was delivered by twin midwives, Labour in Westminster and Labour in Cardiff. This is our once in a lifetime opportunity to turn around the life chances of people in the Valleys and west Wales. As an Assembly and as individual Members must work at local and national levels to develop projects and ideas to draw down the funding. We must show leadership, the most courageous and selfless political act. The opposition parties need to ponder that as they consider the strategies that they have employed over the last few weeks.

Ideas, projects and morale are what matter. All of the other Objective 1 areas in Europe have found their greatest difficulty with that, not match funding. The Highlands and

amlinellir ym mlaenoriaeth 3, i bobl sydd yn byw yn yr ardaloedd lle y ceir y mwyaf o iechyd gwael; bydd darpariaethau ar gyfer gofal plant yn lleihau'r arwahanu cymdeithasol a diwylliannol sydd yn effeithio ar lawer o ddinasyddion sydd ar yr ymylon; bydd darparu gwaith a chynnwys pobl mewn gwaith a chymdeithas yn ymdrin â'r chwalfa gymdeithasol sydd yn ffactor o bwys yn iechyd gwael llawer o oedolion ifainc, fel y dangoswyd mewn rhifyn diweddar o'r *British Medical Journal*. Mae'r pwynt diwethaf yn ymwneud hefyd â'r iechyd meddwl gwael a welir yn ein cymunedau amaethyddol yn enwedig lle y ceir pryder am hunanladdiad ymysg ffermwyr. Bydd y sylw a roddir yn y ddogfen i ymdrin â llygredd a glanhau'r amgylchedd yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd, a hefyd y sylw a roddir i sicrhau ei bod yn haws cael defnyddio technoleg gwybodaeth.

Mae'r Blaid Lafur wedi rhoi mandad i'r Cynulliad i ymdrin ag addysg, iechyd ac adnewyddu economaidd. Yr oedd yn dda gennyf weld y Prif Ysgrifennydd yn rhoi ymrwymiad pendant y bydd y Blaid Lafur yn cyflawni'r addewid ar bob un o'r tri heb beryglu un er mwyn y llall.

**Huw Lewis:** Gobeithiaf y bydd y ddogfen raglennu sengl gennym a'r fframwaith i gyflawni'r prosiect Amcan 1 er mwyn Cymru erbyn diwedd y ddadl hon. Yr oedd y prosiect wedi ei esgor gan ddwy fydwraig, Llafur yn San Steffan a Llafur yng Nghaerdydd. Hwn yw'r cyfle unwaith mewn oes i drawsnewid cyfleoedd bywyd pobl y Cymoedd a gorllewin Cymru. Fel Cynulliad ac fel Aelodau unigol, rhaid inni weithio ar lefelau lleol a chenedlaethol i ddatblygu prosiectau a syniadau er mwyn ymestyn am yr arian. Rhaid inni ddangos arweiniad, sef y weithred wleidyddol fwyaf eofn ac anhunanol. Mae angen i'r gwrthbleidiau gnoi cil ar hynny wrth iddynt ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt dros yr wythnosau diwethaf hyn.

Syniadau, prosiectau a morâl yw'r hyn sydd yn cyfrif. Dyna'r anhawster mwyaf a gafodd ardaloedd Amcan 1 eraill yn Ewrop, nid arian cyfatebol. Mae Ucheldiroedd ac

Islands and Merseyside are examples of this. Our challenge is not to carp about when we will see the cheque, Phil Williams, and not to talk down our chances in order to take a pop at the Labour Administration as the Tories did. It is time to energise, organise and think with ambition. We need sustainable projects.

4:40 p.m.

We must realise that the people of Wales, particularly in the Valleys and west Wales, are not just an audience to this process. They are not looking at some kind of performance in this Chamber who can deliver the best smart Alec line. The people of Wales are not an audience, they are participants. They are 'it' in terms of what happens with Objective 1. Next time we have a debate on Objective 1, let us talk about ideas and projects at local and national levels, and I challenge the opposition to come up with a better idea. Do not come up with some way of denigrating the project as a whole. Everything else is a waste of time, and is just perfume on a pig.

**Rhodri Morgan:** One of the curiosities of democratic forms of government—even a fledgling one like this—is that you can move from blood and thunder and thud and blunder in an earlier debate to a debate on a far more important and practical issue the next minute. If the earlier debate was not all sweetness and light, I think that there is a general desire in all four corners of the Assembly today to achieve as close to unity as possible in support of these documents. We know that the 3 million people in Wales—the two thirds of them who live in the Objective 1 areas and the one third who do not—are all giving us the same message: 'Do not mess up on this one'.

Although we are asking for the Assembly's approval of the document in its present state so that it is in Brussels on 31 October, that is not the end of the story. There will be a five-month period of negotiation with the Commission on the details and we have not yet established the shadow monitoring

Ynnysoedd yr Alban a Glannau Merswy yn enghreifftiau o hynny. Y sialens i ni yw peidio ag achwyn ynghylch pryd y gwelwn y siec, Phil Williams, a pheidio â bychanu ein cyfleoedd er mwyn anelu ergyd at y Weinyddiaeth Lafur fel y gwnaeth y Torïaid. Mae'n bryd ymagnïo, trefnu a meddwl yn uchgeisiol. Mae arnom angen prosiectau cynaliadwy.

Rhaid inni sylweddoli bod pobl Cymru, yn enwedig yn y Cymoedd a gorllewin Cymru, yn fwy na dim ond cynulleidfa i'r broses hon. Nid ydynt yn gwyllo rhyw fath o berfformiad yn y Siambr i weld pwy sydd yn gallu dweud y peth mwyaf clyfar. Nid cynulleidfa mo pobl Cymru, maent yn cymryd rhan. Hwy yw'r peth pwysicaf o ran yr hyn sydd yn digwydd gydag Amcan 1. Y tro nesaf y cawn ddadl ar Amcan 1, gadewch inni siarad am syniadau a phrosiectau ar lefelau lleol a chenedlaethol, a heriaf y gwrthbleidiau i gyflwyno syniad gwell. Peidiwch â dyfeisio rhyw ffordd o fychanu'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Gwastraff amser yw popeth arall, yn ddim ond persawr ar fochyn.

**Rhodri Morgan:** Un o hynodion ffurfiau llywodraeth democrataidd—hyd yn oed un newydd fel hon—yw bod modd symud o golli gwaed a gweiddi mewn dadl gynharach i ddadl ar fater llawer mwy pwysig ac ymarferol y funud nesaf. Os nad oedd y ddadl gynharach yn fêl i gyd, credaf fod awydd cyffredinol ym mhedwar cornel y Cynulliad heddiw i fod mor gytûn â phosibl wrth gefnogi'r dogfennau hyn. Gwyddom fod y tair miliwn o bobl yng Nghymru—y ddwy ran o dair sydd yn byw yn ardaloedd Amcan 1 a'r un rhan o dair nad ydynt—i gyd yn rhoi'r un neges i ni: 'Peidiwch â gwneud llanast o hyn'.

Er ein bod yn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r ddogfen ar ei ffurf bresennol fel y gall fod ym Mrwsel ar 31 Hydref, nid dyma ddiwedd y stori. Bydd cyfnod o bum mis o drafodaethau gyda'r Comisiwn ar y manylion ac nid ydym wedi sefydlu'r pwyllgor monitro cysgodol hyd yn hyn.

committee. We must satisfy all the different stakeholders in Wales on how we establish that committee. We intend to do that roughly along the lines that Val Feld mentioned earlier because I believe that that would meet commendation from virtually everybody in this room.

The details will be fleshed out by the monitoring committee. That applies to the Objective 1 document for the two thirds of Wales that are in Objective 1 areas. It also applies, Jocelyn Davies, to the Objective 3 document. When you have established your monitoring committee, the details of the programmes will start to emerge. The technical term is the programme complement, not a term that I particularly like. That is when you start discussing whether you will implement railway schemes from Ebbw Vale to Newport to Cardiff, or electrify the railway from Crewe to Holyhead.

I hope that one of the side-effects of this debate, although that is not its ostensible purpose, will be to trawl for ideas. Many people have mentioned this before. Ideas will emerge not only through the roadshows organised by the Economic Development Committee, which many people here took part in, but also through the publicity generated when people start asking questions. They will ask what we can do to improve childcare facilities throughout Wales to improve access to work for women returners, sometimes men returners, and what we can do to develop higher value-added industries whether that be software engineering, the processing of organic food grown in the Welsh countryside or whatever.

We cannot start firming up those ideas today, but I hope that they will start to ferment among the Welsh public so that by the time the monitoring committee is established we have as many ideas as the budget can just about cope with. We must try to get a budget based on what is available from the European Commission and what we think will be available from the private sector and the

Rhaid inni fodloni pob un o'r cyfranddeiliaid gwahanol yng Nghymru ynghylch y modd y byddwn yn sefydlu'r pwyllgor hwnnw. Bwriadwn wneud hynny yn fras yn ôl yr hyn a amlinellwyd gan Val Feld yn gynharach oherwydd credaf y byddai bron pawb yn yr ystafell hon yn cymeradwyo hynny.

Bydd y pwyllgor monitro yn gwisgo cnawd am y manylion. Mae hynny'n berthnasol i'r ddogfen Amcan 1 ar gyfer y ddwy ran o dair o Gymru sydd yn ardaloedd Amcan 1. Mae hefyd yn berthnasol, Jocelyn Davies, i'r ddogfen Amcan 3. Ar ôl sefydlu'r pwyllgor monitro, bydd manylion y rhaglenni'n dechrau dod i'r golwg. Y term technegol yw dogfen ategol y rhaglen, er nad yw'n derm yr wyf yn arbennig o hoff ohono. Dyna pryd y dechreuwch drafod a ydych am weithredu cynlluniau rheilffyrdd o Lyn Ebwy i Gasnewydd i Gaerdydd, neu drydaneiddio'r rheilffordd o Crewe i Gaerdybi.

Gobeithiaf mai un o sgîl-ffeithiau'r ddadl hon, er nad hynny yw ei phwrpas honedig, fydd pysgota am syniadau. Mae llawer o bobl wedi sôn am hyn o'r blaen. Daw syniadau i'r golwg nid yn unig drwy'r sioeau pen ffordd a drefnwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd, y bu i lawer o bobl gymryd rhan ynddynt, ond hefyd drwy'r cyhoeddusrwydd a greir pan fydd pobl yn dechrau gofyn cwestiynau. Byddant yn holi am yr hyn y gallwn ei wneud i wella cyfleusterau gofal plant drwy Gymru er mwyn hwyluso'r ffordd i fenywod ddychwelyd i weithio, a dynion ddychwelyd i weithio weithiau, a beth y gallwn ei wneud i ddatblygu diwydiannau â gwerth ychwanegol uwch, boed hynny ym maes peirianeg meddalwedd, prosesu bwyd organig a dyfir yng nghefn gwlad Cymru neu beth bynnag.

Ni allwn ddechrau datblygu'r syniadau hynny heddiw, ond gobeithiaf y byddant yn dechrau eplesu ymhlith y cyhoedd yng Nghymru fel y bydd gennym gymaint o syniadau ag y gall y gyllideb ddygymod â hwy erbyn sefydlu'r pwyllgor monitro. Rhaid inni geisio cael cyllideb sydd yn seiliedig ar yr hyn sydd ar gael oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd a'r hyn y credwn y bydd ar gael

match funding that we will seek from the Treasury for the years of the spending review and the second spending review. We are talking about seven years although we have said that we have just about the right amount of money for the likely level of expenditure in year one. I believe that most people accept that now. There may be arguments about this but we believe that we have year one right. Beyond that, it is not in the lap of the gods but in the lap of the Treasury.

I will answer the questions raised by Mike German about whether private sector funding can be substituted for public sector match funding. He, or it may have been the Conservative spokesman, implied that we have an argument with the European Commission. That is not true. The Treasury has an argument with the European Commission about whether or not public sector match funding can be substituted for private sector funding. We are interested observers but it is a matter between the Treasury and the European Commission. We want to see flexibility. We do not want to see the programme prejudiced by the argument continuing for too long but we believe it will be resolved. We have had to make our estimate on how much public sector expenditure is to be included in the dreaded table 32, which has been referred to time and again, on the basis of a best guess. We do not yet know the outcome of the argument between the Treasury and the European Commission. That is the explanation for some of the argument that has been so far.

I now turn to comments that have been made in the debate. I will get through as many as I can before I return to the issue of recommendations to the Labour Members present. I refer to an important point raised by Mike German on the question of why the proportion of the total budget is not higher on the employability front than it is at the moment. A split must be made. The Irish split was 40 per cent on the human resources side and ours is lower than that. The European Commission is not keen on high expenditure on infrastructure and especially

oddi wrth y sector preifat a'r arian cyfatebol y byddwn yn ei geisio gan y Trysorlys ar gyfer blynyddoedd yr adolygiad o wariant a'r ail adolygiad o wariant. Yr ydym yn sôn am saith mlynedd er ein bod wedi datgan bod gennym y swm iawn o arian bron ar gyfer y lefel gwariant debygol ym mlwyddyn un. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl yn derbyn hynny erbyn hyn. Efallai y bydd dadleuon ynghylch hynny ond credaf fod blwyddyn un yn iawn gennym. Ar ôl hynny, nid yn nwylo'r duwiau y mae ond yn nwylo'r Trysorlys.

Atebaf y cwestiynau a godwyd gan Mike German ynghylch a ellir cyfnwid arian sector preifat am arian cyfatebol y sector cyhoeddus. Yr oedd ef, neu efallai mai'r llefarydd Ceidwadol ydoedd, wedi awgrymu ein bod mewn dadl â'r Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw hynny'n wir. Mae'r Trysorlys mewn dadl â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch a ellir amnewid arian cyfatebol y sector cyhoeddus am arian y sector preifat. Mae gennym ddiddordeb fel sylwebyddion ond mater rhwng y Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd ydyw. Yr ydym am weld hyblygrwydd. Nid ydym am weld peryglu'r rhaglen drwy ymestyn y ddadl yn rhy hir ond credwn y caiff ei datrys. Bu'n rhaid inni wneud ein hamcangyfrifon ynghylch faint o wariant y sector cyhoeddus sydd i'w gynnwys yn y tabl 32 arswydlon y cyfeiriwyd ato dro ar ôl tro, ar sail y dyfaliad gorau. Ni wyddom eto am ganlyniad y ddadl rhwng y Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd. Dyna egluro rhywfaint o'r dadlau a gafwyd hyd yn hyn.

Trof yn awr at sylwadau a wnaethpwyd yn y ddadl. Trafodaf gymaint ohonynt ag y gallaf cyn dychwelyd at fater yr argymhellion i'r Aelodau Llafur sydd yn bresennol. Cyfeiriai at bwynt pwysig a godwyd gan Mike German ynghylch pam nad yw'r gyfran o'r gyllideb gyfan yn uwch o ran cyflogadwyedd nag ydyw ar hyn o bryd. Rhaid wrth rannu. Yn Iwerddon 40 y cant oedd y rhanriad ar yr ochr adnoddau dynol ac mae'n cyfran ni yn llai na hynny. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn awyddus i weld gwario mawr ar isadeiledd ac nid ar draffyrdd mawr a'u tebyg yn enwedig.

not on large-scale motorways and the like. Few firm ideas came from the taskforce, in spite of the vast number of stakeholders, on how much money should be spent and in which areas. The split that you see before you was devised in the usual conventional British Government way. From the officials it came to the Ministers who took the decision and approved the split through Cabinet. The split can be contested and can be changed by negotiation with the Commission. It is not set in concrete. We will see the final split after much negotiation. We had to decide on it ourselves as there was not a strong recommendation from the taskforce. That is understandable since the task force comprises 40 or 50 people who have their own pet lobbies and who, when they spoke, were accused of being influenced by their own interests. In the end, we have had to make a decision ourselves based on our previous experience of the European regional development fund and European structural funds and what the split was there between infrastructure and resources. We have looked at the Irish experience and the Merseyside experience and have made up our own minds, subject to negotiation with the Treasury.

I was grateful to Phil Williams for the words of commendation on how much improvement there has been in the document. They were in the constructive spirit in which this debate is being taken forward today. We are aware of the question of how local the partnership should be and how big the share of the local and national partnerships should be. This is to be determined as we set up the shadow machinery between now and next April when we hope the first real decisions will be made. I agree with Phil that history will condemn us all if we get this wrong. By the end of 2006-07, when this programme has finished, Eastern Europe will be in and we will be out, not in the sense that Alun Cairns means which is out of the European Union, but out of the assisted areas of the European Union. I must clarify that point. There are conspiracy theorists who have doubts about the first year expenditure and the £35 million. That money has been rolled forward and is in addition to the £19 million in the baseline budget and the

Prin oedd y syniadau pendant a ddaeth o'r tasglu, er gwaethaf y nifer enfawr o gyfranddeiliaid, ynghylch faint o arian y dylid ei wario ac ym mha feysydd. Mae'r rhaniad a welwch o'ch blaen wedi ei ddyfeisio yn ôl dull arferol Llywodraeth Prydain. Daeth o'r swyddogion i'r Gweinidogion a wnaeth y penderfyniad ac a gymeradwyodd y rhaniad drwy'r Cabinet. Gellir herio'r rhaniad a'i newid drwy drafod â'r Comisiwn. Nid yw'n ddigyfnewid. Bu'n rhaid inni benderfynu arno ein hunain gan na ddaeth argymhelliad cryf gan y tasglu. Hawdd deall hynny gan fod y tasglu'n cynnwys 40 neu 50 o bobl â'u diddordebau arbennig eu hunain a gyhuidd, pan siaradent, o fod dan ddylanwad eu buddiannau eu hunain. Yn y diwedd, bu'n rhaid i ni benderfynu ein hunain ar sail ein profiad blaenorol o'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd a chronfeydd strwythurol Ewrop a beth oedd y rhaniad yn y fan honno rhwng isadeiledd ac adnoddau. Yr ydym wedi edrych ar brofiad Iwerddon a phrofiad Glannau Merswy ac wedi penderfynu drosom ni ein hunain, yn amodol ar drafodaeth gyda'r Trysorlys.

Yr oeddwn yn ddiolchgar i Phil Williams am y gair o glod am y gwelliant a fu yn y ddogfen. Yr oeddynt yn gydnaws â'r ysbryd adeiladol a gafwyd wrth ddatblygu'r ddadl hon heddiw. Yr ydym yn ymwybodol o'r cwestiwn ynghylch pa mor lleol y dylai'r bartneriaeth fod a pha mor fawr y dylai'r gyfran o'r partneriaethau lleol a chenedlaethol fod. Mae hyn i'w benderfynu wrth inni sefydlu'r peirianwaith cysgodol o hyn tan fis Ebrill nesaf pryd y gobeithiwn gael y penderfyniadau gwirioneddol cyntaf. Cytunaf â Phil y bydd hanes yn ein collfarnu i gyd os gwnawn hyn yn anghywir. Erbyn diwedd 2006-07, pan ddaw'r rhaglen hon i ben, bydd Dwyrain Ewrop i mewn a byddwn ninnau allan, nid yn yr ystyr sydd gan Alun Cairns sef y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ond y tu allan i ardaloedd a gynorthwyr yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid imi egluro'r pwynt hwnnw. Mae yna ddamcaniaethwyr cynllwynion sydd yn amheus ynghylch gwariant y flwyddyn gyntaf a'r £35 miliwn.



overhang of unspent money from European regional development fund budgets—

Mae'r arian hwnnw wedi ei ddwyn ymlaen ac mae'n ychwanegol i'r £19 miliwn yn y gyllideb waelodlin a'r bargodiad o arian nas gwariwyd o gyllidebau cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd—

4:50 p.m.

**Alun Cairns:** Would you refute the misleading comments possibly made to the press suggesting that the £35 million was new money?

**Alun Cairns:** A ydych yn fodlon gwrthbrofi'r sylwadau camarweiniol, o bosibl, i'r wasg sydd yn awgrymu bod y £35 miliwn yn arian newydd?

**Rhodri Morgan:** It is new money if it has been rolled forward so that it is now available. The underspend that we can carry forward is greater by £35 million than it would have been otherwise. That is the advice given by the Welsh Office chief finance office.

**Rhodri Morgan:** Mae'n arian newydd os yw wedi ei ddwyn ymlaen fel ei fod ar gael yn awr. Mae'r tanwariant y gallwn ei ddwyn ymlaen £35 miliwn yn fwy na'r hyn a fyddai fel arall. Dyna'r cyngor a roddwyd gan brif swyddfa gyllid y Swyddfa Gymreig.

**Alun Cairns** *rose*—

**Alun Cairns** *a gododd*—

**Rhodri Morgan:** I cannot take another intervention as time is pressing. It is more important whether we get the right number of projects to match the resources and vice versa. It is a guessing game on both sides. We think that about £75 million will be available for spending in the first year as money out the door. Of this money, £50 million will be for ERDF programmes, leaving £25 million to be got out of the door on new programmes approved under the Objective 1 programme.

**Rhodri Morgan:** Ni allaf dderbyn ymyriad arall gan fod yr amser yn brin. Mater pwysicach yw a fyddwn yn cael y nifer iawn o brosiectau i gyfateb i'r adnoddau a *vice versa*. Mae'n gêm o ddyfalu ar y ddwy ochr. Yr ydym yn credu y bydd tua £75 miliwn ar gael i'w wario yn y flwyddyn gyntaf fel arian drwy'r drws. Bydd £50 miliwn o'r arian hwn ar gyfer rhaglenni'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd, gan adael £25 miliwn i'w yrru drwy'r drws ar raglenni newydd a gymeradwyir o dan y rhaglen Amcan 1.

Others will say that we should be able to spend £150 million in the first year as money out of the door, and not just commitment. Neither we nor our officials think this is realistic, based on previous experience. Merseyside did not spend any funds in the first year and neither did the Highlands and Islands. That is also the explanation for the complaint made by one speaker this afternoon that we were not being more ambitious on the Objective 2 programmes. Why was there no expenditure allowed—

Fe ddywed eraill y dylem allu gwario £150 miliwn yn y flwyddyn gyntaf fel arian drwy'r drws, ac nid fel ymrwymiad yn unig. Nid ydym ni na'n swyddogion yn credu bod hyn yn ymarferol, ar sail profiad blaenorol. Ni wariodd Glannau Merswy unrhyw gyllid yn y flwyddyn gyntaf na'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd chwaith. Dyna hefyd ateb i gwyn un siaradwr brynhawn heddiw nad oeddem yn fwy uchelgeisiol ynghylch rhaglenni Amcan 2. Pam na chaniatawyd gwariant—

**Alun Cairns** *rose*—

**Alun Cairns** *a gododd*—

**The Presiding Officer:** Order. There is no

**Y Llywydd:** Trefn. Nid oes amser i dderbyn

time for interventions. We have a short debate and there may be a vote.

**Rhodri Morgan:** No expenditure is allowed for in the Objective 2 new programme next year as the programme has not yet been agreed. The areas that it will cover have not yet been finally agreed. Therefore, our officials again take the view that, although there will be commitment, it is unlikely that there will be any expenditure going out of the door in the first year, beginning on 1 April next year.

I have mentioned John Marek and the railway project and Brian Hancock likewise.

Atebaf yn awr gwestiwn Elin Jones ynglŷn â'r modd y byddwn yn gweinyddu'r rhaglen ac ym mha le y bydd y pencadlys. Nid oes bwriad cau'r swyddfeydd presennol ym Machynlleth a Chwm Cynon, er na allaf glymu dwylo pwy bynnag a fydd yn gweinyddu'r strwythur newydd. Derbyniwn fod yn rhaid wrth strwythur newydd ond mae'n annhebyg y bydd unrhyw un yn dymuno cau'r swyddfeydd hyn.

Byddwn yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am weinyddu'r gronfa gymdeithasol os yw'r amodau'n iawn. Mae hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr. Maent hwy am inni dderbyn y cyfrifoldeb a byddwn yn hapus i wneud hynny ar delerau rhesymol. Mae angen trafodaeth ofalus i sicrhau nad ydym ar ein colled.

Mae'n bwysig inni sefydlu pwyllgor monitro, ar ffurf gysgodol i ddechrau. Bydd yn rhaid i'r pwyllgor gael ei sefydlu erbyn Ebrill y flwyddyn nesaf.

I heard Janice Gregory and Richard Edwards's pleas about the extreme levels of poverty in their constituencies. We must ask why we have Objective 1 in those areas. There are perhaps parts of the Objective 1 areas that are worse off than others and we must decide what to do about this. These include areas such as Pembrokeshire and the central valleys of the former Mid Glamorgan that are bad even by Objective 1 standards, with 65 per cent rather than 75 per cent of

ymyriadau. Mae gennym ddadl fer ac mae'n bosibl y bydd pleidlais.

**Rhodri Morgan:** Nid oes lle i wariant yn y rhaglen Amcan 2 newydd y flwyddyn nesaf am nad yw'r rhaglen wedi ei chytuno eto. Ni chytunwyd yn derfynol ar yr ardaloedd a gynhwysir ynddi. Felly, er y bydd ymrwymiad, barn ein swyddogion eto yw ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw wariant drwy'r drws yn y flwyddyn gyntaf, sydd yn dechrau 1 Ebrill y flwyddyn nesaf.

Soniais am John Marek a'r prosiect rheilffyrdd a Brian Hancock yr un modd.

I will now answer Elin Jones's question regarding the way in which we will administrate the programme and the location of the headquarters. There is no intention to close existing offices in Machynlleth and the Cynon Valley, although I cannot bind the hands of whomever will be running the new structure. We accept that we must have a new structure but it is unlikely that anyone will wish to close these offices.

I would be willing to accept responsibility for the administration of the social fund if the conditions are right. This makes much more sense. They want us to accept the responsibility and we I would be happy to do so on reasonable terms. Careful discussion is needed to ensure that we do not lose out.

It is important that we establish a monitoring committee, in shadow form initially. The committee must be established by April of next year.

Clywais apeliadau Janice Gregory a Richard Edwards ynghylch y lefelau tlodi eithafol yn eu hetholaethau. Rhaid i ni ofyn pam y mae Amcan 1 gennym yn yr ardaloedd hynny. Mae'n bosibl eu bod yn rhannau o'r ardaloedd Amcan 1 sydd yn waeth eu byd nag eraill a rhaid inni benderfynu beth i'w wneud ynghylch hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd fel Sir Benfro a chymoedd canolog cyn gynghorau-sir Morgannwg Ganol sydd yn ddrwg hyd yn

the European GDP per capita. We have six months to develop programme ideas on this. I will not mention Objective 2 as we are not dealing with that this afternoon. Jane Hutt and I visited the Vale of Glamorgan offices and there will be further negotiations to explain what else is available. However, it is not a subject for debate today.

Helen Mary Jones emphasised the importance of equality of opportunity and sustainable development. Those are the absolute cornerstones that have come out of left field from the European Commission. If you do not meet the Commission's requirements on those issues, regardless of what Alun Cairns might think, you will not get any money from Europe. We must accept that, even if we do not want to.

I mentioned that we approve of Val's idea on the monitoring committee's composition. Objective 1 will enable us to unite Wales by bringing the lagging areas up to the standard of living in the rest of Wales and the whole of Wales up to the standard of living throughout western Europe. If Objective 1 is successful, it will enable Wales to flower as never before.

We will recommend voting against the first amendment by Mike German and Alun Cairns because it mentions the national curriculum. We are not against the idea but it is premature in the light of ongoing negotiations between ACCAC and the WDA. Chris Chapman spoke about this issue last week and we have no problem with it but it is premature to start tying the hands of ACCAC, Rosemary Butler and the Under-16 Education Committee, which is in charge of schools. We cannot tell it what to do.

We will abstain on the amendment supported by the three economic development spokesmen from the other parties. We are not against the sentiment but it is not right tactically to link the content of that

oed yn ôl safonau Amcan 1, gyda 65 y cant yn hytrach na 75 y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y pen Ewrop. Mae gennym chwe mis i ddatblygu syniadau i'r rhaglen ar hynny. Ni soniaf am Amcan 2 gan nad ydym yn ymdrin â hynny brynhawn heddiw. Mae Jane Hutt a minnau wedi ymweld â swyddfeydd Bro Morgannwg a bydd trafodaethau pellach i egluro beth bynnag arall sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw hyn yn fater i'r ddadl heddiw.

Pwysleisiodd Helen Mary Jones mor bwysig yw cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn gonglfeini hanfodol a ddaeth yn annisgwyl oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. Os na chyflawnwch ofynion y Comisiwn ar y materion hyn, beth bynnag yw barn Alun Cairns, ni chewch unrhyw arian o Ewrop. Rhaid inni dderbyn hynny, hyd yn oed os nad ydym yn dymuno gwneud.

Soniais ein bod yn cymeradwyo syniad Val ar fonitro cyfansoddiad y pwyllgor monitro. Bydd Amcan 1 yn ein galluogi i uno Cymru drwy godi'r ardaloedd sydd ar ei hôl hi i safon byw gweddill Cymru a chodi Cymru gyfan i'r safon byw a geir drwy orllewin Ewrop. Os bydd Amcan 1 yn llwyddo, bydd Cymru'n gallu ffynnu'n fwy nag erioed o'r blaen.

Byddwn yn argymhell pleidleisio'n erbyn y gwelliant cyntaf gan Mike German ac Alun Cairns am ei fod yn crybwyll y cwricwlwm cenedlaethol. Nid ydym yn gwrthwynebu'r syniad ond mae'n gynamserol yng ngoleuni'r trafodaethau sydd yn mynd ymlaen rhwng ACCAC ac Awdurdod Datblygu Cymru. Siaradodd Chris Chapman am y mater hwn yr wythnos diwethaf ac nid oes gennym wrthwynebiad iddo ond mae'n rhy fuan i ddechrau clymu dwylo ACCAC, Rosemary Butler a'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, sydd â gofal am ysgolion. Ni allwn ddweud wrtho beth i'w wneud.

Byddwn yn ymatal ar y gwelliant a gefnogir gan y tri llefarydd ar ddatblygu economaidd y pleidiau eraill. Nid ydym yn erbyn y teimlad sydd ynddo ond nid yw'n briodol yn dactegol i gysylltu cynnwys y gwelliant

amendment with the motion and make the submission to Brussels conditional on it. We have tried to maximise our unity in spite of our party political differences because Wales will not forgive us if we get it wrong.

**The Presiding Officer:** We will now vote on the first amendment standing in the names of Mike German and Alun Cairns.

*A vote was held by show of hands.  
Amendment rejected.*

**The Presiding Officer:** We will now vote on the second amendment standing in the names of Phil Williams, Alun Cairns and Mike German.

*A vote was held by show of hands.  
Amendment adopted.*

**The Presiding Officer:** We will now vote on the amended motion, that the Assembly:

*notes with approval the draft Single Programming Document for the West Wales and the Valleys Objective 1 area, and the draft Operational Programme for the East Wales Objective 3 area, laid in the Table Office on 13 October 1999;*

*authorises the First Secretary to arrange for their submission to the European Commission by 29 October 1999, with such amendments as may strictly be necessary to meet the Commission's technical requirements;*

*requests the First Secretary at the earliest opportunity to place before the Assembly, in English and in Welsh, the final texts of the documents submitted to the Commission;*

*welcomes the annual commitment of public expenditure published in Table 3.2 of the Objective 1 Single Programming Document and recognises that if the total budget indicated in this table, together with the budgets that will be allocated to Objectives 2 and 3, are effectively used according to the priorities presented in the Single Programme Document, this will lead to the economic and social regeneration of Wales;*

hwnnw â'r cynnig gan wneud y cyflwyniad i Frwsel yn amodol arno. Yr ydym wedi ceisio cael y cytundeb ehangaf posibl er gwaethaf ein gwahaniaethau pleidiol oherwydd ni fydd Cymru'n maddau i ni os methwn.

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliant cyntaf a gyflwynwyd yn enwau Mike German ac Alun Cairns.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Gwrthodwyd y gwelliant.*

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar yr ail welliant a gyflwynwyd yn enwau Phil Williams, Alun Cairns a Mike German.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y gwelliant.*

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig wedi'i ddiwygio, bod y Cynulliad:

*yn nodi gyda chymeradwyaeth y Ddogfen Raglennu Sengl ddrafft ar gyfer ardal Amcan 1 y Gorllewin a'r Cymoedd a'r Rhaglen Weithredu ddrafft ar gyfer ardal Amcan 3 y Dwyrain, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 1999;*

*yn awdurdodi'r Prif Ysgrifennydd i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 29 Hydref 1999, gyda'r gwelliannau hynny y mae'n rhaid wrthynt i ateb gofynion technegol y Comisiwn;*

*yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd gynted ag y gall i osod gerbron y Cynulliad, yn y Gymraeg a'r Saesneg, destunau terfynol y dogfennau a gyflwynwyd i'r Comisiwn;*

*yn croesawu'r ymrwymiad blynyddol i ddarparu gwariant cyhoeddus fel y'i cyhoeddir yn Nhabl 3.2 o'r Ddogfen Raglennu Sengl ar gyfer Amcan 1, ac yn cydnabod y bydd cyfanswm y gyllideb a nodir yn y tabl hwn, ynghyd â'r cyllidebau a neilltuir ar gyfer Amcanion 2 a 3, o'u defnyddio'n effeithiol yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Raglennu Sengl, yn arwain at adfywiad*

*economaidd a chymdeithasol yng Nghymru;*

*notes that the implementation of this programme depends on the firm understanding that the Assembly will secure from the Treasury adequate funding additional to the Barnett block to cover the full structural fund allocation to Wales from the EU and the necessary public component of match funding;*

*yn nodi bod gweithredu'r rhaglen hon yn dibynnu ar y ddealltwriaeth glir y bydd y Cynulliad yn cael cyllid digonol, sydd yn ychwanegol at grant bloc Barnett, oddi wrth y Trysorlys, fel bod yr arian cyhoeddus cyfatebol y mae ei angen ar gael ynghyd â'r holl arian a neilltuwyd i Gymru gan yr UE o'r gronfa strwythurol;*

*seeks an unequivocal statement before 29 October 1999 from the First Secretary that the planned budget for such matters as health, education, social services and the environment which are funded from the block will not be reduced in order to allow the structural fund budget indicated in table 3.2 to be taken up in full; and*

*yn ceisio datganiad diamwys cyn 29 Hydref 1999 oddi wrth y Prif Ysgrifennydd na welir gostyngiad yn y gyllideb gynlluniedig ar gyfer materion megis iechyd, addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, a'r amgylchedd, sydd yn cael eu hariannu o'r bloc, er mwyn manteisio'n llawn ar gyllideb y gronfa strwythurol a nodir yn nhabl 3.2; ac*

*notes with approval the latest draft of the National Economic Development Strategy laid in the Table Office on 14 October 1999, and requests the First Secretary to develop this further in the light of the additional European funding to be made available to Wales and the need to promote the fullest possible integration between European-funded and domestic policies and programmes.*

*yn nodi gyda chymeradwyaeth ddrafft diweddaraf y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 1999, ac yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd ei datblygu ymhellach yng ngoleuni'r cyllid Ewropeaidd ychwanegol a ddaw i Gymru a'r angen i integru cymaint ag y gellir y polisiau a'r rhaglenni a ariennir gan Ewrop gyda pholisiau a rhaglenni domestig.*

*A vote was held by show of hands.  
Amended motion adopted.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.  
Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.*

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Clefyd Alzheimer a rhoi Aricept ar Bresgripsiwn Alzheimer's Disease and the Prescribing of Aricept**

**Christine Humphreys:** In accordance with the Standing Orders according to Jocelyn Davies, I have accepted requests to speak from Dr Dai Lloyd, Dr Brian Gibbons and David Melding.

**Christine Humphreys:** Yn unol â'r Rheolau Sefydlog yn ôl Jocelyn Davies, derbyniais geisiadau i siarad oddi wrth Dr Dai Lloyd, Dr Brian Gibbons a David Melding.

**The Presiding Officer:** Order. I assure you that the Standing Orders are not yet fully drafted by Jocelyn Davies. However, I take your point.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn eich sicrhau nad yw Jocelyn Davies wedi cwblhau drafftio'r Rheolau Sefydlog eto. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn eich pwynt.

**Christine Humphreys:** I begin by explaining that although Alzheimer's

**Christine Humphreys:** Dechreuaf drwy egluro, er bod clefyd Alzheimer, fel llawer o

disease, like many diseases, mainly affects sufferers and their carers, I will not draw on personal experiences during this speech because there have been no cases of Alzheimer's in my family so far.

My main purpose is to raise awareness of one way the disease can be treated and to highlight the attitudes towards its treatment in the health authorities in Wales. Alzheimer's disease is the one of the most common causes of dementia in the UK. It causes over 60 per cent of dementia cases. It is a physical disease that attacks the brain cells, brain nerves and transmitters. In the disease, the production of the chemical messenger acetylcholine is disrupted, nerve ends are attacked and cells die. The brain shrinks as gaps develop in the temporal lobe—the area where information is received and stored. As a result, the ability to remember, speak, think and make decisions is affected. People forget recent events, names and faces and have difficulty understanding what is being said. They become confused when handling money or using equipment and, in more advanced cases, patients can adopt unsettling behaviour. In the end, the personality totally disintegrates and the person becomes totally dependent or bed bound.

5:00 p.m.

Many of us fear the disease and there are times when those of us with busy lives probably feel that we are displaying some of the symptoms. However, the Alzheimer's Disease Society reassures us that our memory gets worse with age because we have more to remember; a poor memory does not mean that we are displaying symptoms of dementia or Alzheimer's disease.

However, 10,000 people in north Wales suffer from the disease. Conwy unitary authority, because of towns like Colwyn Bay, Rhos-on-Sea and others—the area once dubbed *costa geriatrica*—has a particularly high number of cases—

glefydau, yn effeithio'n bennaf ar y dioddefwyr a'r rhai sydd yn eu cynnal, na fyddaf yn cyfeirio at brofiadau personol yn ystod yr araith hon oherwydd ni fu achosion o glefyd Alzheimer yn fy nheulu hyd yn hyn.

Y prif amcan sydd gennyf yw codi ymwybyddiaeth ynghylch un dull o drin y clefyd a thynnu sylw'r awdurdodau iechyd yng Nghymru at agweddau at drin y clefyd. Clefyd Alzheimer yw un o achosion mwyaf cyffredin gorffwylltra yn y DU. Mae'n achosi dros 60 y cant o'r achosion o orffwylltra. Clefyd corfforol ydyw sydd yn ymosod ar gelloedd yr ymennydd, a nerfau a throsglwyddyddion yr ymennydd. Mae'r clefyd yn amharu ar gynhyrchu'r negeseuydd cemegol asetilcolin, yn ymosod ar bennau nerfau a bydd celloedd yn marw. Bydd yr ymennydd yn crebachu wrth i fylchau ddatblygu yn y llabed arleisiol—y man lle y caiff gwybodaeth ei derbyn a'i chadw. O ganlyniad, effeithir ar y gallu i gofio, llefaru, meddwl a phenderfynu. Bydd pobl yn anghofio digwyddiadau diweddar, enwau a wynebau a chânt drafferth i ddeall yr hyn a ddywedir. Byddant yn drysu wrth drafod arian neu ddefnyddio offer ac, yn yr achosion mwy datblygedig, gall cleifion ymddwyn yn gythryblus. Yn y pen draw, bydd y bersonoliaeth yn ymddatod yn llwyr a bydd y person yn gwbl ddibynnol neu'n gaeth i'r gwely.

Mae ar lawer ohonom ofn y clefyd ac ar adegau bydd y rhai ohonom sydd â bywydau prysur yn teimlo o bosibl ein bod yn amlygu rhai o'r symptomau. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn ein sicrhau bod y cof yn gwaethygu wrth heneiddio am fod gennym fwy i'w gofio; nid yw cof gwael yn golygu ein bod yn amlygu symptomau gorffwylltra neu glefyd Alzheimer.

Fodd bynnag, mae 10,000 o bobl yng ngogledd Cymru yn dioddef o'r clefyd. Ceir nifer arbennig o uchel o achosion yn ardal awdurdod unedol Conwy, oherwydd trefi fel Bae Colwyn, Llandrillo yn Rhos ac eraill—yr ardal a elwid ar un adeg yn *costa geriatrica*—

**The First Secretary:** Steady on.

**Christine Humphreys:** Sorry Alun. You do not live in *costa geriatrica* any longer do you?

The area has a particularly high number of Alzheimer's cases. Nearly 2,500 of north Wales's cases live in the Conwy unitary authority—the highest number in Wales except for Rhondda Cynon Taff. Behind these figures are people struggling to come to terms with what is happening and carers watching loved ones change and become strangers. The Alzheimer's Disease Society provides help and support to carers in particular. They provide advice on how to care for and cope with someone suffering from dementia and, perhaps more importantly, they have formed support groups.

One carer told me recently how important her local support group was. As her mother's condition deteriorated and her behaviour became increasingly strange, friends and family stayed away. Her support group has now become her family. Carers are pleading increasingly that their needs should be assessed at the same time as the sufferer of the disease, and that doctors should be trained to deal with sufferers. Another carer told me how her mother was treated when she broke her femur. She said

'I had to take the doctor to one side and tell him not to shout at my mother. I told him that she was a human being despite having Alzheimer's disease and that if he had any instructions to give her, I would give them to her.'

This raises issues of care when Alzheimer's sufferers can no longer be cared for at home. As our population ages, we will need to look not only at standards of care in our homes for the elderly but at the outcomes of that care. In too many cases Alzheimer's sufferers who become increasingly disruptive as the disease progresses are sedated for long periods of time by staff who may not have had the

**Y Prif Ysgrifennydd:** Araf deg.

**Christine Humphreys:** Mae'n ddrwg gennyf, Alun. Nid ydych yn byw ar y *costa geriatrica* bellach, onid ydych?

Ceir nifer arbennig o uchel o achosion Alzheimer yn yr ardal. Mae bron 2,500 o'r achosion yng ngogledd Cymru'n byw yn awdurdod unedol Conwy—y nifer uchaf yng Nghymru heblaw am Rondda Cynon Taf. Y tu ôl i'r ffigurau hynny mae pobl sydd yn ymdrechu i ddygymod â'r hyn sydd yn digwydd a chynhalwyr yn gwyllo anwyliaid yn newid ac yn troi'n ddieithriaid. Mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn darparu cymorth a chefnogaeth i gynhalwyr yn arbennig. Maent yn darparu cyngor ynghylch sut i ofalu am rywun sydd yn dioddef o orffwylltra, a sut i ymdopi â hwy, ac yn bwysicach efallai, maent wedi ffurfio grwpiau cefnogaeth.

Dyweddod un cynhaliwr wrthyf yn ddiweddar pa mor bwysig oedd ei grŵp cefnogaeth lleol. Wrth i gyflwr ei mam waethygu ac i'w hymddygiad fyd yn fwy rhyfedd, yr oedd ffrindiau a pherthnasau'n cadw draw. Ei grŵp cefnogaeth yw ei theulu bellach. Mae cynhalwyr yn apelio fwyfwy am gael asesu eu hanghenion ar yr un pryd â'r un sydd yn dioddef o'r clefyd, ac am hyfforddi meddygon i ymdrin â'r dioddefwyr. Dywedodd cynhaliwr arall wrthyf am y modd y cafodd ei mam ei thrin pan dorrodd ei chlun. Meddai hi

'bod yn rhaid imi siarad yn dawel â'r meddyg a dweud wrtho am beidio â gweiddi ar fy mam. Dywedais wrtho mai bod dynol ydoedd er bod clefyd Alzheimer arni ac, os oedd ganddo gyfarwyddiadau, mai fi fyddai'n eu rhoi iddi.'

Mae hyn yn codi materion ynghylch gofal lle nad oes modd gofalu mwyach am ddiodefwyr clefyd Alzheimer yn eu cartrefi. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, bydd yn rhaid inni nid yn unig ystyried safonau gofal yn ein cartrefi henoed ond canlyniadau'r gofal hwnnw hefyd. Mewn gormod o lawer o achosion bydd diodefwyr clefyd Alzheimer sydd yn mynd yn fwyfwy trafferthus wrth i'r

training to deal effectively with the disease's symptoms.

The causes of Alzheimer's disease are not known and there is as yet no cure. There have been advances, however, in the treatment of mild to moderate Alzheimer's disease during the last few years with the licensing of a drug called Aricept. Pfizer markets Aricept, and in March 1997, it was the first drug to be licensed in the UK specifically for Alzheimer's disease. Nobody pretends that this drug cures Alzheimer's disease. It patently does not, nor does it stop the disease progressing eventually. However, it reduces the breakdown of acetylcholine and leads to increased communication between nerve cells. This can lead to a temporary improvement or stabilisation in mild to moderate cases.

When Aricept was licensed there were two cheers from the Alzheimer's Disease Society, an appreciation that the drug was finally on the market, but also an acceptance that there is still a long way to go.

Since 1997, there have been claims and counter claims about the drug. There is now a growing source of evidence that shows positive results for people with mild to moderate symptoms. Cases are cited of people who had displayed signs of confusion—getting up in the middle of the night, getting dressed and wandering about—now able to care for themselves. In some cases, these obvious signs of improvement have been sustained for over 12 months. Aricept can only be prescribed under certain conditions. The NHS Standing Medical Advisory Committee issued guidelines in April 1998 recommending that treatment should be initiated and supervised by a specialist in the management of dementia, usually a consultant psycho-geriatrician. The benefits should be assessed at 12 weeks and treatment should only continue for patients showing evidence of benefit. After the initial assessment, prescription and monitoring by a consultant, a GP could further prescribe.

clefyd ddatblygu yn cael eu tawelu am gyfnodau hir gan staff nad ydynt o bosibl wedi derbyn yr hyfforddiant i ymdrin yn effeithiol â symptomau'r clefyd.

Mae achosion clefyd Alzheimer yn anhysbys ac nid oes meddyginiaeth iddo hyd yn hyn. Fodd bynnag, fe gafwyd datblygiadau yn y driniaeth o glefyd Alzheimer ysgafn a chymedrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn gyda thrwyddedu cyffur o'r enw Aricept. Pfizer sydd yn marchnata Aricept ac ym Mawrth 1997, hwn oedd y cyffur cyntaf i'w drwyddedu yn y DU at glefyd Alzheimer yn benodol. Nid oes neb yn honni bod y cyffur hwn yn gwella clefyd Alzheimer. Mae'n amlwg nad ydyw, ac nid yw'n atal y clefyd rhag datblygu yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'n lleihau ymddatodiad asetylcolin ac yn arwain at fwy o gyfathrebu rhwng celloedd nerfau. Gall hyn arwain at welliant neu sefydlogi dros dro mewn achosion ysgafn a chymedrol.

Pan drwyddedwyd Aricept, rhoddwyd dwy hwrê gan Gymdeithas Clefyd Alzheimer, am ei bod yn gwerthfawrogi bod y cyffur ar y farchnad o'r diwedd, ond yr oedd hefyd yn derbyn bod cryn ffordd o'i blaen eto.

Ers 1997, bu honiadau a gwrth-honiadau ynghylch y cyffur hwn. Bellach ceir tystiolaeth gynyddol sydd yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn achos pobl â symptomau ysgafn a chymedrol. Cyfeirir at achosion o bobl a oedd wedi amlygu arwyddion o orffwylltra—codi gefn nos, gwisgo a mynd ar grwydr—sydd bellach yn gallu gofalu amdanynt eu hunain. Mewn rhai achosion, mae'r arwyddion amlwg o wellhad wedi parhau'n hwy na 12 mis. Ni ellir rhoi Aricept ar bresgripsiwn ond o dan rai amodau. Cyhoeddwyd canllawiau gan Bwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog yr NHS yn Ebrill 1998 yn argymhell y dylai triniaeth gael ei dechrau a'i goruchwylio gan arbenigwr ar reoli gorffwylltra, a hwnnw'n seico-geriatregydd ymgynghorol fel arfer. Dylid asesu'r budd a geir ar ôl 12 wythnos ac ni ddylid parhau â'r driniaeth oni bai fod y cleifion yn amlygu arwyddion o wellhad. Ar ôl yr asesiad dechreuol, y presgripsiwn a monitro gan ymgynghorydd, fe allai meddyg



teulu ei roi ar bresgripsiwn wedi hynny.

Assembly Members need to be aware of what the Alzheimer's Disease Society, in their letter on 20 July, asked Jane Hutt to address, namely the inequity of the availability of Aricept on NHS prescription in Wales.

Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn ymwybodol o'r hyn y gofynnwyd i Jane Hutt ymdrin ag ef mewn llythyr oddi wrth Gymdeithas Clefyd Alzheimer ar 20 Gorffennaf, sef yr annhegwch o ran argaeledd Aricept ar bresgripsiwn yr NHS yng Nghymru.

I was pleased to read in a paper this morning that the Bro Taf Health Authority have now authorised consultants to prescribe drugs for Alzheimer's disease. Gwent allows prescribing by hospital consultants under agreed criteria and Dyfed-Powys Health Authority, which has the best record of prescribing Aricept, allows consultants to prescribe. However, there is an inequity in the private prescribing of Aricept. Some consultants will prescribe for private purchase, some will not. For those who get a private prescription there is then inequity between pharmacists. Branches of the Alzheimer's Disease Society have reported chemists in the same town charging between £60 and £114 for one month's supply of 5mg tablets.

Yr oeddwn yn falch o ddarllen yn y papur newydd y bore yma bod Awdurdod Iechyd Bro Taf bellach wedi awdurdodi ymgynghorwyr i roi cyffuriau ar bresgripsiwn ar gyfer clefyd Alzheimer. Mae Gwent yn caniatáu i ymgynghorwyr ysbyty eu rhoi ar bresgripsiwn o dan feini prawf a gytunwyd ac mae Awdurdod Iechyd Dyfed-Powys, sydd â'r record orau o roi Aricept ar bresgripsiwn, yn caniatáu i ymgynghorwyr wneud hynny. Fodd bynnag, fe geir annhegwch wrth roi Aricept ar bresgripsiwn preifat. Bydd rhai ymgynghorwyr yn ei roi ar bresgripsiwn i'w brynu'n breifat, ac eraill ddim. Yn achos y rhai sydd yn derbyn presgripsiwn preifat fe geir annhegwch rhwng fferyllwyr. Mae canghennau o Gymdeithas Clefyd Alzheimer wedi rhoi gwybod am fferyllwyr yn yr un dref yn codi rhwng £60 a £114 am gyflenwad mis o dabledi 5mg.

Carers of Alzheimer's sufferers in north Wales are incensed. They know that if they lived in another area, or across the border in Cheshire, their loved ones would have the opportunity of being assessed for their suitability to be treated with Aricept on the NHS. Instead, the North Wales Health Authority seems to be hiding behind the SMAC guidelines. In its letter to the Alzheimer's Disease Society in February this year, it appears to be placing a blanket ban on the prescribing of Aricept. It was scrutinising many options and now, seven months later, the Alzheimer's Disease Society still awaits a reply. Carers and patients in north Wales have been denied the opportunity of the months of respite Aricept would have given them.

Mae'r rhai sydd yn cynnal dioddefwyr clefyd Alzheimer yng ngogledd Cymru wedi eu cythruddo. Gwyddant, pe baent yn byw mewn ardal arall, neu dros y ffin yn Swydd Gaer, y byddai cyfle gan eu hanwyliaid i gael eu hasesu o ran y priodoldeb o'u trin ag Aricept ar yr NHS. Yn lle hynny, mae'n ymddangos bod Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yn cuddio y tu ôl i ganllawiau'r Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog. Yn ei lythyr at Gymdeithas Clefyd Alzheimer yn Chwefror eleni, ymddengys ei fod yn rhoi gwaharddiad cyffredinol ar roi Aricept ar bresgripsiwn. Yr oedd yn archwilio llawer o ddewisiadau ac yn awr, saith mis wedyn, mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn dal i ddisgwyl ateb. Ni chaiff cynhalwyr a chleifion yng ngogledd Cymru y cyfle i gael y misoedd o ysbaid y byddai Aricept yn eu rhoi iddynt.

As I said, nobody claims that Aricept is a cure for Alzheimer's disease. In cases where it is an appropriate treatment it either slightly improves or holds the condition temporarily. It can provide the all-important breathing space for carers to hold on to their loved ones for a short time before the inevitable deterioration takes place.

As it is a temporary treatment, no one is likely to be prescribed Aricept for longer than 12 months, at a cost to the health authority of a little over £1,000.

5:10 p.m.

The inequity of provision has led the Alzheimer's Disease Society to say in their letter to Jane Hutt:

'It is difficult not to draw a cynical conclusion. Aricept is a treatment for patients who are mainly elderly and whose treatment would not create substantial savings within the NHS budget; the reason that the introduction of this drug is being resisted so strongly by NHS managers is ageism.'

Although it would not create substantial savings within the NHS budget, I would argue that it could create savings within the social services budget.

The Alzheimer's Disease Society hopes that the apparent discrimination against older people is an incorrect interpretation of the experience of their members. I join them in that hope. It is wrong that those who have contributed to our NHS longest should perceive themselves to be the victims of rationing of services at what can only be described as the most distressing of times.

**David Lloyd:** Mae Alzheimer yn glefyd difrifol ac yn un sydd yn cynyddu. Bydd un ym mhob pedwar o rai dros 84 mlwydd oed yn dioddef o'r clefyd, sef dros 700,000 ym Mhrydain. Fel is-lywydd anrhydeddus Cymdeithas Alzheimer yn Abertawe, yr wyf yn llongyfarch y Gymdeithas Clefyd Alzheimer ar ei chyfraniad allweddol i leddfu anawsterau pobl sydd yn gofalu am y sawl sydd yn dioddef o Alzheimer.

Fel y dywedais, nid oes neb yn honni bod Aricept yn gwella clefyd Alzheimer. Mewn achosion lle y mae'n driniaeth addas bydd un ai'n gwella ychydig neu'n atal y cyflwr dros dro. Fe all roi seibiant pwysig i gynhalwyr gael dal gafael yn eu hanwyliaid am gyfnod byr cyn i'r dirywiad anorfod ddigwydd.

Gan ei bod yn driniaeth dros dro, nid oes neb yn debygol o dderbyn Aricept ar bresgripsiwn am fwy na 12 mis, ar gost i'r awdurdod iechyd o ychydig dros £1,000.

Oherwydd annhegwch y ddarpariaeth mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn dweud yn eu llythyr i Jane Huttei bod yn:

'yn anodd peidio â dod i gasgliad sinicaidd. Triniaeth i gleifion oeddrannus gan fwyaf yw Aricept ac na fyddai eu trin yn golygu arbed llawer o arian yng nghyllideb yr NHS; gwahaniaethu ar sail oedran yw rheswm rheolwyr yr NHS am wrthwynebu cyflwyno'r cyffur hwn.'

Er na fyddai'n creu arbedion sylweddol yng nghyllideb yr NHS, yr wyf yn dadlau y gallai greu arbedion yng nghyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn gobeithio bod y gwahaniaethu ymddangosiadol yn erbyn pobl hŷn yn gamddehongliad o brofiad eu haelodau. Yr wyf finnau'n gobeithio hynny. Ni fyddai'n iawn i'r rhai a gyfrannodd i'r NHS hwyaf eu gweld eu hunain yn rhai sydd yn dioddef oherwydd dogni ar wasanaethau ar adeg sydd yn sicr o fod ymysg y rhai mwyaf gofidus.

**David Lloyd:** Alzheimer's is a serious disease and is increasing. One in four of those over 84 years old will suffer from the disease, that is over 700,000 in Britain. As the honorary vice-president of the Alzheimer's Society in Swansea, I congratulate the Alzheimer's Disease Society on its vital contribution to alleviating the difficulties of people who look after Alzheimer's sufferers.

Mae Aricept yn gallu cael rhywfaint o effaith er gwell weithiau mewn rhai achosion cynnar o'r clefyd. Dyna'r unig dystiolaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae Aricept yn ddatblygiad cyffrous oherwydd cyn iddo gael ei gyflwyno nid oedd gennym ddim i'w gynnig. Mae'n ffynhonnell o obaith mawr iawn. Serch hynny, mae angen llawer mwy o waith ymchwil cyn inni fod yn sicr o lawn effaith Aricept a chyffuriau tebyg. Mae dau gyffur arall ar y ffordd. Fel y dywedodd Christine, nid yw Aricept yn atal Alzheimer ac nid yw'n gallu gwella neb o'r clefyd.

Yn gyffredinol, mae'r cwmnïau cyffuriau rhyngwladol yn gyfrwys iawn yn eu hysbysebu. Trwy roi pwysau ar y cyhoedd maent hefyd yn rhoi pwysau ar feddygon oherwydd bod rhaid inni aros am y dystiolaeth. Mae'r cwmnïau cyffuriau mawr yn awr yn rhoi pwysau uniongyrchol ar y cyhoedd, sydd wedyn yn rhoi pwysau ar y meddygon cyn i'r dystiolaeth glinigol gyflawn fod ar gael. Serch hynny, mater clinigol arbenigol iawn yw defnyddio Aricept gan fod y cyfrifoldeb am effeithiau a sgîl-ffeithiau'r cyffur cryf hwn ar ysgwyddau'r meddyg sydd yn llofnodi'r presgripsiwn. Dyna'n cyfrifoldeb fel meddygon. Bydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn ystyried triniaeth i glefyd Alzheimer yn ystod y misoedd nesaf. Os bydd y Sefydliad hwn yn barnu bod y cyffur yn saff ac yn dweud wrthym pryd y dylem roi presgripsiwn ar gyfer Aricept a chyffuriau tebyg, gobeithiaf y bydd adnoddau yn dilyn y penderfyniad hwnnw. Wedi i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol benderfynu y cawn ddefnyddio Aricept ar gyfer pobl sydd yn dioddef o Alzheimer, ni fyddai'n deg i feddygon os na fydd arian yn dilyn y penderfyniad. Yr ydym yn sôn am adnoddau neu ddiffyg adnoddau oherwydd diwedd y gân yw'r geiniog. Os na fydd adnoddau yn dilyn penderfyniadau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, byddwn yn parhau i dderbyn triniaeth yn ôl lle'r ydym yn byw.

**Jane Hutt:** I thank Christine for drawing our attention to the distressing condition of Alzheimer's disease, which will affect

Aricept can have some improving effect in some early cases of the disease. That is the only evidence we have at the moment. Aricept is an exciting development because before it was introduced we did not have anything to offer. It is a source of great hope. However, far more research needs to be done before we are sure of the full effect of Aricept and other drugs. There are two other drugs on their way. As Christine said, Aricept does not prevent Alzheimer's and cannot cure anyone of the disease.

Generally, the international drug companies are very cunning in their advertising. By putting pressure on the public they are also putting pressure on doctors because we have to wait for the evidence. The large drug companies now put direct pressure on the public who then put pressure on doctors before the complete clinical evidence is fully in place. However, using Aricept is a very specialised clinical matter because the responsibility for the effects and side-effects of this strong drug rests on the shoulders of the doctor who signs the prescription. That is our responsibility as doctors. The National Institute for Clinical Excellence will consider treatment for Alzheimer's disease during the next few months. If NICE decides that it is safe and tells us when we should prescribe Aricept and similar drugs, I hope that resources follow that decision. After NICE decides that we can use Aricept for Alzheimer's sufferers, it would not be fair to doctors if money does not follow the decision. We are talking here about resources or the lack of resources because it all comes down to money. If resources do not follow any decisions by NICE, we shall continue to receive treatment according to where we live.

**Jane Hutt:** Diolchaf i Christine am dynnu'n sylw at y cyflwr gofidus a achosir gan glefyd Alzheimer, a fydd yn effeithio ar tuag un ym

around one in four of us. It is important that attention is drawn to the variations in prescribing and in applying the guidance in Wales. Alzheimer's disease is distressing for patients and carers alike. We do not know what its causes are and there is no known cure. The disease is described by the Alzheimer's Disease Society as the major health and social care challenge of the next century. Over 40,000 people in Wales suffer from dementia and tens of thousands provide care. Christine made a powerful speech highlighting concerns in Conway. There are similar areas in all of our constituencies where there are many retired people who will need this type of care.

There are treatments available that show some promise of halting the progress of the disease. These include new anti-dementia medicines that have been licensed in the last two years, Aricept being one of them. Studies show that drugs can slow the rate of cognitive decline for some patients with Alzheimer's disease for a limited period. They are, apparently, not effective for other forms of dementia. It is helpful that the Alzheimer's Disease Society's manifesto recommends that the Assembly should ensure access to anti-dementia treatment on the basis of clinical need. This is an important issue related to the point about the National Institute for Clinical Excellence. This is how we must move forward.

It is important that support groups for patients with Alzheimer's have taken a realistic view of drug treatment and have not sought to raise expectations about what this treatment can achieve. The issue most often raised is that of local variations and postcode prescribing. This will come to light through the Assembly and we will need to monitor the situation. We have heard about the guidance from SMAC. It issued guidelines in May 1998 through the Chief Medical Officer, Dr Ruth Hall, to the NHS in Wales. We also heard about the health authorities' response. SMAC recommended that treatment should be initiated only by a

mhob pedwar ohonom. Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwahaniaethau wrth roi'r cyffur ar brecripsiwn ac wrth gymhwyso'r canllawiau yng Nghymru. Mae clefyd Alzheimer yn peri gofid i gleifion ac i gynhalwyr fel ei gilydd. Ni wyddom beth sydd yn ei achosi ac nid oes meddyginiaeth hysbys. Disgrifir y clefyd gan y Gymdeithas Clefyd Alzheimer fel yr her fwyaf mewn iechedd a gofal cymdeithasol yn y ganrif nesaf. Mae dros 40,000 o bobl yng Nghymru yn dioddef o orffwylltra ac mae degau o filoedd yn darparu gofal. Cafwyd araith gref gan Christine yn tynnu sylw at bryderon yng Nghonwy. Ceir ardaloedd tebyg ym mhob un o'n hetholaethau lle y mae llawer o bobl wedi ymddeol ac arnynt angen y math hwn o ofal.

Mae triniaethau ar gael sydd yn cynnig rhywfaint o obaith atal datblygiad y clefyd. Ymhlith y rhain y mae meddyginiaethau gwrth-orffwylltra newydd a drwyddedwyd yn y ddwy flynedd diwethaf, gan gynnwys Aricept. Mae astudiaethau'n dangos bod cyffuriau'n gallu arafu'r gyfradd dirywiad gwybyddol ymysg rhai cleifion sydd â chlefyd Alzheimer dros gyfnod byr. Ymddengys nad ydynt yn effeithiol ar gyfer ffurfiau gorffwylltra eraill. Mae o gymorth bod maniffesto Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn argymhell y dylai'r Cynulliad sicrhau bod triniaeth wrth-orffwylltra ar gael ar sail angen clinigol. Mae hwn yn fater pwysig sydd yn gysylltiedig â'r pwynt am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Dyma sut y bydd yn rhaid inni symud ymlaen.

Mae'n bwysig bod grwpiau cefnogaeth i gleifion â chlefyd Alzheimer wedi cymryd safbwynt ymarferol at driniaeth â chyffuriau ac nad ydynt wedi ceisio codi gobeithion am yr hyn y gall y driniaeth hon ei chyflawni. Y mater a godir amlaf yw amrywiadau lleol a phresgripsiwn yn ôl côd post. Daw hyn i'r amlwg drwy'r Cynulliad a bydd angen inni fonitro'r sefyllfa. Clywsom am arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog. Cyhoeddodd ganllawiau ym Mai 1998 drwy'r Prif Swyddog Meddygol, Dr Ruth Hall, ar gyfer yr NHS yng Nghymru. Clywsom hefyd am ymateb yr awdurdodau iechedd. Argymhelliad y Pwyllgor

specialist in the management of dementia, its benefit should be assessed at 12 weeks and treatment should continue only for those patients who evidently benefitted. We need an infrastructure of support to ensure that we have the memory clinics available for the assessment.

After initial problems, Bro Taf Health Authority now has consultants authorised to prescribe anti-dementia drugs. The prescribing by hospital consultants in Gwent Health Authority comes under the agreed criteria and good practice is seen in Dyfed-Powys Health Authority. North Wales Health Authority has agreed in principle to implement the SMAC guidelines. Further consideration is being given to this infrastructure, particularly the memory clinics. However, there are general practitioners prescribing about £58,000 worth of Aricept a year. North Wales Health Authority's attention should be drawn to this issue in relation to the guidance.

5:20 p.m.

It is also important for us to consider private prescriptions. We do not have any data on the extent of private prescriptions and pharmacists do not record their details. Inspection can be carried out through the Royal Pharmaceutical Society of Great Britain but we do not have routine access to this data. We do not want to encourage private prescriptions of Aricept and similar drugs because there is no assurance that patients are getting the right supervision and monitoring. We must ensure that there is no inequity of provision. That is unacceptable and it does not hold with our agreed objective to tackle inequalities of access to treatment in Wales. In the Health and Social Services Committee we have addressed in some depth the whole issue of prescribing. I set up a task and finish group on prescribing and at the last committee meeting we discussed the terms of reference and the membership of the group. The group will look at these kinds of issues—issues about equities in our prescribing practice and the

Ymgynghorol Meddygol Sefydlog oedd mai arbenigwr ar reoli gorffwylltra a ddylai ddechrau'r driniaeth, y dylid asesu'r budd a geir ohoni ar ôl 12 wythnos ac na ddylid parhau â'r driniaeth ond yn achos y cleifion hynny sydd wedi cael budd amlwg. Mae arnom angen fframwaith cefnogaeth i sicrhau bod clinigau cof ar gael gennym i asesu.

Ar ôl problemau dechreuol, mae Awdurdod Iechyd Bro Taf bellach wedi awdurdodi ymgynghorwyr i roi cyffuriau gwrth-orffwylltra ar bresgripsiwn. Mae ymgynghorwyr ysbyty yn Awdurdod Iechyd Gwent yn gwneud hynny o dan y meini prawf a gytunwyd a gwelir ymarfer da yn Awdurdod Iechyd Dyfed-Powys. Mae Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i weithredu canllawiau'r Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r fframwaith hwn, yn enwedig y clinigau cof. Fodd bynnag, fe geir meddygon teulu sydd yn rhoi gwerth £58,000 o Aricept y flwyddyn ar bresgripsiwn. Dylid tynnu sylw Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru at hyn yng ngoleuni'r arweiniad.

Mae hefyd yn bwysig inni ystyried prescripsiynau preifat. Nid oes gennym ddata ar nifer y prescripsiynau preifat ac ni fydd fferyllwyr yn cofnodi manylion amdanynt. Gellir cyflawni archwiliadau drwy Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr ond nid oes gennym hawl i weld y data hwn fel pwynt o drefn. Nid ydym am annog rhoi Aricept a chyffuriau tebyg ar bresgripsiwn preifat am nad oes sicrwydd bod cleifion yn derbyn yr oruchwyliaeth a'r monitro priodol. Rhaid inni sicrhau nad oes annhegwch yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn annerbyniol ac nid yw'n gyson â'r amcanion a gytunwyd gennym i ymdrin ag anghyfartalwch o ran mynediad i driniaeth yng Nghymru. Yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol buom yn ymdrin yn eithaf manwl â phwnc rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn yn ei gyfanrwydd. Sefydlaeth weithgor gorchwyl a gorffen ar bresgripsiwn. Yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor bu inni drafod cylch gwaith ac aelodaeth y gweithgor. Bydd y gweithgor yn

management of new drugs in Wales. We will have debates like this often until we get the National Institute of Clinical Excellence's guidelines on board. I know some of you have heard from drug companies.

**Brian Gibbons:** The problem with Aricept, Relenza, Beta Interferon and drugs for serious illnesses is that the drug companies are hyping these drugs even before they get to the stage of being officially launched. The anti-flu drug is a case in point. As Dai said, a key point—and it is vital the public adheres to this as well—is that we must not allow ourselves to be stampeded by the drug companies in pursuit of prescriptions for substances yet to be proven. The role of NICE in this is crucial. We all have to trust the integrity and professionalism of NICE rather than allowing ourselves to be stampeded by the drug companies.

**Jane Hutt:** That takes us to the other point Dai Lloyd made about the importance of research. We need to put pressure to ensure that research is undertaken.

**David Melding:** That is an important point. The effectiveness of treatment is vital, but we want to encourage pharmaceutical companies to develop good treatments. We want elderly people to benefit from the advances in medicine. Just because treatment may cost £1,000 or £2,000 or £3,000 a year when it is developed, and the person may only live five years because they are elderly, they will still be living with a greater quality of life. They should have the benefit of medical advances.

**Jane Hutt:** In Iechyd Morgannwg Health they are making the drug available within the framework of a clinical trial, which is important. We also talked about this in terms of breast cancer. By Christine bringing this

ystyried materion o'r fath—materion sydd yn ymwneud ag anghyfartalwch mewn ymarfer presgripsiwn a rheoli cyffuriau newydd yng Nghymru. Cawn ddadleuon fel hon yn aml hyd nes y gwelwn weithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Gwn fod rhai ohonoch wedi clywed oddi wrth y cwmnïau cyffuriau.

**Brian Gibbons:** Y broblem yn achos Aricept, Relenza, Beta Interferon a chyffuriau at afiechydon difrifol yw bod y cwmnïau cyffuriau'n gwthio'r cyffuriau hyn cyn iddynt gael eu lansio'n swyddogol hyd yn oed. Mae'r cyffur gwrth-ffliw yn enghraifft o hynny. Fel y dywedodd Dai, pwynt allweddol—ac mae'n hollbwysig i'r cyhoedd gadw at hyn hefyd—yw na ddylem gymryd ein rhuthro gan y cwmnïau cyffuriau i roi sylweddau ar bresgripsiwn sydd heb eu profi eto. Mae rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn hollbwysig yn hyn o beth. Rhaid inni oll ymddiried yn uniondeb a phroffesiynoldeb y Sefydliad hwn yn hytrach na chymryd ein rhuthro gan y cwmnïau cyffuriau.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n mynd â ni at y pwynt arall a wnaeth Dai Lloyd am bwysigrwydd gwaith ymchwil. Rhaid inni roi pwysau er mwyn sicrhau y cyflawnir gwaith ymchwil.

**David Melding:** Mae hynny'n bwynt pwysig. Mae effeithiolrwydd y driniaeth yn hollbwysig, ond yr ydym am annog cwmnïau fferyllol i ddatblygu meddyginiaethau da. Yr ydym am weld pobl oedrannus yn elwa ar y datblygiadau mewn meddygaeth. Er ei bod yn bosibl y bydd triniaeth yn costio £1,000 neu £2,000 neu £3,000 y flwyddyn pan gaiff ei datblygu, ac na fydd y person yn byw hwyrach ond am bum mlynedd am eu bod yn oedrannus, byddant yn dal i fyw gydag ansawdd bywyd gwell. Dylent gael y manteision o'r datblygiadau mewn meddygaeth.

**Jane Hutt:** Yn Iechyd Morgannwg Health maent yn darparu'r cyffur o fewn fframwaith prawf clinigol, sydd yn bwysig. Bu inni sôn am hyn yng nghyd-destun canser y fron. Am fod Christine wedi cyflwyno'r ddadl hon i'r

debate to the Chamber today we have drawn attention to the clinical trial in Iechyd Morgannwg Health and we should welcome that. We should encourage the drug companies with this kind of research. This debate has brought that subject to our attention. It will come up again in our debates about the carers' strategy, which we will start to discuss tomorrow and in our next Health and Social Services Committee meeting. The Alzheimer's Disease Society rightly points out that it is also about the services, the care that people receive in the community and the important link between drug treatment and the wider care aspects. I hope we will touch on these issues in our wider discussion in the Health and Social Services Committee, but thank you for drawing this to our attention. I will be following this up with the task and finish group on prescribing and with the health authorities in relation to the guidance that we expect them to follow.

**Y Llywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben. Diolch am gwrteisi'r Aelodau yn ystod y cyfarfod heddiw.

Siambr hon heddiw yr ydym wedi tynnu sylw at y prawf clinigol yn Iechyd Morgannwg Health a dylem groesawu hynny. Dylem annog y cwmnïau cyffuriau i gyflawni ymchwil o'r fath. Mae'r ddatl hon wedi dod â'r mater i'n sylw. Bydd yn codi eto yn ein dadleuon am y strategaeth i gynhalwyr, y byddwn yn dechrau ei thrafod yfory ac yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer yn iawn wrth nodi bod hyn hefyd yn ymwneud â'r gwasanaethau, y gofal y bydd pobl yn ei dderbyn yn y gymuned a'r cyswllt pwysig rhwng triniaeth â chyffuriau a'r agweddau ehangach ar ofal. Gobeithiaf y byddwn yn cyfeirio at y materion hyn yn ein trafodaeth ehangach yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond diolchaf i chi am dynnu'n sylw at hyn. Byddaf yn codi hyn gyda'r gweithgor gorchwyl a gorffen ar bresgripsiwn a chyda'r awdurdodau iechyd o ran yr arweiniad yr ydym yn disgwyl iddynt ei ddilyn.

**The Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close. I thank Members for their courtesy.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.24 p.m.  
The session ended at 5.24 p.m.*